Y DRYSORFA.

Rhif. 707.] MEDI, 1889. [Llyfr LIX.

LLWYDDIANT TEYRNAS MAB Y BRENIN.

GAN Y PARCH. JOHN JONES, F.R.G.S., BETHESDA.

SALM LXXII.

Mae y Salm hon yn rhoddi darluniad o lwyddiant teyrnasiad Mab y Brenin. Nid Solomon sydd yma, ond y Messïah: "Wele un mwy na Solomon yma." Dyna fydd y mater:—

Llwyddiant Teyrnas Mab y Brenin, yr Hwn yw Crist. A gobeithio y byddwn yn dymuno hyny, ac yn cyduno âg iaith y Salm, gan ddywedyd, "Amen, ac Amen."

I. *Ei llwyddiant* daearyddol.

Dywedir yma y bydd "ei lywodraeth o fôr i fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear." Desgrifiad barddonol ydyw hyn, ac yn golygu y bydd eangder y deyrnas yn cyrhaedd hyd derfynau y ddaear. Ac y mae Cristionogaeth i gael mantais ar bob darganfyddiad a wneir mewn daearyddiaeth, ac ar bob ychwanegiad at *fap* y ddaear. Ar ol i'r Archwiliwr—yr *explorer*—dreiddio i ganol y cyfandir anhysbys, a rhoddi ei linyn arno, rhoddi enw arno, planu ei faner arno, a'i feddiannu yn enw ei frenin—y mae cenad hedd Mab y Brenin yn myned ar ei ol, ac yn ol ei gomisiwn yn planu ei faner wèn arno, ac yn ei feddiannu i Frenin Sïon. Yn ddiweddar dywedai un areithiwr mewn dull barddonol, fod meddiannau a milwyr Prydain yn britho yr holl ddaear, fod sŵn ei *drum* hi yn dilyn cŵrs yr haul, a bod ei halawon hi yn diaspedain o glogwyn i glogwyn, ac o begwn i begwn. Mae hyny i fod yn wir, ac yn brophwydoliaeth a gyflawnir, yn hanes teyrnas y Salm hon, pan y bydd ei gorsafau a'i milwyr hi yn britho wyneb y ddaear, sŵn ei *drum* hi yn myned allan o'r dwyrain hyd y gorllewin, a'i halawon yn diaspedain drwy holl ororau daear faith. Ei maes hi ydyw y byd. Gwelsoch y darlun o *Atlas* a'r glôb ar ei gefn, ond Crist sydd i feddiannu y byd; Mab y Brenin fedr gario'r glôb ar ei ysgwydd. Bydd pob modfedd o dir ar *fap* y ddaear yn eiddo iddo yn y man.

II. *Llwyddiant y deyrnas yn* rhifyddol.

Mae y llwyddiant daearyddol yn blaenori y rhifyddol, ac y mae yn bosibl cael y naill heb y llall. Mae yn bosibl fod y wlad yn ei thiriogaeth wedi ei meddiannu, ond eto y trigolion heb eu hennill; y faner yn chwyfio ar y clogwyn, ond y preswylwyr heb ymostwng iddi. Ond y mae llwyddiant y deyrnas hon mewn rhif yn sicr, pan y daw holl drigolion y byd yn ddeiliaid teyrngarol i Fab y Brenin; fesur un ac un, hwyrach, ond eto deuant oll yn y man. Felly y mae dynion yn marw fesur un ac un, ond eto yn sicr o fyned oll; ac felly y mae dynion yn cael eu hennill i'r deyrnas fesur un ar ol un, ac fe geir yr olaf yn y man.

Ac edrycher ar *census* y deyrnas er cael golwg ar ei llwyddiant. Dacw y deuddeg yn ugain a chant; dyna ugain a chant yn dair mil; yn amser Cystenyn, dyna dair mil y Pentecost yn bum' miliwn; yn y drydedd ganrif ar ddeg, yn amser Wycliff, dyna y rhif yn ddeugain miliwn; ac erbyn hyn mae'r enwau sydd ar rôl y deyrnas oddeutu pum' cant o filiwnau o eneidiau! Dyna gynnydd! Nid ydynt oll yn bur, mae yn wir, ond eto y maent yn proffesu bod ymhlith ei ddeiliaid, ac yn arddel ei enw. Ac fe geir arwyddion sicr, nad ydyw yr amser ymhell pan y bydd pob llwyth, ac iaith a chenedl, wedi myned yn feddiant i Grist. Amen ac Amen.

III. *Llwyddiant y deyrnas* YN EI HEGWYDDORION. Mae yn bosibl cael llwyddiant daearyddol, cydio maes wrth faes, ac hefyd gynnydd mewn rhif, ond eto fod yno ddirywiad mewn egwyddorion, *decline* yn y cyfansoddiad. Mae tiriogaethau Mahometaniaeth yn eang, a'i phroffeswyr yn rhifo y miliynau, ond eto aflan a phwdr ydyw yn ei hegwyddorion. Mae y cancr yn ysu dan ei bron, ac nis gall barhau. Ond y mae Cristionogaeth yn gyfryw ag sydd yn hawlio *aros*, am ei bod yn gymhwys i aros, ac am y medr aros. Mae hi yn cyfateb i anghen y ddynoliaeth. Ganddi hi y mae y balm, y triagl, yr eli, a'r plastr all dyneru a gwella bron friw "merch fy mhobl." Ganddi hi y mae y *lever* sydd yn dyrchu, ac yn codi dynoliaeth syrthiedig i'r lan. A cheir ar ei siarter hi y breintiau hyny ag y mae calon teulu dyn yn gwaeddi ac yn hiraethu am danynt.

Dyma deyrnas y dyfodol, a dyma grefydd gyffredinol dynolryw. Mae hi i ddryllio y delwau, i orchfygu yr holl freniniaethau, ac i fod ei hun yn deyrnas dragywyddol, yr hon ni syfl. Er pan y mae hi wedi ei sefydlu, nid oes yr un arall wedi dyfod i'r maes i gydymgais â hi, er fod llawer wedi myned o'r golwg. Beth am grefyddau India a China? Ië, ond yr oeddynt hwy yn bod o'i blaen hi. Beth ynte am Fahometaniaeth, ai nid ydyw hon wedi cychwyn ar ei hol, ac yn wrthymgeisydd iddi? Gwir, ond cofier mai nid crefydd *wreiddiol* ydyw Mahometaniaeth. Nid ydyw ond cymysgedd, a'r hyn sydd bur ynddi, Cristionogaeth ydyw. Mae saint y Bibl mewn bri mawr yn y Coran, ac yn enwedig Crist, er fod Mahomet yn fwy wrth gwrs. Yr enw ar brif glochdŷ prif eglwys Fahometanaidd Damascus heddyw ydyw, "Yr Arglwydd Crist." Nid oes yr un grefydd wreiddiol wedi dyfod allan ar ei hol, ac yn ei herbyn, ac ni ddaw yr un byth.

Ac y mae hi yn gorchfygu, ac yn llwyddo yn y ffordd y cerddo. Mae paganiaeth wedi ffoi o'i gŵydd, a'r delwau mudion wedi eu chwilfriwio ganddi, gau-grefyddau yn gwywo yn ei goleuni hi, ac yn trengu wrth ei thraed. Er fod Mahometaniaeth yn awr mewn nerth a bri, eto y mae wedi ei nodi i'w dinystrio, ac y mae elfenau dinystr yn ei natur. Mab y Brenin biau yr orsedd.

Yn ddiweddar darganfyddwyd careg yn mur *mosque* Fahometanaidd yn Cairo, a'r ysgrifen ganlynol arni, "Dy deyrnas, O Grist! sydd deyrnas dragywyddol, a'th lywodraeth a bery o genedlaeth i genedlaeth." Ië, dyma brophwydoliaeth ar fur yr eglwys Fahometanaidd mai Crist biau yr orsedd. Ac fe sylweddolir yr ysgrifen yn y man. Dyma deyrnas fedr gydoesi âg amser, ïe, goroesi amser. Mae amser yn profi pob peth, yn enwedig hen sefydliadau—yn eu heneiddio, eu dirywio, a'u dinystrio. Pa le mae yr hen orseddfeinciau? Pa le mae yr hen ymherodraethau fu unwaith mewn awdurdod? Pa le mae Ninefeh, Babylon, a Rhufain gynt? Maent wedi eu dinystrio, a'u dileu oddiar wyneb y ddaear. Mae amser

a'i gyfnewidiadau wedi eu gorchfygu. Ond gall teyrnas Mab y Brenin oroesi holl nerth dirywiol amser, ac o dan ei gyfnewidiadau gynnyddu mewn ieuenctyd ac anfarwoldeb. "Ei enw a bery tra fyddo haul." Yr haul ydyw mesurydd a *chronometer* mawr amser. Y mae wedi bod yn dyst o lawer o gyfnewidiadau ar ein daear ni; yn tywynu ar lwyddiant ac aflwyddiant, ar fywyd ac ar angeu, ar y cryd a'r bedd, ar gerbyd y Jiwbili ac ar gerbyd yr angladd. Do, fe fu yn tywynu unwaith ar Babylon fawr, ei heolydd llydain, ei *squares* mawrion, ei gerddi godidog, ei themlau heirdd, a'i thyrau uchelfrig; ond erbyn heddyw y mae yn tywynu yn ddystaw ar y lle y bu, ar faes ei hadfail hi, lle bynag y mae. Ond dyma deyrnas bery tra fo haul—yn llygad yr haul byth; ïe, gall oroesi yr haul, hi bery yn dragywydd. Wedi i'r haul losgi i'w *socket*, bydd hon yn aros mewn blagur ieuenctyd a grym anfarwoldeb, yn deyrnas dragywyddol.

Gellir nodi tri rheswm dros i'r deyrnas hon barhau. (1) *Rhyddid.* Lle mae rhyddid mae'r orsedd yn sicr o aros. Mae rhyddid y caethion yn America wedi sicrhau sylfeini y cyfansoddiad mewn mwy o nerth. Dywedai Mr. Gladstone fod y fflam sydd yn lamp rhyddid yn anfarwol. Felly mae y fflam sydd yn lamp y deyrnas yn anniffoddadwy, fel nas gall holl feginau pyrth uffern ei chwythu allan byth.

Dyna elfen arall o barhad sydd yn y deyrnas ydyw (2) *Cydymdeimlad â'r gwan.* Cawn hyn yn y Salm hon. Mae Mab y Brenin yn gallu cydymdeimlo â'r gwan, yn gwrando ar lef y truan, ac yn achub yr anghenus. Ac y mae hyn yn egwyddor parhad i unrhyw deyrnas. Dyma wir rym teyrnasiad Victoria—nid mewn meirch a cherbydau, nid mewn milwyr a pherlau, ond mewn cydymdeimlad â'r ddynoliaeth yn ei gofid; anfon llythyr a rhodd i'r wraig weddw, ysgwyd llaw â'r eneth fach sydd yn marw ar wely yr *hospital.* Dyma *bulwark* ei gorsedd ydyw pethau o'r fath hyn! Mae llywodraeth Mab y Brenin i barhau byth, am ei fod yn cydymdeimlo â'r gweiniaid, ac yn rhwymo y rhai ysig.

(3) Mae Mab y Brenin *yn maddeu,* ac y mae hyny yn sicrhau ei orsedd byth. Canlyniad maddeuant ydyw cariad, ac y mae cariad am i'w wrthddrych fyw yn hir ac aros byth. Ei ddeiliaid ffyddlonaf ydyw y rhai y maddeuwyd fwyaf iddynt. Ac y maent yn dymuno ei lwyddiant, ac i'r holl ddaear gael ei llanw o'i ogoniant. Amen ac Amen. A dyma weddi olaf y credadyn ydyw gweddi dros lwyddiant y Brenin. "Gorphen gweddïau Dafydd fab Jesse."

ANHAWSDERAU ANFFYDDWYR.

Gan y Parch. O. PARRY-OWEN, *Tregynon.*

CYFADDEFAI Anffyddiwr yn ddiweddar, "Y rheswm paham y gwrthodais I Gristionogaeth oedd i osgoi yr anhawsderau cysylltiedig â'r derbyniad o honi." Pe dywedai pob Anffyddiwr ei hanes a'i brofiad mor agored a hwnw, credwn y cawsid cyfaddefiad cyffelyb gan bob un o honynt. Y mae yn perthyn i dderbyniad llawn ac agored o'r gyfundrefn Gristionogol y fath anhawsderau, i farn a theimlad rhai dynion, fel y chwennychant yn hytrach ymwrthod â hi a rhoddi holl ymadferthoedd eu natur i adeiladu cyfundrefn arall yn ei lle. Prif nodwedd y gyfundrefn hono yw absennoldeb hollol o bob anhawsder o natur anhawsderau Cristionogaeth. I feddwl ymchwilgar y mae swyn arbenig mewn "cyfundrefn" fel hon. Y cwestiwn, pa fodd bynag, yw a ellir d'od o hyd i gyfundrefn felly? Ai nid oes anhawsderau dyrys ac anhawdd yn perthyn i'r cyfundrefnau a gyfodwyd i fyny gan ddynion i wrthwynebu ac i wrthweithio dylanwad y gyfundrefn a gyfodwyd i fyny gan Dduw? Wrth adael anhawsderau mawr yn rhandir Cristionogaeth, ai

nid yw ein gwrthwynebwyr yn cyfarfod âg anhawsderau mwy yn rhandir oer Ammheuaeth? Ni chydnabydda un o honynt hyn, eto cydnebydd pob un *fod* iddynt hwythau eu hanhawsderau, ond eu bod, fel dynion doeth, rhwng dau ddosbarth o anhawsderau yn derbyn y dosbarth y mae ei anhawsderau leiaf. Ceisiant ddangos rhagoroldeb eu cyfundrefn hwy trwy ddangos bychandra cymharol ei hanhawsderau a'r hawsdra i fyned drostynt. Rhaid i ni "wrth ffydd" i fyned dros anhawsderau ein cyfundrefn grefyddol; nis gellir myned drostynt yr un ffordd arall. Ac y mae yr ymadrodd "drwy ffydd" yn ddirmygus yn eu golwg hwy. Y mae derbyn gwirionedd a chredu mewn Person anweledig "drwy ffydd," yn eu bryd hwy, yn eithafion ofergoeledd, os nad yn brawf o ffolineb a phenwendid truenus.

Ymysg "Erthyglau Ffydd" y dynion hyn nid oes un bwysicach yn eu golwg, nac un y cyfeiriant mor fynych ati, a'r hon sydd yn rhoddi pwys neillduol ar "y gallu cynhenid sydd mewn dyn i farnu drosto ei hun, ac edrych i mewn, trwy ymchwiliad personol, i wirionedd unrhyw gyfundrefn neu grefydd a gynnygir iddo." Nis gall eu meddwl hwy ond edrych ar grefydd y perthyn iddi anhawsderau nas gellir dyfod drostynt a'u gorchfygu ond "drwy ffydd," fel olion ofergoeledd nifer o benboethiaid ac arwraddolwyr yr oesau gynt. Rhaid i greadur mor ardderchog a Dyn gael cyfundrefn fwy "sylweddol" nag un felly. Yn hytrach na derbyn crefydd fydd mewn un modd yn gondemniad arno, gwell i ddyn fod heb grefydd yn y byd, neu ymdrechu hyd y mae ynddo i wneyd cyfundrefn ragorach yn ei lle. A hyn a wna anffyddwyr hyd eithaf eu gallu.

Gofynwn bellach, Ai dibwys a bychain anhawsderau ein gwrthwynebwyr? Ai ni pherthyn i Anffyddiaeth, yn gystal ag i Gristionogaeth, ei phwyntiau dyrys ac anhawdd? Atebwn yn hyderus fod i'n gwrthwynebwyr anhawsderau mawrion i'w gorchfygu, a phwyntiau tra dyrys ac anhawdd i'w hesbonio a'u cysoni. Edrychwn ar yr anhawsderau lawer a'u cyfarfyddant yn eu gwrthodiad dall o Gristionogaeth fel crefydd oruwchnaturiol.

Y wedd neillduol gyntaf a wisga Cristioncgaeth yw yr hanesyddol. Yn yr Efengylau yr ydym yn cael *hanes* y dyn hynotaf a fu ar y ddaear erioed; dylanwad bywyd yr hwn sydd yn parhau yn y byd eto. Yr oedd y fath swyn a dylanwad yn perthyn iddo fel yr ymgasglai pobl ato o bob cwr o'r wlad. Yn ei anerchiadau agorai lygaid ei wrandawyr ar wirioneddau newyddion—gwirioneddau yr oedd yn iechyd moesol i'r byd gael eu clywed; ac nid oedd ei weithredoedd yn gyffelyb i eiddo neb o'i flaen. Ni bu ar y ddaear yn hir cyn dechreu son am ei ddwyfol ddanfoniad yn rhinwedd ei ddwyfol fabolaeth. Mab Mair a Joseph ydoedd, ond hawliai erbyn hyn ei fod yn Fab Duw, a gwnai ei hunan yn "gystal a Duw." Haerai fod ganddo neges yn dyfod i'r byd y byddai dynoliaeth ar ei mantais ar ol iddo ei gwblhau. Synai ei ganlynwyr at hyn, ond yr oedd yn anmhosibl iddo eu twyllo, o herwydd y fantais oedd ganddynt i'w adnabod. Cynhyrfai hyn ei elynion yn ei erbyn, ac nid arosasant nes gweled ei groes wedi ei gorchuddio â'i waed. Wedi ei gladdu a bod o hono am dridiau yn y bedd y mae yn adgyfodi. Ar ol ei adgyfodiad erys ar y ddaear am ddeugain niwrnod, gan roddi, drwy ymweliadau mynych, y fantais oreu i'w ddysgyblion ac eraill i wybod "ei fod Ef yn fyw." Rhydd orchymyn i'w ddysgyblion i bregethu yr efengyl ymysg yr holl genedloedd, gan ddywedyd wrthynt y byddent "dystion iddo Ef yn Jerusalem, ac yn holl Judea, ac yn Samaria, ac hyd eithaf y ddaear." Tra yr oedd yr apostolion "ynghyd yn yr un lle," ar ol ei esgyniad Ef, ceir hwy yn cymeryd y mesurau anghenrheidiol i roddi effaith i'w orchymyn, drwy ddewis Mathias a'i ordeinio yn dyst o'i adgyfodiad.

O hyny allan ceir Cristionogaeth yn cael ei *lledaenu* fel hanesiaeth. Yr oedd yr hanes am "Grist byw" drwy adgyfodiad yn cario pobpeth o'i flaen, ac nid yw ei ddylanwad, gan dreigliad oesau, ond wedi graddol gynnyddu ac ymeangu. Fel hanes y pregethid ac y taenid Cristionogaeth gan Paul hefyd, ac ni fethwn weled yr elfen hanesiol yn ei Epistolau athrawiaethol. Rhoed i Gristionogaeth o'r dechreuad *dderbyniad* llawn fel hanes

hefyd, ac fel hanes dygwyddiadau goruwchnaturiol.

Yn awr, y mae y Gristionogaeth hanesyddol hon yn *hanesyddiaeth ysgrifenedig*. Nid traddodiad wedi ei gario i lawr gan ddynion ofergoelus un oes i'w brodyr ofergoelus mewn oes ddilynol ydyw Cristionogaeth. Hawlia Cristionogaeth fel hanes *ysgrifenedig* dderbyniad cyffredinol a pharod. Wrth gymhwyso ati, fel y cyfryw, y maen prawf a gymhwysir i benderfynu gwirionedd hanesyddiaeth yn gyffredin, cawn fod y prawfion yn bobpeth ellid ddymuno. Y mae y prawfion hyn yn amrywiol, a phob un yn foddhaol.

Fel hanes y credir mewn Cristionogaeth gan y rhai hyny yn y byd yn awr sydd wedi gwneyd derbyniad o honi,—y rhai y mae i Gristionogaeth y fath afael ynddynt a dylanwad arnynt. Bob "dydd cyntaf o'r wythnos" gwelir miloedd saint Duw yn ymgynnull ynghyd i'w addoli ef ac i wrando yn adnewyddol yr "hen, hen hanes" am Iesu a'i werthfawr waed. Nid yw y Sabboth ond cyfleusdra newydd i gyhoeddi yr hen hanes am farwolaeth ac adgyfodiad yr Iesu. Ac O! y dylanwad a garia yr hanes hwn ar feddwl a chalon y gwrandawyr. Am y dylanwad hwn y dywed un, "Y mae pob plentyn mewn teulu Cristionogol ar y cyntaf yn cael ei synu, yna ei swyno a'i ddyrchafu, gan hanes melus yr Arglwydd Iesu, yr hwn oedd yn ufudd i'w rieni, a fu byw yn Nazareth, ac, yn ddeuddeg oed, a adawyd yn Jerusalem. Hen ddyddiau hefyd, ar ol blino ar bobpeth arall, ac wedi cael digon ar y byd hwn, nid ydyw byth yn blino ar yr hanes a roddir i ni o'r geiriau a lefarwyd gan yr Iesu. Mor ddiderfyn y swyn i Gristionogion a fedd y wlad y sonia yr hanes hwn gymaint am dani, am y credir ganddynt fod yr hanes hwn yn wir!

Y mae agweddau eraill yn y rhai y dygir Cristionogaeth ger ein bron na chawn yn awr gyfeirio atynt. Gwelir oddiwrth yr hyn a ysgrifenwyd genym, ni a dybiwn, fod Cristionogaeth fel hanesyddiaeth yn wir, ac yn haeddu, ïe, yn hawlio pob derbyniad. Nid yw y rhesymau y cyfeiriasom ni atynt ond y rhai mwyaf arwynebol, eto hawliwn iddynt hwythau hefyd le ymysg ceinciau y rhaff sydd yn gwneyd i fyny y gwirionedd am ddwyfol darddiad y grefydd Gristionogol, yr hon sydd wedi bod y fath fendith i'r byd ac wedi gwneyd arno gymaint o'i hol. O ran hyny, y mae effeithiau pregethiad a dylanwad cyhoeddiad Cristionogaeth ar y byd yn gyfryw nas gellir eu hesbonio, ond drwy grediniaeth ddiysgog ynddi yn yr hyn oll y proffesa fod.

I derfynu, dywedwn *fod pob rheswm a ddygir o blaid Cristionogaeth gan ei phleidwyr yn anhawsder y rhaid i'w gwrthwynebwyr ei wynebu.* Try rhesymau Cristionogion dros dderbyn Cristionogaeth yn yr hyn oll ag ydyw, yn anhawsderau y rhaid i Anffyddwyr eu gorchfygu wrth ei gwrthod. Ond a ellir gorchfygu y rhai hyn? Pa esboniad a roddir ganddynt ar gynnwys y Pedair Efengyl? Pa fodd yr eglurant hanes yr Iesu? Ac os nad yw yr Epistolau ond *hanes* yr Efengylau wedi cymeryd ffurf mewn athrawiaethau, pa fodd, tybed, y gwnant i ffwrdd â'r Efengylau? Pa fodd y cysonant *hanes* yr Hanesyddiaeth hon â'u prophwydoliaeth hwy am hollol ddiddymiad Cristionogaeth yn y byd? Lliosoger rhesymau Cristionogion a lliosogir anhawsderau Anffyddwyr. "Gwrthod Cristionogaeth i osgoi anhawsderau" yn wir! Y mae Anffyddwyr yn eu canol.

Ni raid hysbysu darllenwyr y Drysorfa o'r rhesymau a ddygir gan ein gwrthwynebwyr dros wrthod ein Cristionogaeth, nac ychwaith eu cyfarwyddo, pe buasem ddigonol i'r cyfryw orchwyl, pa fodd i'w hateb. Y mae Gwyddoniaeth, meddant hwy, wedi gwneyd camrau mor freision yn ddiweddar, ac yn ei hymdaith wedi sarnu ofergoeledd y dyddiau gynt a'i dwyn i'r llawr. Y mae i ni, meddant, Huxley a Mill, Bain a Spencer, yn arweinwyr, ac ni fynem eu newid. Y gwirionedd yw fod Gwyddoniaeth wedi gwneyd erbyn ein dyddiau ni gamrau digon breision fel ag i alluogi yr hwn a redo i weled a chredu fod holl ffeithiau a hanesyddiaeth y Bibl yn wir.

"A little learning is a dangerous thing;
Drink deep, or taste not the Pierian spring."

Pe cloddiai ein gwrthwynebwyr yn ddyfnach, caent eu hunain yn glir oddiwrth luaws mawr o'r anhawsderau a'u hamgylchant. Ac yn bur fuan, o wneuthur felly, deuent i fedru "amgyffred gyda'r holl saint, beth yw y lled, a'r hŷd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth," a chyflawnid hwythau hefyd "â holl gyflawnder Duw."

Y PRIF FFEITHIAU YN HANES CRIST.

Gan y Parch. T. JAMES, M.A., *Llanelli.*

VII.—EI ADGYFODIAD *(parhâd).*

GANWYD yr Iesu i fod yn frenin, eithr brenin heb deyrnas na deiliaid ydoedd. Rhaid iddo sefydlu teyrnas iddo ei hun, ac ennill deiliaid i'w deyrnas. Pan yn dechreu gwneyd hyn bu farw. Pan yn y gwaith o gasglu deiliaid, gosodwyd terfyn ar ei fywyd. Cyfarfu llawer â'r cyffelyb dynged, er siomedigaeth i'w canlynwyr a dinystr i'w rhagolygon gobeithiol: "O flaen y dyddiau hyn y cyfododd Theudas i fyny, gan ddyweyd ei fod ef yn rhywun; wrth yr hwn y glynodd rhifedi o wŷr, ynghylch pedwar cant; yr hwn a laddwyd, a chynifer oll a ufuddhasant iddo a wasgarwyd, ac a wnaed yn ddiddym. Ar ol hwn y cyfododd Judas y Galilead, yn nyddiau y dreth; ac efe a drodd bobl lawer ar ei ol: ac yntau hefyd a ddarfu am dano, a chynifer oll a ufuddhasant iddo a wasgarwyd." Felly y bydd i'r Iesu os dyn yn unig yw, ac os dynol yw ei ddysgeidiaeth; eithr os o Dduw y mae, ni ddyfethir ef. Bu farw yn wirioneddol; ac os yn y bedd y gorwedd, daw diwedd buan ar ei ganlynwyr.

Gwir: eithr cododd o'r bedd; daeth yn fyw o froydd marwolaeth: ac yn ei sefyllfa newydd y mae yn feddiannol ar allu i sefydlu teyrnas iddo ei hun nad oedd yn ei feddiant cyn marw. Casglu nerth at ei waith dyfodol yr oedd yr Iesu yn ystod ei fywyd ar y ddaear. Pan yn cymeryd ei fedyddio gan Ioan, cyflawnai bob cyfiawnder, ac wrth hyny ennillai nerth. Wrth orchfygu Satan yn y diffeithwch, ychwanegid elfen newydd yn ei nerth. Ei ymroddiad llwyr i waith Duw yn nghanol profedigaethau a gwaradwyddiadau, yn gydweddol â'r ewyllys ddwyfol, ac mewn ufudd-dod i Dduw, a'i gwnai yn gryf ar gyfer y dyfodol. Bu farw yn wirfoddol rhwng lladron, gyda'r amcan i fod yn gryf i ddarostwng dynion, a'u dwyn yn ddeiliaid ufudd yn ei deyrnas—"perffeithiwyd ef trwy ddyoddefiadau." Pan gyfododd o'r bedd fore'r trydydd dydd, yr oedd y cwbl a ennillodd yn ei fywyd a'i farw wedi cydymgrynhoi yn un gallu mawr ynddo Ef ei hun; canolbwyntiai yr oll yn ei Berson gogoneddus, er cario ei amcanion a chyflawni ei waith gwaredigol yn y byd.

Hanfod ei ufudd-dod, ei ddyoddefiadau a'i farw, ddaeth yn allu newydd ynddo wedi codi, yr hwn a elwir gan yr Apostol: "grym ei adgyfodiad ef." Pe wedi aros yn y bedd ni fuasai un deyrnas ysbrydol i'w chael, dim Eglwys mewn bod, gan na fyddai nerth mewn ufudd-dod perffaith dyn marw i'w sefydlu a'i llywodraethu. Pa mor dda bynag ei fywyd, pa mor ddwyfol bynag ei ddysgeidiaeth, pa mor berffaith bynag ei ufudd-dod, a pha mor wirioneddol bynag ei farw, os arosai o dan lywodraeth angeu, byddai yr oll yn ofer ac aneffeithiol—parhäi y byd i orwedd yn mynwes yr un drwg, ac o dan farn Duw. Ni fyddai yma allu i uno dynion â Duw ac â'u gilydd mewn cydymdeimlad â chariad dwyfol. Efe wedi adgyfodi sydd alluog i wneuthur hyn, canys "Efe a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni." Euog oedd y byd, o dan farn condemniad o herwydd pechod: pawb yn yr un sefyllfa ac yn ddeiliaid yn nheyrnas y tywyllwch—yn blant digofaint ac yn nghaethiwed llygredigaeth, heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd.

Pan yn sefydlu eglwys iddo ei hun, dewisir dynion allan o'r byd, gelwir hwy i fod yn saint. Er effeithio hyn, dygir hwy i gysylltiad â Pherson sanctaidd, un cymeradwy gan Dduw; hwy yn cael eu codi i ffafr Duw yn rhinwedd teilyngdod a rhinweddau yr Un arall ag yr oeddent mewn undeb âg ef. Tra ymhell oddiwrtho, yr oeddynt o anghenrheidrwydd i fod yn annerbyniol. Cyfodwyd yr Iesu gyda'r

amcan i'w cyfiawnhau, i fod yn *centre* cyfiawnhâd rhai euog. Sicrhaodd ei adgyfodiad ei dderbyniad ef yn aberth digonol dros bechod, ac felly derbyniad i ffafr Duw i bawb ddaw i gysylltiad crediniol âg Ef yn rhinwedd haeddiannau ei aberth. Cyfranoga y rhai sydd mewn undeb âg ef o'i deilyngdod—eiddo Crist yn eiddo iddynt hwy; ac felly edrych Duw arnynt yn ngwyneb haeddedigaethau Gwaredwr *byw*. Y mae nerth yn yr Iesu wedi adgyfodi i newid perthynas dynion â Duw—holl haeddiannau ei aberth yn cael eu sylweddoli ynddynt trwy ffydd, ac felly eu gwneyd yn rhydd oddiwrth ddamnedigaeth: "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu."

Y mae y llywodraeth newydd hon i fod yn wahanol i ddim oedd yn y byd o'r blaen, oblegid codir yr holl ddeiliaid i berthynas plant i Dduw, i gyfranogi o'i natur ef. Yn yr eglwys a sefydlir gan Grist wedi codi o'r bedd, y mae'r aelodau i'w geni oddiuchod, ac yn rhinwedd eu genedigaeth oruchel yn feddiannol ar gydymdeimlad dwfn â Duw ac â'u gilydd. Rhaid i'r cyffelyb egwyddorion fod ynddynt, i ymwâu trwy eu cyfansoddiad ac i lywodraethu eu bywyd. Y mae y rhai hyn yn cyfnewid ansawdd y dyn oddi fewn, yn rhoddi cyfeiriad newydd i'r enaid, nodwedd gwahanol i'r syniadau, gwrthddrychau newyddion i'r serch, pleserau newyddion i ymhyfrydu ynddynt—mewn gair, dyrchafu dyn yn ei holl berthynasau a'i gysylltiadau. Pwy fedr wneyd hyn? Pa le y ceir nerth digon effeithiol i ddwyn hyn oddiamgylch? Dywed yr Apostol Pedr ei fod i'w gael yn adgyfodiad Crist: "Yr Hwn a'n hadgenedlodd ni i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw." Nid oedd yn holl lywodraeth Duw allu i effeithio y fath gyfnewidiad mewn dynion ar wahan oddiwrth ei adgyfodiad Ef. Dywed Paul mai Crist yw "Pen corff yr eglwys," "yr hwn yw y dechreuad"—dechreuad yr eglwys, yr hwn a roddodd fodolaeth iddi, ffynnonell ei bywyd, o'r hwn y rhed bywyd ysbrydol allan i'r gwahanol aelodau er eu cyfansoddi yn un corff. Fel y "Cyntaf-anedig oddiwrth y meirw" y mae felly; yn cymmodi dynion â Duw trwy waed ei groes; rhinweddau y gwaed ynddo, ac yn cael eu heffeithio ganddo yn rhinwedd ei adgyfodiad oddiwrth y meirw.

"Efe yw y dechreuad;" ynddo y cartrefa bywyd ysbrydol, ac o hono y derbynia yr eglwys ei bywyd: "A'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef;" "Ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras." Adgenedlir hwy trwy Iesu Grist. Y mae gallu ynddo wedi adgyfodi i fywhau dynion sydd yn gorwedd mewn marwolaeth. Y gallu trwy yr hwn y gorchfygodd bechod a marwolaeth pan roddodd i fyny yr ysbryd ar y groes, sydd ynddo wedi codi o'r bedd yn elfenau bywyd tragywyddol i bawb ddaw i gysylltiad âg ef yn yr Efengyl. Y bywyd sydd yn ffynnonellu ynddo ac yn tarddu o hono yn rhinwedd ei oruchafiaeth ar angeu sydd yn dyfod yn elfenau bywyd newydd yn mhawb o'i bobl. Hon yw y dduwiol anian a gyfranogir gan ddynion; hon sydd yn eu gwneyd yn ddynion byw—yn eu gwahaniaethu oddiwrth y byd, ac yn eu dwyn yn aelodau o'i gorff Ef. Crist byw a wna hyn.

Oddiwrth ei adgyfodiad ef y derbyn yr Eglwys, nid yn unig ei bodolaeth, ond hefyd allu i ymgysegru ac ymroddi i Dduw a'i waith. Cyfeiria Paul at hyn pan yn dywedyd i'r Iesu sylweddoli syniad y Salmydd am y Mab—"Myfi heddyw a'th genedlais di," yn y nerth dwyfol a amlygwyd ganddo ar ol ei adgyfodiad: "A eglurwyd yn *Fab* Duw mewn gallu, yn ol ysbryd santeiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Ail-ymaflodd yn awr yn y bywyd gogoneddus oedd iddo gyda'r Tad, a defnyddiodd ef yn ei ffurf newydd i neillduo pobl iddo ei hun, ac i'w cysegru i fod yn ddeiliaid ufudd ac ymroddgar yn ei deyrnas. Ar ol yr adgyfodiad y cymerodd hyn le yn ei gysylltiad â'r Eglwys, yn anfoniad ei Ysbryd i argyhoeddi ac achub: "Canys eto," meddai Ioan, "nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei roddi, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu eto." Nid oedd yr Iesu wedi codi o'r bedd, ac ymddyrchafu i'w fywyd gogoneddus, er gwneuthur yr Ysbryd yn ei ddylanwadau grasol yn eiddo iddo ei hun at ei waith. Ar ol yr adgyfodiad daeth i gyflawn feddiant o bob gallu anghenrheidiol at sefydlu Eglwys, trwy neillduo pobl iddo ei

hun. Ar ddydd y Pentecost gallu yr adgyfodiad oedd yn gweithio yn argyhoeddiad a dychweliad miloedd o'r rhai oedd yn bresennol—nerth yr Hwn a wnaed yn Arglwydd ac yn Grist yn yr adgyfodiad oedd yn bendithio pregeth Petr er symud miloedd o farwolaeth i fywyd—nerth Ysbryd sancteiddiad yr Iesu oedd yn galw dynion o'r byd ac yn eu neilldu o iddo ei hun. Hwn daniodd enaid yr apostolion i gysegru eu bywyd i'w wasanaeth, i ddyoddef newyn a syched, carcharau ac angeu, er mwyn ei enw Ef. Treuliodd Paul ei oes o dan ei ddylanwad; dim gwahaniaeth am gynghorau, carcharau ac angeu, yn foddlawn ymhob cyflwr, yn ymaberthu er mwyn ei Feistr. Cododd hwn gofadail dragywyddol iddo ei hun yn sefydliad yr Eglwys, llawer o aelodau yr hon fuont y cymeriadau gwaethaf yn nheyrnas y tywyllwch. Gwelid y rhai hyn yn ymwadu â phleserau, chwantau, anrhydedd, cyfoeth ac awdurdod, er mwyn yr Hwn a'u galwodd i fod yn saint. Miloedd o rai fu yn euog o gyflawni pob pechod yn un chwant, yn dyfod fel plant bychain wrth draed yr Iesu, ac yn cysegru eu hunain a'u heiddo i'w wasanaeth. Pa fodd yr effeithiwyd hyn? "Hwy a olchwyd, hwy a sancteiddiwyd, hwy a gyfiawnhäwyd yn enw yr Arglwydd Iesu a thrwy Ysbryd ein Duw ni." Nerth Ysbryd sancteiddiad Gwaredwr byw a'i cwblhaodd.

Peth anghydweddol â thueddiadau naturiol dyn yw ymadawiad â chyfeillion a pherthynasau, ymwrthod âg anrhydedd a gogoniant y byd, amddifadu ei hun o gysuron ac anghenrheidiau bywyd, dyoddef gwawd a dirmyg, a bod mewn perygl parhaus am eu bywyd. Eto ceir miloedd wedi treulio eu hoes yn nghanol llawnder, hawddfyd a dedwyddwch, yn aberthu holl gysuron y ddaear gyda'r parodrwydd mwyaf; yn ei deimlo yn anrhydedd i fyw yn nghanol barbariaid gwaedwyllt, yn goddef eisieu bara beunyddiol, yn ymdreulio ac ymaberthu er mantais y tlawd, yr anwybodus a'r creulawn. Nid oes reswm am hyn ar wahan oddiwrth eu perthynas â Gwaredwr byw; e'fenau byw yd yr Iesu sydd yn ymwasgaru trwy eu natur ac wrth wraidd eu bodolaeth; ffrwyth Ysbryd sancteiddiad yr Iesu ydyw—"grym ei adgyfodiad ef."

Y gallu hwn sydd yn cymhwyso'r saint i'r nefoedd. Gwyddai Paul am ymgysegriad i'w Feistr a'i waith; ni fu neb o ddechreuad creadigaeth hyd yr awr hon yn fwy ymroddedig na'r Apostol, eto awydda am adnabod "grym ei adgyfodiad ef;" am brofi ynddo ei hun fwy o nerth bywyd yr Iesu; cyfrifai bob peth yn dom fel yr adnabyddai ef yn fwy trwyadl, ac y teimlai yn fwy dwfn rym ei adgyfodiad.

Y rhai a'i hadnabyddant ef oreu sydd yn hiraethu am fwy o adnabyddiaeth; y dynion a brofasant fwyaf o fendithion ysbrydol ydyw y mwyaf awyddus am ychwaneg. "Dyro dracheſn," yw eu hiaith. Y dynion feddiannant y syniadau uchaf am grefydd sydd yn gweled fod tir lawer i'w feddiannu ac yn ymestyn am ei gyrhaedd. Teimlant eu hanmherffeithrwydd, eu hannhebygolrwydd i Dduw, eu heiddilwch eu hunain yn ei bresenoldeb ef, ac ymdrechant ymberffeithio.

Hwn oedd teimlad Paul. Gwyddai ei fod wedi ei gyfnewid a'i neilldua gan Dduw; gwyddai ei fod o dan oruchwyliaethau yr Ysbryd; ond teimlai ei fod ymhell oddiwrth yr hyn y dylai fod. Nid oedd wedi cyrhaedd sicrwydd am adgyfodiad gogoneddus; nid oedd yn teimlo ei hun yn berffaith; ond ymestynai at berffeithrwydd, a gweddïai am gael profi grym ei adgyfodiad Ef er dwyn hyn oddiamgylch.

Hwn yw y gallu sydd yn sancteiddio, yn perffeithio, ac yn cymhwyso y saint i ogoniant. Mewn undeb â Christ cyfranogant o'r Ysbryd sancteiddiad sydd ynddo, yr hwn a'u prydfertha âg addurniadau Dwyfol y drydedd nef. Mae y dylanwad garia hanes bywyd, marwolaeth, ac adgyfodiad Iesu o Nazareth ar wahanol genedloedd y ddaear yn anesboniadwy ar wahan oddiwrth wirioneddolrwydd ei adgyfodiad, ynghyd a'r gallu newydd ddaeth i'w feddiant ar ol codi o'r bedd.

Nid mewn personau unigol yn unig yr effeithia y cyfnewidiad, ond mewn teyrnasoedd ac ymherodraethau. Yr oedd Iuddewiaeth yn Ddwyfol, ond cyfyngedig ydoedd i un genedl; i hono

yr ymddiriedwyd am ymadroddion Duw. Nid oedd yn ymosodol; nid oedd y Cenedloedd i fwynhau ei rhagorfreintiau. Gwir fod darlleniad y gyfraith mewn gwahanol synagogau, ynghyd a chyfieithiad yr Ysgrythyrau i'r Groeg, yn dylanwadu ar rai personau Cenedlig i'w dwyn yn broselytiaid i Iuddewiaeth. Ond nid oedd dim yn ymosodol yn y grefydd ei hun, gan mai i had Abraham yn unig y rhoddwyd hi fel peth rhagbarotoawl. Nid felly Cristionogaeth—Efengyl Iesu Grist. Egyr hi ei mynwes i dderbyn pawb i mewn, tyn bawb ati ei hun; rhydd wahoddiad cyffredinol i ddynolryw, enfyn weision atom i wahodd i wledd y Brenin. Gwna ymosodiadau grymus ar brif gestyll annuwioldeb; dinystria eilun-dduwiau, dyfetha eu temlau, diddyma eu gwasanaeth, a dwg eu haddolwyr yn ddeiliaid ufudd i'r Brenin Iesu. Gwna hyn heb filwyr ac arfau, heb awdurdod gorseddau a dylanwad penaethiaid y ddaear; dim ond adroddiad syml o hanes marwolaeth Un fu farw yn warthus fel cablwr, ac y dywedir gan ei ganlynwyr ei fod yn fyw. Ni waeth beth fyddo y rhwystrau a'r gwrthwynebiadau; dim gwahaniaeth am gyfreithiau y wlad nac arferion y tadau; ymwthia i mewn yn dawel a diymhongar i fysg gwahanol deyrnasoedd, newidia'r cyfreithiau a'r arferion, a lefeinia'r wlad â'i hegwyddor a'i hysbryd ei hun. Er effeithio hyn rhaid fod nerth bywyd yn perthyn iddi. *Yr Iesu yn fyw*—awdurdod dwyfol ganddo i gyfnewid agwedd y byd; nerth y bywyd newydd y daeth i feddiant o hono yn ei adgyfodiad a effeithia hyn oll: "grym ei adgyfodiad Ef."

Teifl ei adgyfodiad oleuni ar y dyfodol, a sicrha adgyfodiad ei bobl. Diau fod awgrymiadau ynghylch y byd a ddaw yn yr Hen Destament, eithr ni ddysgir hyn ynddo; nid oedd gan y prophwydi syniadau cywir ac eglur am dano. Nid oes ammheuaeth nad oedd Job yn yr oes Batriarchaidd yn cyfeirio at fodolaeth tu draw i angeu, os nad at adgyfodiad y corff, pan yn dywedyd y cai weled Duw yn ei gnawd, wedi i'w gorff falurio yn y bedd a'i gnawd lygru yn mroydd marwolaeth,—eto y cai olwg ar Dduw yn y byd ysbrydol, y byddai i'w Waredwr sefyll uwch ben ei lwch; ei lygad ei hun a'i gwêl, a chyfiawnheid ef ganddo. Ar ol caethiwed Babilon, teflir goleuni ychwanegol ar y sefyllfa ddyfodol, eithr nid oes dim eglur a phendant yn cael ei ddysgu.

Crist a'i apostolion sydd yn dysgu hyn gyda sicrwydd i ni. Adgyfodiad yr Iesu ei hun yw sail yr athrawiaeth. Efe yw yr Hwn a "ddiddymodd angeu, ac a ddyg fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Yr oeddynt yn bod o'r blaen, eithr nid oedd sicrwydd am eu bodolaeth; tywyllwch oedd o'u hamgylch yr hwn na allai neb ei ymlid ymaith. Yn Nghrist daeth yn oleu: taflodd oleuni arnynt trwy ddiddymu angeu; profodd mai nid marwolaeth yw terfyn bodolaeth dyn, fod bywyd i'w gael y tu draw i angeu—"bywyd ac anllygredigaeth"—bywyd heb lygredigaeth, heb elfenau llygredigaeth ynddo, ac felly yn fywyd tragywyddol. Bywyd mewn dedwyddwch a llawenydd digymysg; bywyd heb gystudd, gofid na phoen, am ei fod yn rhydd oddiwrth lygredigaeth. Agorwyd y ffordd trwy adgyfodiad yr Iesu o'r byd presennol i'r byd tragywyddol, o fyd llawn llygredigaeth a thrueni i ganol ymherodraeth cariad a phurdeb. Nid oes dim ond bywyd, hoewder a llawenydd sanctaidd ar fryniau anfarwoldeb.

Effeithia ei adgyfodiad ragor—sicrha adgyfodiad y saint. Nid dangos fod hyn yn bosibl y mae; sicrhawyd ef yn ei adgyfodiad Ef: "Crist a gyfodwyd oddiwrth y meirw a'r a wnaed yn flaenffrwyth y rhai a hunasant." Sicrheid cynhauaf mawr adgyfodiad Cristionogion yn adgyfodiad y Blaenffrwyth; ernes ydoedd o'r hyn oedd i ddyfod, ynghyd a'r wedd fydd arnynt y bore dedwydd hwnw. Gwyddai Job y cai fyw ar ol marw am fod ei Brynwr yn fyw—cysylltiad rhyngddo âg Ef na fedrai angeu na'r bedd ei ddinystrio. 'Pan y saif ar fy llwch, uwch ben fy medd, caf fi fy hun ei weled.' Ymgysurai y patriarch yn nghanol ei dlodi a'i flinder yn y syniad o fywyd tu draw i angeu, yn mhresennoldeb a chymdeithas ei Brynwr byw. "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Ni all marwolaeth deyrnasu ar ei bobl; ni all gadw meddiant ynddynt, os yw yr Iesu yn ewyllysio eu rhyddhau; canys

profodd ei hun yn orchfygwr ar angeu wrth ddryllio ei rwymau a dyfod yn ıhydd o'i lywodraeth. Trechodd angeu fore'r trydydd dydd, ac y mae nerth yn ei fywyd newydd ef i fywhau a chodi ei holl eiddo.

Trwy gredu yn Nghrist ffurfir undeb rhwng dynion âg Ef sydd i barhau yn ngwaelodion bedd, ac sydd i gymeryd ffurf newydd wedi eu hadgyfodiad. Fel yr oedd undeb y dwyfol a'r dynol yn parhau yn yr Iesu pan yn gorwedd yn medd Joseph, ac yn ymddangos yn fwy gogoneddus nag erioed wedi codi ac esgyn i ogoniant; felly undeb y saint âg yntau: hwn a ganfyddir pan yr ymddangosant ar ei ddelw—eu cyrff "yr un ffurf a'i gorff gogoneddus Ef." "Ymddangosant gydag Ef mewn gogoniant." Nid oes ammheuaeth ynghylch y codi, gan iddo ddiddymu angeu i bawb a gredant ynddo: "Y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw gydag Ef." Nid yn unig eu dwyn o'r bedd, ond hefyd i fod gydag Ef byth mwy. Esgynant gydag Ef yn gymylau i ogoniant a gwynfyd tragywyddol; gydag Ef, ac yn ei bresennoldeb, i dderbyn eu gorphwysdra oddiwrtho; gydag Ef i eistedd ar ei orseddfainc ac i farnu'r byd; gydag Ef bob amser: "Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi."

Y GWEDDNEWIDIAD.

Gan Mr. JOHN DAVIES, *Salford.*

SYLFAENIR y sylwadau canlynol ar yr hanes fel y ceir ef gan yr Efengylwr Luc, pen. ix. 28—35.

Hanes rhyfedd iawn ydyw hanes y gweddnewidiad; ac os oes rhyw beth yn rhyfeddach nag arall yn hanes Iesu Grist pan yr ydoedd efe ar y ddaear, hanes y gweddnewidiad ydyw hwnw.

Mae yr arweiniad i mewn i'r hanes yn hynod. Chwe' diwrnod cyn hyn yr oedd yr Iesu yn agos i Cesarea Philippi, ac ar y ffordd y mae yn gofyn i'w ddysgyblion, "Pwy y mae dynion yn dywedyd fy mod I? a hwy a atebasant, Ioan Fedyddiwr, a rhai Elias, ac eraill un o'r prophwydi. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ond *pwy* yr *ydych chwi* yn dywedyd fy mod I? a Phetr gan ateb a ddywedodd, Crist Duw."

Ac yn y fan hon y mae yr Iesu yn rhagfynegi i'w ddysgyblion y byddai iddo gael ei ladd; ac wedi ei ladd yr adgyfodai y trydydd dydd. Ond nid oeddynt hwy yn ei ddeall; "ac *ofni* yr oeddynt *ofyn* iddo." Nid oeddynt yn deall fod cyfammod yn bod oedd yn galw am hyny; nid oeddynt eto yn deall beth ydoedd "Iawn," a pha beth a feddylid am Iesu Grist a'i haeddiant yn "Iawn. Yr oeddynt eto heb gael yr amlygiad fod "yn rhaid i Grist ddyoddef y pethau hyn a myned i mewn i'w ogoniant."

Yr hanes nesaf a gawn am yr Iesu sydd o gylch wyth niwrnod ar ol hyny, pan "gymerodd efe Petr ac Ioan ac Iago a myned i fyny i'r mynydd i weddio."

Yn Cesarea Philippi yr oedd yr Iesu pan yn hysbysu ei ddysgyblion am ei farwolaeth, a buasai yn cymeryd iddo i fyned o Cesarea i'r mynydd chwe' diwrnod. Mynydd Hermon yn mynyddoedd Libanus ydoedd hwnw; mynydd a elwir yn y dyddiau hyn Jebel esh Sheikh, ac y mae ei uchder yn ddeng mil o droedfeddi, neu yn agos i dair gwaith uchder y Wyddfa. Yr oedd yr eira oesol yn dysgleirio ar y pigyrnau uchaf iddo; ac oblegyd hyny yr oedd yn lle cymhwys iawn i ddangos tra rhagoriaeth dysgleirdeb y gweddnewidiad. Dywed llawer mai mynydd Tabor ydoedd y mynydd; ond gan fod ar hwnw amddiffynfa a phobl yn trigo arno, y mae y syniad i'r Arglwydd Iesu fyned i le mor gyhoeddus i ddangos dysgleirdeb ei ogoniant yn myned yn erbyn ei arferion ef. Rhodda Marc yr hanes yn fanylach; dywed efe am yr Iesu ar ol dychwelyd o fynydd y gweddnewidiad, "Ac wedi ymadael oddiyno hwy a ymdeithiasant trwy Galilea; ac ni fynai efe wybod o neb." Pa le bynag yr oedd safle y mynydd, yn ol Marc rhaid ei fod ar gyrau eithaf gogledd-ddwyrain Galilea; oblegid dywedir iddynt ymdeithio trwy Galilea wrth ddychwelyd oddiar y mynydd.

"I fynydd uchel," ebe Matthew a Marc, a buasai dyweyd "mynydd uchel" am fynydd Tabor yn anghywir, am fod Tabor yn fynydd crwn ar ei ben ei hun, ac yn rhyw fil o droedfeddi o uchder, ac felly yn îs na'r rhan fwyaf o fynyddoedd Cymru. Hefyd yr oedd yr Iesu wedi teithio chwe' diwrnod

cyn cyrhaedd mynydd y gweddnewidiad.

Cymerodd yr Iesu Petr ac Ioan ac Iago gydag ef i'r mynydd i weddïo. Paham y cymerodd y tri dysgybl a nodwyd? Fe allai y gallwn ddyfalu amrywiol ystyriaethau. Petr oedd yr un a wadai ei Arglwydd, a byddai y dysgleirdeb ar y mynydd, mewn adeg ddiweddarach, yn adgofio pwy a pha fath un oedd yr Iesu, ac felly yn help iddo i edifarhau. Hefyd Petr oedd i sefyll dros yr Iesu yn Sasiwn fawr Dydd y Pentecost; a dichon hefyd am mai Petr yn unig o'r dysgybion oedd i ddyoddef marwolaeth yr un modd a'i Arglwydd.

Ioan oedd i fod wrth droed y groes pan oedd ei Arglwydd i farw. Ioan hefyd oedd i gael byw yr oes hwyaf. Ioan oedd i fod yn esiampl i'r byd o Gristion yn *byw;* ac yn byw hefyd drwy ac er erledigaethau, a hyny am amser maith iawn. Ond fe allai yn benaf am mai i Ioan yr oedd y Dadguddiad olaf o berthynas i deyrnas Crist ar y ddaear i'w roddi. Wrth i ni ddarllen Llyfr y Dadguddiad y mae yn hawdd i ni gasglu fod y dysgleirdeb hynod hwnw ar Berson y Mab yn mynydd y gweddnewidiad wedi parotoi Ioan i dderbyn y Dadguddiad. "A mi a droais i weled y llef a lefarai wrthyf. Ac wedi i mi droi, mi a welais saith ganwyllbren aur, ac yn nghanol y saith ganwyllbren un tebyg i Fab y Dyn, wedi ymwisgo â gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu ynghylch ei fronau â gwregys aur. Ei ben a'i wallt oedd wynion fel gwlan, can wyned a'r eira"—neu ei ben a'i wallt oeddynt yn wŷn fel gwlan gwŷn, fel eira; "a'i lygaid fel fflam dân, a'i draed yn debyg i bres coeth, megys yn llosgi mewn ffwrn, a'i lais fel swn llawer o ddyfroedd." I gyfarfod â'r dadguddiad yna, yr oedd gweddnewidiad yr Iesu ar y mynydd wedi parotoi Ioan i dderbyn y golygfeydd hynod ac arddunol a welodd efe pan yn derbyn y Dadguddiad.

Iago—Paham Iago? Am mai efe ydoedd y cyntaf i ddyoddef marwolaeth dros ei Arglwydd.

"I'r mynydd i weddïo"—mewn neillduaeth y byddai yr Arglwydd Iesu yn gweddïo—myned o'r neilldu i weddïo—neb ond efe a Duw. Yr hynodrwydd sydd mewn gweddïo ydyw fod dyn yn ymwneyd neu yn ymdrechu â Duw—*dyn* yn ymaflyd yn nerth yr Hollalluog Dduw a'i orchfygu—pa ryfedd gan hyny i'r Iesu fyned o'r neilldu i weddïo? A pha ryfedd iddo ddyweyd yn y bregeth fawr ar y mynydd, "A phan weddïech, na fydd fel y rhagrithwyr, canys hwy a garant weddïo yn sefyll yn y synagogau, ac yn nghonglau yr heolydd, fel yr ymddangosont i ddynion. Yn wir, meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr. Ond tydi, pan weddïech, dos i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws, gweddïa ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad, yr hwn a wêl yn y dirgel, â dal i ti yn yr amlwg."

Ai gweddïwyr cyhoeddus yn unig ydym? ai yn gyhoeddus yr ydym yn cael y pleser mwyaf wrth arfer gweddi? neu a ydym yn cael mwy o bleser yn y dirgel, pan na bydd ond Duw a ninnau ynghyd? Os ydym, Duw a dâl i ni yn yr amlwg. Y mae yn y dirgel gymaint o ddysgleirdeb gogoniant Duw, fel nad all y dyn sydd yn arfer cymdeithasu â Duw yno ddyfod i'r cyhoedd heb fod yn ei wynebpryd adlewyrchiad o'r dysgleirdeb hwnw a fydd yn sicr o beri i eraill ei deimlo. A dyma esiampl gan Iesu Grist ei hunan: "Ac fel yr oedd efe yn gweddïo, gwedd ei wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wisg oedd yn wèn ddysglaer. Ac wele dau ŵr a gydymddyddanodd âg ef, y rhai oedd Moses ac Elias. Y rhai a ymddangosasant mewn gogoniant, ac a ddywedasant am ei ymadawiad Ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem;" neu yn well yn fwy llythyrenol; "Ac wele dau ŵr oedd yn ymddyddan âg ef, y rhai (fel y trodd allan) oeddynt Moses ac Elias, y rhai oeddynt yn ymddangos mewn gogoniant, a aethant ymlaen i siarad wrtho am ei ymadawiad *(exodus)*, yr hwn oedd yn nghylch ei gyflawni yn Jerusalem."

"I'r mynydd i weddïo:" yn y nos y byddai yr Iesu yn gweddio, ac yn y nos y cymerodd y weledigaeth ryfedd hon le. Y mae Petr yn ei Epistol yn cyfeirio ati, "A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddym gydag ef yn y mynydd sanctaidd. Ac y mae genym air sicrach y prophwydi, yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio

y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonau chwi."

Fel y dywedwyd, y rhai a ymddyddanodd â'r Iesu oeddynt Moses ac Elias; a'r mater y daethant i lawr o'r nefoedd at yr Iesu i siarad am dano oedd ei ymadawiad, ei *exodus*. Nid yr Iesu oedd yn dyweyd wrthynt hwy ei fod yn myned i farw yn Jerusalem, ond hwy oeddynt yn siarad âg ef am ei ymadawiad. Pa fodd y gwyddent hwy ei fod i farw yn fuan yn Jerusalem? Nid ydym yn cael ar ddeall yn un man fod y saint yn y nefoedd yn meddu gallu i *ragweled* mwy na'r saint ar y ddaear; ac amlwg yw nas gall yr angylion ragfynegu beth a fydd yn y dyfodol mwy nag y gall dynion; eto y mae yn amlwg oddiwrth yr Ysgrythyr yn y fan hon fod Moses ac Elias yn gwybod fod yr Iesu i farw yn Jerusalem, a'i fod i godi o feirw ac i ymddyrchafu i'r nefoedd, ac am hyny y daethant i lawr o'r nefoedd yn un pwrpas i siarad âg ef am hyny.

Oni buasai am yr hanes gan Luc, buasem heb wybod pa beth oedd testun yr ymddyddan rhwng Moses ac Elias a'r Iesu. Ac oni buasai am yr hanes gan Luc am fedyddiad yr Iesu, buasem heb wybod mai pan oedd yr Iesu yn gweddïo y disgynodd yr Ysbryd Glân arno: a dyma yr hanes: "A bu, pan oeddid yn bedyddio yr holl bobl, a'r Iesu yn ei fedyddio hefyd, ac yn gweddïo, agoryd y nef, a disgyn o'r Ysbryd Glân mewn rhith corfforol megys colomen arno ef; a dyfod llef o'r nef yn dywedyd, Ti yw fy anwyl Fab; ynot ti y'm boddlonwyd." Yma hefyd pan yn gweddïo, gwedd ei wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wisg oedd wèn ddysglaer. Cwmwl a'u cysgododd hwynt, a hwynt-hwy a ofnasant wrth fyned o honynt i'r cwmwl. "A daeth llef o'r cwmwl, gan ddywedyd, Hwn yw fy Mab anwyl; gwrandewch ef." Mewn canlyniad i'r Iesu yn gweddïo y daeth y llef yn ei fedydd ac yn ei weddnewidiad.

A oes yma ryw wers i ni? Mi dybygaf fod. "Amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd" yw myned ato mewn gweddi. "*Seasons of refreshing from the presence of the Lord.*" Y mae myned i bresennoldeb yr Arglwydd mewn gweddi yn adnewyddiad, ïe yn fywyd newydd i'r un sydd yn myned yno; neu yn fwy eglur, y mae cymdeithasu â Duw yn sier o fod yn adnewyddiad i'r gweddïwr. Os oes arnom eisieu nerth i'n fferau gweiniaid ar ein taith trwy yr anialwch, wrth fyned at Dduw mewn gweddi y mae y nerth hwnw i'w gael. Blinedig a methedig, cloff a gwywedig, ydyw pawb na fynant gymdeithasu â Duw.

"Gwedd dy wyneb
Yw fy mywyd yn y byd."

Yr ydym yn cael fod gan Luc yn y rhan fwyaf o'r hanesion a gofnoda fwy o fanylion nag a roddir gan yr Efengylwyr eraill: felly yma, Moses ac Elias yn ymddyddan â'r Iesu am ei ymadawiad. Dyma bwynt mawr yr ymgnawdoliad, dyma hefyd yw swm a sylwedd yr "efengyl dragywyddol." Ond pa fodd y daeth Moses ac Elias i wybod hyny?

Yr oedd yr "ymadawiad" yn meddwl yr Iesu ar y pryd a'r adeg hono, ac yn pwyso yn drwm ar ei feddwl; oblegyd ychydig ddiwrnodau cyn y gweddnewidiad yr oedd wedi hysbysu hyny i'w ddysgyblion. A hyn sydd yn rhyfeddod, i Moses ac Elias ddyfod ar yr adeg hono i siarad â'r Iesu am y peth oedd yn pwyso fwyaf ar ei feddwl, sef ei "ymadawiad." Yn 1 Pedr i. 10 cawn y geiriau hyn, "Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd ac y manwl-chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras a ddeuai i chwi: gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dyoddefaint Crist a'r gogoniant ar ol hyny."

Yr oedd y prophwydi wedi eu myned-iad i'r nefoedd yn gwybod am y gwirioneddau mawrion am iachawdwriaeth dyn; ac yr oeddynt yn gwylio o'r nefoedd ar bob symudiad, a phob arwydd oedd yn cyfeirio tua'r amser hynod hwnw, amser yr ymgnawdoliad. "Gan chwilio pa *bryd*, neu pa ryw *amser*, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dyoddefaint Crist a'r gogoniant ar ol hyny." Pam nad allwn ni gredu eu bod yn gwybod mwy yn y nefoedd nag oeddynt pan ar y ddaear am ddyblygion trefn yr iachawdwriaeth, a hwy yn ysbryd-oedd y cyfiawn a berffeithiwyd? Yr

oeddynt hwy yn gweled y cysgod a'r gwrthgysgod yn eu gwir berthynas â'u gilydd fel yn gwneyd cylch rhagluniaeth yn un cyfanwaith. I ni nid yw cysgod yn ddealladwy os na bydd yn cael ei egluro gan ei sylwedd. Nid oes genym le i gredu pan oedd Moses ar y ddaear, ei fod yn deall pa fodd yr oedd ysbrydoli ei weithrediadau mewn cysylltiad â chenedl Israel, a bod yr hyn a wnai yn cynnrychioli pethau mwy. Nid oes genym un awgrym ei fod yn deall fod ystyr pellach i'r pethau nag oedd yn cymeryd lle y pryd hwnw. Wrth godi y sarph bres, nad oedd yn gweled dim mwy yn hyny na moddion o drefniad Duw i iachâu brathiadau y seirph tanllyd. Ac wrth daro y graig fel y daeth y dwfr allan, nid oedd yn deall mai y graig oedd Crist.

Ond y mae yr adnodau a nodwyd yn Epistol Petr yn awgrymu i ni fod rhyw gyfnewidiad yn cymeryd lle yn enaid y dyn, a hwnw yn un mawr, wedi iddo fyned i'r nefoedd: ei fod yno yn edrych yn ol ar ei fywyd yn y byd yma, ac ar ystyr y pethau a wnaeth efe tra yr ydoedd ar y ddaear: a bod ei ddeall wedi ymeangu a'i wybodaeth yn anfesurol fwy yn y nefoedd. Yr oedd Moses yn gwybod ei fod yn ŵr Duw pan yma ar y ddaear; ond wedi iddo gyrhaedd y nefoedd y daeth i ddeall ei fod yn gysgod o ryw bethau mwy. Yr oedd yn gweled bellach yn yr ymadawiad o'r Aipht gysgod o ryddhad dyn o gaethiwed pechod; ac yn ei sarph bres groeshoeliad Crist. Yn y nefoedd y gwelodd Moses ardderchawgrwydd ei swydd fel arweinydd Israel o'r Aipht. Yr oedd holl gynghor Duw yn cyrhaedd trwy yr oesau, a hyny i amser nodedig, yn ymgodi i'w feddwl. Ar yr amser yma pan yr oedd yr Iesu ar y mynydd y mae Moses yn gweled yr amser nodedig wedi dyfod. Yn awr y mae yn gweled y cysgod, ac Iesu Grist yn sylweddoli y cysgod, a'r testyn oedd yr ymadawiad, yr *exodus*.

Wel, paham yr oedd Elias yno gyda Moses, dau oeddynt mor bell oddiwrth eu gilydd? Dywedir fod Moses yn cynnrychioli y ddeddf ac Elias y prophwydi, ond mi dybiaf ei fod yn golygu rhywbeth mwy na chynnrychiolaeth. Yr oedd esgyniad Elias i'r nefoedd yn gysgod o esgyniad Crist. Wedi i Elias fyned i'r nefoedd gwelodd fod ei esgyniad yn gysgod o esgyniad ei Arglwydd. Ymddengys gan hyny fod ymweliad y ddau ddyn hynod hyn ar fynydd y gweddnewidiad yn anghenrheidiol. Moses yn gysgod o Grist—neu yn hytrach ei *exodus* yn gysgod o farwolaeth Crist i waredu pechadur oddiwrth ei bechod. Ond nid oedd hyny yn gyflawn heb yr esgyniad.

Ar ddydd mawr y cymmod yn Israel gynt, yr oedd yr aberth yn cael ei ladd, a'r gwaed yn unig oedd yn cael ei gymeryd i'r cysegr sancteiddiolaf; sef yr hyn oedd yn cynnrychioli bywyd yn unig a gymerid yno. Yr oedd yn rhaid myned trwy y cysegr i'r cysegr sancteiddiolaf. Yr oedd yn rhaid myned âg aberth Crist i'r sancteiddiolaf yn y nefoedd, ac nid oedd ffordd i fyned â hwnw yno ond trwy y llen, sef ei gnawd ef. Wedi i'r Iesu farw ar y groes a'i gladdu mewn bedd a'i gyfodi y trydydd dydd, nid oedd yr "Iawn" wedi ei orphen a'i gwblhau hyd nes iddo fyned i'r nefoedd ei hunan i gyflwyno ei fywyd, yr hwn a roddwyd yn aberth; ac yna wedi ei gyflwyno y mae yn aros yno mwyach. "Eithr hwn wedi offrymu un aberth dros bechodau, yn dragywydd a eisteddodd ar ddeheulaw Duw. Canys nid i'r cysegr o waith llaw, portreiad y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn, ond i'r nef ei hun, i ymddangos ger bron Duw trosom ni." Gan hyny y mae yn dra naturiol i Elias ddyfod i siarad â'r Iesu am ei esgyniad.

Gwaith mawr Iesu Grist ar y ddaear oedd gwneyd "Iawn," fel y dygai lawer trwy hyny i ogoniant; ond yr oedd yn rhaid iddo farw cyn y gallai gyflawni hyn; a chan ei fod yn wir ddyn, yr ydoedd bron a chael ei lethu gan y cyfrifoldeb mawr oedd arno, ac yn yr ymdeimlad hwnw y mae yn gweddio ac yn gosod ei achos ger bron ei Dad; ac yn atebiad i'w weddi y mae ei Dad yn anfon Moses ac Elias mewn gogoniant i'w nerthu, a'r Tad ei hunan i roi pen hapus ar yr ymweliad gogoneddus, yn tystiolaethu, "Hwn yw fy anwyl Fab, gwrandewch ef." Mewn atebiad i weddi y mae Duw yn tywallt ei Ysbryd bob amser. A byth er y tywalltiad mawr yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost, dyna yw hanes yr Eglwys: "Y rhai hyn oll oedd yn

parhâu yn gytun mewn gweddi ac ymbil. Ac wedi dyfod dydd y Pentecost yr oeddynt hwy oll yn gytûn yn yr un lle: ac yn ddisymwth daeth swn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd, ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megys o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt, a hwy oll a lanwyd o'r Ysbryd Glân, ac a ddechreuasant lefaru â thafodau eraill, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd." Yr ydoedd eu cydgynnulliad parhâus, a hyny yn gytûn mewn gweddi, wedi eu parotoi i dderbyn yr Ysbryd Glân. Yr ydym ninnau yn y dyddiau hyn yn sôn llawer am gael tywalltiad o'r Ysbryd Glân, ac yn dyweyd yn aml yr hoffem gael y tywalltiad a'r adnewyddiad drwy hyny. "Na thwyller ni, ni watworir Duw." Os nad ydyw yr eglwys yn gytûn yn dymuno am dano—os nad ydym yn parhâu yn gytûn mewn gweddi ac ymbil, yr ydym eto heb fod mewn sefyllfa i dderbyn tywalltiad o'r Ysbryd Glân. A ydyw yr eglwys yn y dyddiau hyn yn myned i gredu llai mewn gweddïo?

"Pan nofio y galon i fyny mewn dagrau,
Y nef amgylch ogylch a egyr ei hafnau:
Ymdorcha cyflawnder gylch gwynion bileri
Gorseddfainc y gras, i selio y weddi."

Dichon ein bod weithiau yn gweddïo am bethau tymmorol; ond byddai yn fantais i ni ystyried nad ydyw Duw yn gwrando dymuniadau dyn am bethau y gall efe trwy ei ddiwydrwydd a'i ofal eu cyrhaedd. Y mae hi felly gyda chrefydd: y mae genym ddyledswyddau y rhaid i ni eu cyflawni cyn y gallwn dderbyn adeiladaeth a bendith drwy ein crefydd. Dichon ein bod yn teimlo yn sychlyd a difraw, ac ambell waith yn gweddïo am gael gwared o'r ysbryd hwnw; ond ni wna gweddïo ar Dduw un lles i ni os ydym yn esgeuluso cyflawni ein dyledswyddau. Yr oedd yr Iesu ei hunan yn gwylio ac yn gweddïo.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill* 1*af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, MEDI 8FED—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Adgyfodiad Crist.—Mat. xxviii.

ADN. 1: *Ac yn niwedd y Sabbath, a hi yn dyddhau i'r dydd cyntaf o'r wythnos.* Nid y cyfrif Iuddewig sydd yma, yn ol yr hwn y terfynai y Sabboth am chwech o'r gloch nos Sadwrn, ond y syniad cyffredin gwladol o ddiwrnod, o godiad haul hyd godiad haul—yn niwedd yr hen Sabboth Iuddewig, ar doriad gwawr y Sabboth newydd Cristionogol. *Daeth Mair Magdalen a'r Fair arall i edrych y bedd.* Enwa Ioan Mair Magdalen yn unig; Matthew ddwy; Marc dair (chwanega Salome); Luc, amryw eraill, heblaw y ddwy Fair a Joanna, y rhai a enwa. Achosir y gwahaniaethau hyn yn yr hanes gan fwriad yr Efengylwr i roddi pwyslais neilltuol ar wahanol amgylchiadau. Yn ol Marc, aeth y tair gwraig at y bedd yn gyntaf—Mair Magdalen, y Fair arall a Salome. Gedy Matthew Salome allan, gan ei fod am barhau ei adroddiad am y ddwy Fair. Ceidw Ioan Mair Magdalen yn unig o flaen ei lygadgan ei fod am adrodd hanes ei theimlad, au cynhyrfus pan ganfu y maen wedi ei dreiglo, a'i gwaith yn rhedeg i alw y ddau ddysgybl. Cyfynga Luc ei sylw yn benaf at y gwragedd a ddygasant y peraroglau, ac felly adrodda am yr ail fintai o wragedd, y rhai a aethant ar ol y tair cyntaf. *I edrych y bedd.* Yn ol Marc a Luc, i eneinio y corff. Ond aeth y gwragedd yn *ddwy* fintai at y bedd; yr ail oedd y rhai gyda'r peraroglau. Aeth y gyntaf i gael hysbysrwydd. Prysurodd y rhai cyntaf o flaen y lleill oddiar ofn, dysgwyliadau anymwybodol am adgyfodiad, dymuniadau cryfion, anesmwyth.

ADN. 2: *Ac wele, bu daeargryn mawr: canys disgynodd angel yr Arglwydd o'r nef, ac a ddaeth ac a dreiglodd y maen oddiwrth y drws, ac a eisteddodd arno.* Nid yr amser cyn-orphenol *(pluperfect)* sydd yma—nid *buasai* ond *bu.* Yr oedd y gwragedd yn dystion o'r daeargryn ac o'r hyn a gymerodd le. Nid "daeargryn" naturiol oedd hwn; ond agoriad sydyn y bedd gan yr angel, fel y dengys

y gair *canys*. Treiglwyd y maen, nid mewn ffordd naturiol, ond trwy ysgytiad *(shock)*. Gwelodd y gwragedd amgylchiadau yr adgyfodiad; ond ni welsant yr Iesu yn weithredol yn dyfod o'r bedd. Nis gallasent, medd Meyer, o herwydd natur y corff oedd ganddo yn awr, er ei fod yn weledig ar ol hyn. Nid oedd adgyfodiad ein Harglwydd, y weithred ei hunan, yn fater o weledigaeth corfforol. Yr oedd Efe wedi cyfodi *cyn* treiglo y maen. Nid oedd y maen yn un rhwystr iddo Ef; er mwyn y gwragedd a'r dysgyblion y treiglwyd y maen.

Adn. 3: *A'i wynebpryd oedd fel mellten.* Nid ei ffurf, ond ei ymddangosiad. Ac nid fel mellten o ran ffurf, ond o ran dysgleirdeb. *A'i wisg yn wen fel eira.* Y ffugyrau mwyaf tarawiadol a fedd natur—y fellten a'r eira; y wyneb fel mellten, y wisg fel eira—tanbeidrwydd y fellten a gwynder yr eira.

Adn. 4: *A rhag ei ofn ef y crynodd y ceidwaid, ac a aethant megys yn feirw.* Golyga y gair dirgryniadau *(convulsions)*; parlyswyd hwy gan y dychryn nes oeddynt mor ddinerth a'r marw.

Adn. 5: *A'r angel a atebodd ac a ddywedodd wrth y gwragedd.* Gwelai yr angel fel yr oedd yr amgylchiadau yn effeithio i ddychrynu y gwragedd hefyd. *Nac ofnwch.* Y mae y rhagenw yn cael ei golli yn y ffurf Gymreig ar y ferf. Felly y mae rhan o'r meddwl yn cael ei golli, gan fod y rhagenw yma yn bwysleisiol—"Nac ofnwch *chwi;*" 'nid oes achos i *chwi* ofni'—*chwi* yn gyferbyniol i'r milwyr, y rhai oeddynt wedi eu dirymu gan ddychryn. *Canys mi a wn mai ceisio yr ydych yr Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd.* Dyma y rheswm paham y parai iddynt hwy beidio ofni. Gwyddai eu neges, a'r newydd da oedd ganddo i'w fynegi iddynt.

Adn. 6: *Nid yw efe yma: canys cyfododd, megys y dywedodd.* Adroddir ei eiriau wrthynt yn Luc xxiv. 6, 7, ac y maent hwythau yn cofio. *Deuwch, gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd.* I gadarnhau eu ffydd. Nid oedd i'w weled mwyach ond bedd gwag—y *fan* lle yr oedd Efe wedi bod yn gorwedd. "Y gorweddodd yr Arglwydd"—y teitl gogoneddedig wrth ba un y gelwir ef yn gyffredin yn y Testament Newydd ar ol ei adgyfodiad. Matthew yn unig sydd yn ei roddi yn y lle hwn.

Adn. 7: *Ac ewch ar ffrwst, a dywedwch i'w ddysgyblion, gyfodi o hono o feirw.* Dywed Lange mai y credinwyr yn Galilea oedd y dysgyblion hyn; ac er i'r Iesu ymddangos i ychydig wragedd, i'r ddau ddysgybl wrth fyned i Emmaus, ac i'r Deuddeg, eto mai yn Galilea y gwnaeth Efe ei hunan-eglurhâd mawr. Gwir hyny, ond yn sier nid at y dysgyblion yn Galilea yr oeddynt hwy yn awr i fyned yn uniongyrchol, "ar ffrwst;" ond at yr un ar ddeg, neu rai o honynt, y rhai oeddynt gerllaw yn Jerusalem, mewn pryder a galar. *Ac wele, y mae efe yn myned o'ch blaen chwi i Galilea: yno y gwelwch ef.* Nid cenadwri i'r gwragedd yn uniongyrchol oedd hon, er nad oeddynt hwythau yn cael eu cau allan; ond cenadwri ag yr oedd y gwragedd i'w chario i'r dysgyblion. Nid yw "y mae efe yn myned o'ch blaen chwi" yn golygu ymdaith; ond, fel yn xxvi. 32, golyga pan y deuent hwy yno, y byddai Efe yno yn eu cyfarfod. *Wele, dywedais i chwi.* Chwanegir hyn i roddi difrifoldeb i'r gorchymyn. Geiriau neilltuol i Matthew yn y lle hwn, a nod o gywirdeb.

Adn. 8: *Gydag ofn a llawenydd mawr.* Yr oedd y teimladau yn gymysgedig, am eu bod yn awr yn myned trwodd o un ystâd eithafol o deimlad i un arall gwbl wahanol. Ychydig yn ol yr oeddynt yn llawn braw gan yr olwg ar yr angel, ac ar y ceidwaid, ac wrth glywed y "daeargryn;" yn awr yr oeddynt yn dechreu profi llawenydd y grediniaeth fod eu Harglwydd yn wir wedi cyfodi oddiwrth y meirw.

Adn. 9: *Ac fel yr oeddynt yn myned i fynegi i'w ddysgyblion ef, wele, yr Iesu a gyfarfu â hwynt gan ddywedyd, Henffych well.* Nid yw Marc na Luc yn rhoddi hanes yr ymddangosiad hwn. *A hwy a ddaethant, ac a ymafaelasant yn ei draed ef, ac a'i haddolasant.* Amlygiad o ofn oedd yr agwedd hon, mewn rhan, canys y mae Efe yn dywedyd wrthynt, adn. 10, "Nac ofnwch." Ond y mae yn amlygiad o'r llawenydd cymysgedig â'r ofn, wrth fod wedi cael yr un a garent mor fawr yn ol drachefn.

Adn. 10: *Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt, Nac ofnwch: ewch, mynegwch i'm brodyr, fel yr elont i Galilea, ac yno y'm gwelant I.* Cyfarcha hwynt yn fywiog a serchog, yr un pryd yn ymarferol, fel ag i leddfu eu hofnau. *I'm brodyr.* Dywed Meyer, mai er mwyn y gwragedd y galwai y dysgyblion yn "frodyr," i liniaru yr argraff rymus a wnaed arnynt gan y wedd oruwchnaturiol a gawsent arno, yr hon a barai iddynt syrthio wrth ei draed mewn ofn a gwylder. Ond yr oedd cenadwri i'r dysgyblion yn yr enw hwn—enw o gydymdeimlad cariadus; dangosai nad oedd Efe, wedi adgyfodi, am ymddyeithrio oddiwrthynt ar gyfrif eu gwaith yn ffoi ac yn ei adael; ond geilw arnynt i gyfranogi yn llawenydd a buddugoliaeth ei adgyfodiad.

SABBOTH, MEDI 15FED—(*Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

ADN. 11: *Ac wedi eu myned hwy, wele, rhai o'r wyliadwriaeth a ddaethant i'r ddinas, ac a fynegasant i'r archoffeiriaid yr hyn oll a wnaethid.* Neu, *tra yr oeddynt yn myned.* Tra yr oedd y gwraged ar y ffordd i fynegi i'r dysgyblion, y mae y milwyr yn prysuro i'r ddinas i fynegi y newydd cynhyrfus am y bedd gwag i'r archoffeiriaid.

ADN. 12: *Ac wedi iddynt ymgasglu ynghyd gyda'r henuriaid, a chydymgynghori, hwy a roisant arian lawer i'r milwyr.* Cyfarfod dirgelaidd, nid cyhoeddus a rheolaidd, o'r Sanhedrim, wedi ei alw yn brysur i ystyried beth i'w wneyd yn yr amgylchiadau dyeithriol hyn. Tybia rhai fod plaid o'r rhai mwyaf cydwybodol, megys Joseph a Gamaliel, wedi eu gadael, am nas gallent gytuno yn eu gweithrediadau yn erbyn yr Iesu.

ADN. 13: *Gan ddywedyd, Dywedwch, Ei ddysgyblion a ddaethant o hyd nos, ac a'i lladratasant ef, a nyni yn cysgu.* Dyma y chwedl gloff a luniwyd ganddynt i esbonio y bedd gwag. Er fod y sylw wedi ei wneyd gannoedd o weithiau, rhaid parhau i'w wneyd o hyd, gan ei fod mor wir a phriodol—Pa fodd y gwyddent hwy beth a gymerodd le, gan eu bod yn cysgu? Y mae y gofyniad hwn mor hen ag Awstin, yr hwn a eilw y chwedl yn gyfrwysder annedwydd *(infelix astutia.)*

ADN. 14: *Ac os clyw y rhaglaw hyn.* Nid y meddwl yw *dyweyd* yn unig, dyfod i glustiau y rhaglaw (y mae yr *ἐπι* yn y testun Groeg yn dangos hyny; ond 'Os daw y mater o flaen y rhaglaw, os "clyw" yn swyddol fel y rhaid chwilio iddo, os gwneir helynt ynghylch y peth'—*ni a'i perswadiwn ef, ac a'ch gwnawn chwi yn ddiofal.* Yr oeddynt mewn cyfyngder dybryd, onidê ni buasent yn anturio ar gynllun mor beryglus. Yr oedd y fath esgus yn condemnio y milwyr ar unwaith o drosedd milwrol o'r fath drymaf. Ond ni ofalai yr awdurdodau Iuddewig beth a ddeuai o'r offerynau a ddefnyddient i gael eu hamcan i ben, megys y dangosent o'r blaen gyda Judas: "Pa beth yw hyny i ni? edrych di." 'Pawb drosto ei hun—bargen yw bargen.'

ADN. 15: *A thaenwyd y gair hwn ymhlith yr Iuddewon hyd y dydd heddyw.* Ceisiodd rhai beirniaid o ammheuwyr wadu gwirionedd yr adroddiad hwn am y Sanhedrim. Ond y mae holl hanes yr arweinwyr crefyddol Iuddewig yn dangos na phetrusent ddefnyddio twyll ac anwiredd er mwyn cyrhaedd eu hamcanion. Cydnabyddir lledaeniad y chwedl ymhlith yr Iuddewon. Profir fod y Phariseaid wedi cyflogi cenadau yn bwrpasol i ledaenu yr adroddiad.

ADN. 16: *A'r un dysgybl ar ddeg a aethant i Galilea.* Deuant ymlaen yma, medd Lange, nid fel y Deuddeg apostol, ond fel cynnrychiolwyr yr holl ddysgyblion. Ymgynnullodd y deuddeg am y tro cyntaf ar ol yr adgyfodiad, wedi etholiad Matthias. *I'r mynydd lle yr ordeiniasai yr Iesu iddynt.* Dangosir nodwedd ranol ac anghyflawn yr hanes yn y ffaith nad oes un crybwylliad am benodiad y mynydd hwn o'r blaen, fel lle cyfarfod yr Iesu â'i ddysgyblion. Nis gwyddom pa fynydd oedd hwn. Dywed traddodiad o'r drydedd ganrif ar ddeg mai pigyn gogleddol Mynydd yr Olewydd ydoedd.

ADN. 17: *A phan welsant ef, hwy a'i haddolasant ef; ond rhai a ammheuasant.* Nid yr un ar ddeg a feddylir yma yn neilluol, canys yr oeddynt hwy wedi ei weled Ef o'r blaen; ond unir hwynt yma â'r holl dyrfa o gredinwyr oedd yn bresennol. Tybia rhai, gan fod y cyfarfod hwn wedi ei rag-hysbysu fwy nag unwaith, fod yma luaws mawr o gredinwyr yn bresennol. Tybia rhai mai yma y gwelwyd Ef gan "fwy na phum' can' brodyr ar unwaith." Barna Stier ac Olshausen fod *holl* ddysgyblion yr Iesu yma; o leiaf, yr oll a allasent dan yr amgylchiadau gael eu dwyn ynghyd. "Addoli" ac "ammheu" oedd yn rhanu y dyrfa. Dyma sydd eto yn rhanu y byd. Nis gellir *credu* yn yr Iesu heb ei addoli. Nid oes ond addoli neu ammheu yn bosibl.

ADN. 18: *A'r Iesu a ddaeth, ac a lefarodd wrthynt.* Dyfod yn nês atynt, a llefaru. Wrth y rhai oedd yn ammheu, medd Lange. *Gan ddywedyd, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear.* Cyhoeddiad o'i fuddugoliaeth a'i ogoneddiad. Rhoddwyd—gan y Tad, yn y cyflawniad o'r Cyfammod Tragywyddol, yn undod yr Ysbryd Sanctaidd. Yn awr, medd Alford, y cyhoeddir y cyfammod hwn gyntaf, yn ei gyflawnder ar y ddaear. Yr Adgyfodiad oedd sêl olaf y Cyfammod. Yr esgyniad oedd y mynediad i mewn i feddiannu yr etifeddiaeth. Arosai yr etifedd yn awr ar y ddaear am amser byr, 1 ddyben neilluol.

ADN. 19: *Ewch gan hyny.* Chwanegiad yw "gan hyny," yn ol pob tebyg—ond un rhagorol, pe buasai chwanegiad i fod. Gogoneddiad y Mab gan y Tad trwy yr Ysbryd yw sylfaen Eglwys Crist yn y byd. *A dysgwch yr holl genedloedd.* Cyfieitha Luther fel y Gymraeg —dysgu. Ond nid yw yn gywir. Ac nid yw esboniad y Bedyddwyr ychwaith yn gywir—fod addysg grefyddol gyflawn i

fod bob amser o flaen bedydd. Y cyfieithiad cywir ydyw—gwnewch ddysgyblion (*μαθητεύσατε*). Cynnwysa gwneyd dysgyblion, yn gyffredinol, bregethu yr Efengyl; ond dynoda yn neillduol yr adeg pan y mae yr annychweledig, trwy edifeirwch a ffydd, yn cofleidio crefydd Crist, ac yn dyfod yn ymgeisydd am aelodaeth eglwysig, gan roddi ei hun dan addysg Gristionogol *(catechumen)*. Ond y mae plant rhieni Cristionogol yn ddeiliaid addysg grefyddol o'u genedigaeth *(born catechumens)*. Gesyd yr Ysgrythyr undod ysbrydol y teulu yn y tad crediniol neu y fam grediniol. Dyma y berthynas yn ol natur, a gosodiad Duw.

Sabboth, Medi 22ain—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Ionawr 6ed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Adgyfodiad Crist—Marc xvi.

Gweler y nodiadau ar y wers flaenorol.

Adn. 1—8. Darn annghyflawn o'r hanes yw y rhan hon, fel y mae yn amlwg wrth y diweddiad—"canys yr oeddynt wedi ofni" (adn. 8); ac hefyd wrth y wedd annghysylltiol rhwng y paragraph hwn â'r un dylynol, adn. 9. Ni oddef ein terfynau i ni fanylu ar anhawsderau y rhan hon o'r Efengyl. Nodwn rai o neillduolion yr hanes gan Marc. Rhydd Marc ddydd yr adgyfodiad yn y fath fodd ag i gyflenwi yr Efengylau eraill: "a'r haul wedi codi." Efe yw y manylaf am y gwragedd a ddaethant i eneinio corff yr Iesu; dyry eu nifer yn dair, a rhydd eu henwau. Cytuna â Luc mewn dyweyd eu bod wedi dyfod yno i eneinio y corff. Gedy allan y manylion a ddyry Matthew am foment yr adgyfodiad, a'r ymddangosiad i'r gwragedd pan yn dychwelyd oddiwrth y bedd. Nid oes yma ond crybwylliad byr am ymddangosiad yr Iesu i Mair Magdalen. Efe yn unig a adrodda am bryder y gwragedd ynghylch treiglo y maen. *Un* angel, yn ol Marc (ac felly Matthew), a ymddangosodd i'r gwragedd. Hwn oedd yr ymddangosiad cyntaf, tra y dyry Luc a Ioan ymddangosiad diweddarach.

Wrth ddarlunio ymadawiad y gwragedd oddiwrth y bedd y gwahaniaetha yr Efengylwyr fwyaf oddiwrth eu gilydd. Dywed Matthew iddynt "fyned ymaith ar frys oddiwrth y bedd, gydag ofn a llawenydd mawr," a'u bod wedi "rhedeg i fynegi i'w ddysgyblion ef." Luc yr un modd. Ond Marc: "Ac ni ddywedasant ddim wrth neb: canys yr oeddynt wedi ofni." Ond yr oedd yr amgylchiadau yn wahanol. Y gwragedd hyn oeddynt wedi ofni ydoedd Mair mam Iago, a Salome, y rhai a aethent at y bedd ar ol i Mair Magdalen fyned oddiwrtho wedi ei weled yn wâg. Mintai arall fwy oedd y gwragedd a ddychwelasant yn ebrwydd gyda llawenydd mawr i fynegi i'r dysgyblion. Y rhai hyn oeddynt y rhai a aethent gyntaf at y bedd gyda'r peraroglau, a'r rhai a'u canlynasent: (gwêl Matthew). Gedy Marc y ffaith hon allan, er mwyn nodi Mair Magdalen fel ar wahan oddiwrth y ddwy wraig arall. Ac eto rhydd ar ddeall mai yr argraff gyntaf a wnaed ar y gwragedd oedd cymysgedd o ofn a llawenydd.

Adn. 7: *Dywedwch i'w ddysgyblion ef, ac i Petr.* Nid oes sail i dybied fod yr Iesu wedi ymddangos i Petr ar ei ben ei hun. Y mae dwy farn am y rheswm dros enwi Pedr yn y genadwri hon. Yr un fwyaf cyffredin yw ei bod yn arwydd neillduol o faddeuant i Petr am ei waith yn gwadu ei Arglwydd. Y mae yn anhawdd peidio cysylltu y ddau beth. Ond barna eraill mai y rheswm oedd sefyllfa uwchraddol Petr ymhlith yr apostolion.

Sabboth, Medi 29ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Ionawr 6ed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Adgyfodiad Crist. Marc xvi.

Adn. 9—20. Yn ol Meyer, y mae hwn yn ddechreu darn arall o hanes. Cynnwysa y crynodeb a roddir yma yr hanes cyflawn gan Ioan am y genadwri i Mair Magdalen, a'r hanes manylach gan Luc am y genadwri a ddygwyd gan y ddau ddysgybl a ymdeithient tuag Emmaus. Crynhoa Marc y ddau adroddiad o dan yr un pen o ddwy genadaeth awdurdodedig, y rhai na chawsent lawn grediniaeth: adn. 12, 13. Unir y ddau hanner i'r bennod (medd un) mewn undod anwahanol yn y drychfeddwl sylfaenol hwn—mai y Gwaredwr wedi adgyfodi, y Crist byw, yw gorchfygwr hollol a chyffredinol annghrediniaeth. Yr oedd annghrediniaeth eisoes, o fewn cylch y dysgyblion, yn dechreu taflu rhwystrau. Y mae Crist, fel gorchfygwr yr annghrediniaeth hwn, yn sefyll uwchlaw pob cenadwri o eiddo dynion ac angylion.

Sabboth, Hydref 6ed—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Ionawr 13eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Adgyfodiad Crist. Luc xxiv.

Adn. 1—12: Gwel y nodiadau ar Matt. xxviii. 1—10; Marc xvi. 1—8. Cymh. Ioan xx. 1—10.

Adroddir hanes ymddangosiad yr Iesu i'r ddau ddysgybl ar y ffordd i Emmaus gan Luc yn unig: 13—35. Tybia rhai esbonwyr mai tystiolaeth un o'r ddau

oedd sail yr holl ran flaenaf, os nad yr oll, o'r bennod hon.

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, MEDI 8FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 16EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

Anfoniad y Deg a Thriugain.

ADN. 9: *Ac iachewch y cleifion a fyddo ynddi.* Comisiwn byr, byrach nag i'r deuddeg, Mat. x. 8. *Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch chwi.* Y mae yn hynod nad yw y deg a thriugain yn adrodd am unrhyw achosion o wellhâd ond bwrw allan gythreuliaid, ar ol dychwelyd o'u taith. Gellid tybied fod ystyr arwyddluniol i "iachâu" yma, gan ei fod yn gysylltiedig â phregethu.

ADN. 10, 11: *Hyd yn nod y llwch, yr hwn a lynodd wrthym o'ch dinas, yr ydym yn ei sychu ymaith i chwi.* Act. xiii. 51; xviii. 6. Gweithred ddifrifol, wedi dyfod i lawr o oesoedd boreuol. Gallasai feddu dwy ystyr: 1. 'Nid ydym yn cymeryd dim o'r eiddoch gyda ni; yr ydym yn ysgaru ein hunain oddiwrth bob cyffyrddiad a chymundeb â chwi;' neu 2. 'Yr ydym yn rhyddhau ein hunain oddiwrth bob cyfranogiad yn eich condemniad; ni fynwn ddim i'w wneyd â'r rhai ydynt yn gwrthod cenadwri Duw.' Gwêl 1 Bren. ii. 5. Arferai y Phariseaid wneyd hyn pan yn dychwelyd i Judea o wlad Genedlig. Edrychid felly ar Iuddewon a wrthodent y genadwri apostolaidd ar yr un tir a'r Cenedloedd. *Er hyny gwybyddwch hyn, fod teyrnas Dduw wedi nesâu atoch.* Nid yw "atoch" yn rhan o'r testun, ac nid yw yn y Cyf. Diwyg. 'Gwybyddwch fod teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos,' er eich bod chwi yn ei gwrthod. Nid oedd hyn yn y comisiwn i'r deuddeg.

ADN. 12—15: Gwel Mat. xi. 21, &c. Ffarwel ddifrifol ein Harglwydd i'r dinasoedd hyn, a chyhoeddiad o'u tynged. Dengys y bygythion trymion hyn y lle uchel a ddelid gan genadon yr Arglwydd Iesu.

ADN. 16: *Y neb sydd yn eich gwrandaw chwi sydd yn fy ngwrandaw I.* Nid oedd y Deg a thriugain yn y swydd apostolaidd; ond yr oeddynt wedi eu galw ar hyn o bryd i gyflawni y gwaith. Felly dyry iddynt yr un sicrhâd ag a roddasai i'r Deuddeg. Mat. x. 40. *A'r neb sydd yn eich dirmygu chwi, &c.* Dwyfol awdurdod yr Efengyl yn llaw offerynau dynol. Yr hyn a wneir i weision Crist, gwneir ef i Grist; a'r hyn a wneir i Grist, gwneir ef i Dduw.

SABBOTH, MEDI 15FED—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 23AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

Hwythau yn dychwelyd yn llawen.

ADN. 17: *A'r deg a thriugain a ddychwelasant gyda llawenydd.* Rhydd Luc y dychweliad yn ymyl yr anfoniad. Tebygol yw na fuant yn absennol ond am rai dyddiau. *Gan ddywedyd, Arglwydd, hyd yn nod y cythreuliaid a ddarostyngir i ni, yn dy enw di.* Nid oes un crybwylliad am ddim effaith arosol i'w gwaith. Yn eu bryd hwy eu hunain, y mae pob peth yn myned o'r golwg yn ymyl "darostwng y cythreuliaid." Nid oedd hyn i lawr yn eu comisiwn; ac yr oedd y naw Apostol yn ddiweddar wedi methu yn eu cais i hyn (ix. 37). Nid rhyfedd iddynt lawenhau. Yr oedd ganddynt ffydd gref, a gwroldeb mawr. Cyfiawnheir eu llawenydd yn atebiad ein Harglwydd iddynt.

ADN. 18: *Ac efe a ddywedodd wrthynt, Mi a welais Satan, megys mellten, yn syrthio o'r nef.* "Gweled" â llygad y meddwl. Yr oedd ei holl fywyd mewnol Ef yn weledïad ysbrydol o gwymp teyrnas y tywyllwch. Yr oedd Efe wedi bod gyda hwynt yn yr ysbryd trwy eu taith, ac yn gweled dadymchweliad Satan trwyddynt hwy. Nid un act o weled sydd yma, ond cyngreddf ysbrydol y Duw-ddyn, i'r Hwn y mae holl ddirgelion y byd ysbrydol yn noeth ac yn agored.

SABBOTH, MEDI 22AIN—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 23AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

ADN. 19: *Wele, yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi awdurdod i sathru ar seirph, ac ysgorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn; ac nid oes dim a wna ddim niwed i chwi.* Darllena y beirniaid goreu "Yr ydwyf wedi rhoddi i chwi." Felly y Cyf. Diwyg. Nid cyfeiriad yn unig at allu wedi ei roddi yn flaenorol, ond cadarnhad ac adnewyddiad o hono. Cyfeiriad yn ddiau at y cyfryw wyrthiau ag yn Marc xvi. 17, 18; Act. xxviii. 5; Salm xci. 13—ond fel yr oeddynt yn amlygiad o'r gallu ysbrydol uwch a roddasid iddynt gan Grist. Yr oedd "seirph ac ysgorpionau" yn arwyddluniau o alluoedd y tywyllwch. Yr oeddynt i orchfygu pob gallu ysbrydol a gyfodai yn erbyn teyrnas Crist.

ADN. 20: *Eithr yn hyn na lawenhewch, fod yr ysbrydion wedi eu darostwng i chwi; ond llawenhewch yn hytrach, am fod eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd.* Y mae ein Harglwydd am gymedroli eu llawenydd, er nad oedd yn ei

gondemnio, ac am droi ei nerth i gyfeiriad gwell. Nid oeddynt i lawenhau yn ormodol am y gwaith a wnaethent. Gallasai y llawenydd hwnw yn hawdd fod ynglŷn â balchder a hunan-gais. Ac nis gallai aros. Gallai rywbryd eto gael ei ddylyn gan ymryson a siomedigaeth. Nid yr hyn a *wna* dyn ychwaith sydd yn penderfynu ei wir nerth. Yr oedd yn bosibl bwrw allan gythreuliaid, a bod yn blant y tywyllwch. Nid yw y doniau uchaf i'w cymharu â lle o anrhydedd yn y nefoedd. Yr oedd eu gwaredigaeth hwy eu hunain o feddiant Satan yn llawer mwy o destyn llawenydd iddynt, nag unrhyw fuddugoliaeth ar rai o'i gaethweision diarfog. Parhâi y llawenydd hwn, hyd yn nod pe byddai i Satan lwyddo eto, neu er i'w henwau gael eu hebargofi ar y ddaear.

SABBOTH, MEDI 29AIN—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* RHAGFYR 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

Yn dysgu cyfreithiwr pa fodd i gael bywyd tragywyddol.—Luc x. 25—29.

ADN. 25: *Ac wele, rhyw gyfreithiwr a gododd, gan ei demtio ef, a dywedyd, Athraw, pa beth a wnaf i gael etifeddu bywyd tragywyddol?* Nid adroddiad arall yw hwn o'r hanes yn Matt. xxii. 37—40, a Marc xii. 28—34, fel y tybiai Strauss. Gwelir wrth gymharu yr hanesion fod Luc yma yn adrodd hanes hollol wahanol. "Cyfreithiwr," math o ysgrifenydd—un yn dysgu y gyfraith; dyn hunan-gyfiawn, y mae yn debyg. Y mae y gair "temtio" bob amser yn cario ystyr ddrwg. Ond gall fod dwy radd: un yw—ceisio "rhwydo" yr Athraw, i gael achlysur yn ei erbyn. Ond y mae natur yr ymofyniad yn gwneyd hyn yn annhebyg yn yr achos hwn. Y llall yw—ei "brofi"—edrych beth a allai hwn ddysgu iddo *ef* oedd eisoes yn gwybod cymaint.

ADN. 26: *Yntau a ddywedodd wrtho, Pa beth sydd ysgrifenedig yn y gyfraith? pa fodd y dorlleni?* Dull arferol ymhlith y Rabbiniaid o holi am ran o'r Ysgrythyr. Nid "beth" yn unig, ond "pa fodd"—beth yw ystyr yr hyn a ddywed yr Ysgrythyr ar y mater? Y "gyfraith" ag yr wyt ti yn ddysgawdwr o honi.

ADN. 27: Arwydd da oedd fod y cyfreithiwr hwn yn dwyn allan ddau "orchymyn mawr" y gyfraith—ei sylwedd a'i hysbryd, yn hytrach na rhyw fânorchymynion pendant. Ond y mae ei achos yn fwy prudd, fod ganddo adnabyddiaeth mor glir o'r gyfraith, a'r fath ddiffyg hollol o adnabyddiaeth o hono ei hun yn ei hwyneb.

ADN. 28, 29. Nid oedd fodd ateb yn well. Gwyddai y gyfraith; nid oedd dim yn eisieu ond ei *gwneyd. Eithr efe yn ewyllysio ei gyfiawnhau ei hun.* Y mae dwy ffordd i ddeall y geiriau hyn. Un yw: fod y cyfreithiwr hwn wedi cymeryd y geiriau "*Gwna* hyn" fel cerydd, a bod ei gydwybod yn dechreu dyweyd wrtho yn awr, er ei syndod, nad oedd efe wedi gwneyd hyn eto. Ond er mwyn cyfiawnhau ei hunan, dywed ei fod ef wedi gwneyd y cwbl a ofynai y gyfraith Iuddewig, os nad oedd Crist yn rhoddi rhyw ystyr wahanol iawn i'r eiddo ef i'r gair "cymydog." Neu ynte: gallai fod geiriau ein Harglwydd yn peri i'w gwestiwn ef ymddangos mor syml, nes ei fod yn cywilyddio am ei ofyn iddo, ac yntau yn athraw yn y gyfraith. Ac er mwyn tafiu esgus dros hyn, dywed: 'Iê, wrth gwrs, y mae hyna i gyd yn eglur iawn. Ond fy amcan I yn gofyn oedd—i wybod pwy a ddylwn ystyried yn gymydog."

SABBOTH, HYDREF 6ED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* RHAGFYR 30AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

ADN. 30: *A'r Iesu gan ateb a ddywedodd, Rhyw ddyn oedd yn myned i waered o Jerusalem i Jericho.* Llefara ein Hiachawdwr y ddameg brydferth hon yn atebiad i gwestiwn y cyfreithiwr—"A phwy yw fy nghymydog?" Tybia Lange fod y cyfreithiwr hwn wedi tramgwyddo wrth waith ein Harglwydd yn anfon y Deg a thriugain trwy drefydd ac ardaloedd Samaria, a'i fod yn traethu y ddameg hon i geryddu ei gulni. A chan fod Crist ei hun ar ei daith yn awr o Samaria i Jerusalem, gallasai fod ar y pryd rhwng Jericho a Jerusalem, ac felly fod golygfa y ddameg yn cael ei chymeryd o'r lle yr oeddynt ynddo. *Ac a syrthiodd yn mysg lladron.* Adnabyddid y diffaethwch rhwng Jerusalem a Jericho fel lle peryglus. *Y rhai wedi ei ddiosg ef, a'i archolli, a aethant ymaith, gan ei adael yn hanner marw.* Wedi ei amgylchu gan ysbeilwyr, nis gallasai amddiffyn ei hunan. Buasai wedi marw yn fuan, oni buasai i ymwared ddyfod.

ADN. 31, 32. Dywedir y byddai lliaws o offeiriaid yn byw yn Jericho, y rhai a gyflawnent wasanaeth y deml yn eu cylch. Dewisent yn gyffredin y ffordd hwyaf a dyogelaf rhwng Jerusalem a Jericho, sef trwy Bethlehem; fel mai peth eithriadol—"ar ddamwain"—oedd i un fyned trwy yr anialwch. Gwelodd yr offeiriad a'r Lefiad gyflwr peryglus y dyn; ond prysuro ymaith a wnaethant, gan deimlo perygl y fath le. Boddwyd llais dynoliaeth, cenedl a chrefydd, yn ddynt gan lais hunan-ddyogelwch.

Adn. 33—35: *Eithr rhyw Samariad, wrth ymdaith, a ddaeth ato ef; a phan ei gwelodd, a dosturiodd.* Sylwa Olshausen fod y ffaith fod Samariad yn cael ei ddewis yn y ddameg, yn dangos mai nid Cenedl-ddyn ond Iuddew oedd y truan archolledig; eithr ni welai y Samariad ynddo ond cyd-ddyn mewn cyfyngder. Y mae yma raddfa: y galon dosturiol, y llaw yn cynnorthwyo, y traed yn ei hebrwng, a darpariaeth am ei ymgeledd rhagllaw. Olew a gwin oedd y cyffuriau arferol.

Adn. 36. Er mwyn cymhwyso y ddameg at gydwybod y cyfreithiwr, gofyna ein Hiachawdwr—Pa un o'r tri oedd yn gymydog i'r hwn a syrthiasai yn mysg lladron? Gofynasai y cyfreithiwr "A phwy yw fy nghymydog?" Y mae y ddameg yn ateb y cwestiwn hwnw, trwy ddangos mai pwy bynag sydd mewn anghen. Ond y mae Crist wedi rhoddi tro i'w gwestiwn, trwy ofyn pwy sydd yn gwneyd rhan cymydog â'r truan? Y mae hyn yn ateb, fel y gwnai ein Hiachawdwr yn fynych, y cwestiwn a *ddylasai* gael ei ofyn. Chwiliai y cyfreithiwr am y cymydog yn y *gwrthddrych;* chwiliai yr Iesu am y cymydog yn y *gweithredydd.*

Oni ellir dyweyd am olygfeydd y ddameg brydferth hon—"yr hyn bethau ydynt mewn alegori?" Gwelodd amryw o'r Tadau, a Luther a Melancthon, a Stier a Trench, yn y truan archolledig, ddyn fel pechadur; ac yn y Samariad trugarog, Waredwr pechaduriaid. Condemnia eraill yr ysbrydoliad hwn ar y ddameg. Y mae y gwirionedd, dybygem, yn eglur, ond i ni "synied i sobrwydd." O ran yr esboniadaeth hanesyddol *(historical exegesis)*, wrth gwrs, nid oes i'r ddameg ond ei hystyr lythyrenol, i ateb dyben uniongyrchol ar y pryd. Ond o ran addysg a chymhwysiad ymarferol, pwy all beidio ei gweled yn ddrych prydferth o hanes yr iachawdwriaeth? Tuag at hyn, nid oes eisieu ysbrydoli y "ddwy geiniog," a'r manylion oll; ond y mae y prif linellau yn ddarlun o'r fath brydferthaf, nad oes modd ei gamsynied.

"Gwel y truan, gwel y tlawd,
Yn gorwedd wrth dy draed;
O Samariad! bydd yn frawd,
Adfera im' iachâd:
Dyro olew yn fy mriw,
A chod fi ar d' anifail cun;
Ac nis gall fyth, fyth, fy nwyn
Ond d' allu di dy hun."

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'I DDECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. John Owen, *Cenadwr.*

V.

Wedi ymadawiad y Parch. R. Williams, cawn mai y cyntaf a ddaeth yma i wasanaethu yr achos oedd y Parch. O. Williams, Towyn, Meirionydd; ond nid ydym yn credu iddo fod yma ragor na mis neu chwech wythnos. Y cyntaf sydd genym ei hanes yn dyfod yma yn genadwr ydyw y Parch. William Hughes, Llanrwst, wedi hyny America. Pa bryd y daeth yma nis gallwn fod yn sicr, ond y mae ei enw ar gael yn arwyddo cyfrifon yn Medi, 1842, ac yn Ionawr, 1843. A'r hyn a allwn gasglu ydyw ei fod yn ymadael ddechreu y flwyddyn 1843, o herwydd ar ddechreu Mai cawn y Parch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd, yn arwyddo cyfrifon cyffelyb, yr hyn sydd yn peri i ni gredu yn gryf ddarfod i'r Parch. E. Davies fod yma am o leiaf dri mis y pryd hwn. Yna, hyd y gallwn farnu, daeth y Parch. David Morris, Bwlan, yma, er y mae yn rhaid i ni addef ein bod yn teimlo cryn anhawsdra i benderfynu yr adeg y bu yma, ac yn ddiweddar y daethom i ddeall ei fod wedi bod yma o gwbl. Galwyd ein sylw at nodiad a geir yn y *Dyddiadur* am dano wedi ei farwolaeth, yn yr hwn y dywedir ddarfod iddo ar ei ddyfodiad o Athrofa y Bala ymgymeryd â gofal yr achos Cymreig yn Dublin. Ysgrifenasom at ei fab yn nghyfraith, y Parch. R. R. Morris, Caernarfon, a chawsom atebiad caredig yn ol, yn dyweyd ddarfod i'r Parch D. Morris fod yma yn gwasanaethu yr achos am hanner blwyddyn, ac yn pregethu ddwywaith bob Sabboth; ond nad oeddys yn gwybod yn sicr yr adeg, a hyny am na wyddys yn sicr yr adeg y bu yn yr Athrofa, ond yn unig ei fod yno yr un adeg a'r Parch. Rees Jones, Felinheli. Nid yw enw Mr. Morris yn rhestr enwau hen efrydwyr yr Athrofa a ddaeth allan yn ddiweddar yn y *Goleuad.* Ond y mae enw Mr. Jones yno yn y flwyddyn 1839. Clywsom iddo fod yn yr Athrofa bum' mlynedd; ac os oedd yno ychydig o flaen Mr. Jones, y mae yn dyfod yn lled agos i'r amser yr ydym fel hyn yn credu iddo fod yn gwasanaethu yr achos yma. Yn y flwyddyn 1844, cawn y

Parch. Hugh Roberts, Bangor, yma am y waith gyntaf, ond ni bu ei arosiad, hyd y mae yn gallu cofio erbyn hyn, ond oddeutu mis. A chredwn hefyd mai yn y flwyddyn hon y bu y Parch. Richard Roberts, Llanerchymedd, yma y tro cyntaf, a hyny am rai misoedd; a chlywsom yn ddiweddar hanesyn tra nodweddiadol o hono yn anfon i Gyfarfod Misol Môn i erfyn arnynt anfon o'r swm dyledus iddo am wasanaethu yr achos, un rhan iddo ef yma, gan nodi y swm, "ac anfonwch y gweddill," meddai, "i fy mam i Lanerchymedd," ac yr oedd rhan y fam gymaint ddwywaith a rhan y mab. Am y blynyddoedd hyn nid oes genym ddim i'w ddyweyd. Ond yr hyn a ellir ei gasglu oddiwrth yr hyn a ysgrifenwyd genym o'r blaen ydyw, mai golwg isel a digalon oedd ar yr achos, a chryn lawer o bryder yn cael ei deimlo yn ei gylch. O adeg ymadawiad y Parch. R. Williams hyd yn awr, yr ydym yn cael yr eglwys yn lleihâu mewn rhif a nerth. Yn Hydref, 1842, y mae Mr. R. Jones, oedd yn gweithredu fel trysorydd yr achos yn y lle, yn ymadael; ac ar ymadawiad y Parch. W. Hughes yn niwedd 1843, neu ddechreu 1844, y mae yr eglwys heb ond un mab yn aelod o honi, sef Mr. Humphreys, a rhyw wyth neu ddeg o ferched, a'r rhai hyny oll o'r bron mewn gwasanaeth, a'r ddyled fel y crybwyllwyd yn gwasgu arnynt, a bygythid o'r Gymanfa am roddi yr achos i fyny; ac eto y mae yr ychydig hyn yn dal ati yn gwbl ddidroi yn ol, ac y maent yn rhoddi o'r neilldu, rhai yn wythnosol, ac eraill yn fisol, eu cyfran at dynu y ddyled i lawr: ac y mae yn syn pa mor ddifwlch oeddynt, yn neillduol felly Mr. a Mrs. Humphreys, a Mr. R. Jones, tra y bu yma. Y mae enwau dau neu dri o frodyr eraill yn dyfod ar y llyfrau yn y misoedd diweddaf, ond nid ydym yn abl i ddyweyd dim y naill ffordd na'r llall am danynt. Bygythid unwaith ac eilwaith, fel y crybwyllwyd, roddi yr achos yma i fyny, ond y mae yn amlwg y mynai y Nefoedd gadw yr achos bychan hwn yn fyw, a'r dydd pryd y "dadguddir pethau cudd" fydd y dydd pryd y dadguddir yn llawn yr hyn a wnaed yn y gorlan fechan hon.

Yn haf y flwyddyn 1844, y mae Mr. Humphreys yn gorfod myned am dro i Gymru er lles ei iechyd. Ond yn lle gwella, y mae ei afiechyd yn myned yn drech nag ef, a bu farw yn Mangor, Tachwedd 22, yn 35 mlwydd oed. Ac anhawdd desgrifio y golled i eglwys fach Dublin oedd colli un ag yr oedd yr achos mor agos at ei galon, a'r unig frawd oedd ar y pryd yn aelod o'r eglwys. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Oddeutu Hydref, 1844, y mae y Parch. James Donne, Llandudno, yn dyfod yma i gymeryd gofal yr achos. Anfonasom ato i ofyn a oedd iddo ryw adgofion am y lle y pryd hwnw, a phwy ydoedd y rhai amlycaf ynglŷn â'r achos, a dyma fel yr ysgrifenai efe: "Gan fod dros 40 mlynedd er pan y bum yn aros yn Dublin am naw mis, felly yr wyf wedi anghofio pob manylion. Trai a llanw ydoedd hi gyda'r achos goreu. Pan y byddai llawer o longau i mewn byddai y capel yn llawn ar nos Sabbothau. Yr wyf yn cofio yn dda y byddai Mr. Pritchard, *steward* ar un o'r *steamers*, ynghyd a'i briod, yn dra gwasanaethgar. Credwyf fod yn werth cadw yr achos pe na byddai ond y gwasanaeth gwerthfawr yw i'r morwyr. Bendith arnoch, a chofion caredig atoch." Ar ddiwedd y flwyddyn 1844 cawn Evan Phillips, llywydd y llong "Elusai," a D. Evans, llywydd y llong "Gwen Davies," yn cydysgrifenu i'r Drysorfa, gan ddywedyd: "Yr olwg hyfryd a gobeithiol ydym yn ei gael ar yr achos Cymreig yn Dublin a'n cymhella i ysgrifenu, gan hyderu y gallwn gynhesu ymysgaroedd ein brodyr yn Nghymru, ac na bydd iddynt feddwl mwyach ei roddi i fyny. Rhaid i ni addef fod yr olwg arno wedi bod yn llwydaidd, a Sïon heb nemawr neb yn ei cheisio; ond yn bresennol y mae yr Arglwydd megys yn dyweyd wrth Sïon, 'Cyfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni.' Nis gallasem lai na rhyfeddu wrth edrych ar y gynnulleidfa yn bresennol wrth a welid yma oddeutu blwyddyn yn ol; yr addoldŷ bron yn llawn, a'r rhan liosocaf o honynt yn cyfanneddu yn y ddinas; hefyd yr oedd swm y casgliad y Sabboth diweddaf yn ddeg swllt a phedair a dimai; hefyd casglwyd oddeutu saith punt at adgyweirio a phaentio y capel, fel y mae weithian yn dra hardd. Ond uwchlaw y cwbl, cawsom y fraint o weled pump yn cael eu derbyn i gymundeb eglwysig. Hefyd hysbyswyd ni gan y Parch. J. Donne ddarfod iddo am y ddau Sabboth cyntaf wedi iddo ddyfod yma bregethu dair gwaith; ond iddo o hyny allan, trwy gydsyniad yr eglwys ac eraill, gadw ysgol y boreu, a phregethu am 2 a 6; ac, yn ol ein barn ni, fod y cyfnewidiad er gwell. Y mae yr hyfrydwch a gawsom yma y ddau Sabboth diweddaf yn peri i ni dristâu wrth glywed son am roddi yr achos i fyny. Gellir dysgwyl y bydd eglwysi Cymru yn medi o ffrwyth llafur gweinidogion Crist yn y ddinas Babaidd hon." Fel yna gallwn feddwl y bu dyfodiad y Parch. J. Donne yma, yn

foddion adfywiad mewn modd neillduol i'r achos; ond y mae yn ymadael, wedi bod yma, fel y dywed, am naw mis.

Yn yr adroddiad Cenadol am y flwyddyn yn terfynu Medi, 1845, cawn yr hyn a ganlyn: "Mae yr Achos Cymreig yn y ddinas hon â gwedd led obeithiol arno yn bresennol. Nifer y gwrandawyr cartrefol sydd oddeutu 80, a bydd weithiau 90 o forwyr; yn yr eglwys y mae 27 o aelodau cyflawn, a 2 ar brawf; nifer yr Ysgol Sabbothol yw 40.

Yn ddilynol i'r Parch. J. Donne, cawn y Parch. William Griffith, Caernarfon, yn dyfod yma i gymeryd gofal yr achos. Ond beth oedd dyddiad ei ddyfodiad a'i fynediad oddiyma nid ydym wedi cael gwybod. Anfonwyd i'r man tebycaf o gael gwybod, ond ni chafwyd yr un atebiad. Ond yn ddiweddar cawsom afael ar yr hyn a ganlyn:—

Casglwyd yn Sir Fôn at y Cymdeithasau Cenadol:—

	£	s.	d.
Ionawr, 1846	696	9	9
Llôg o'r Ariandŷ	3	10	3
	£700	0	0
Gyrwyd i Mr. Roberts, Liverpool, at wasanaeth y Gymdeithas Dramor	350	0	0
Gyrwyd i Mr Roberts, Caer, at y Gymdeithas Genadol Gartrefol	284	0	0
Yn llaw y Trysorydd at Achos Dublin	66	0	0
Taliadau at Achos Dublin:—			
Dyled er y flwyddyn o'r blaen ..	0	9	2½
Costau brawd claf	0	17	0
I weinidogion am eu gwasanaeth yn Dublin	8	0	0
Costau myned a dychwelyd ..	1	11	0
Am oflau am dŷ y Capel	4	0	0
At draul symudiad y Parch. W. Griffith a'i deulu i Dublin ..	3	0	0
Talwyd i'r Parch W. Griffith ..	45	0	0
Costau *Post Office Orders*	0	2	6
Arian mewn llaw	8	0	3½
	£66	0	0

(Y fath amlygiad, onidê? yw y daflen uchod o ofal y tadau yn Sir Fôn am yr achos yn Dublin, a gwaith y Genadaeth Gartrefol yn gyffredinol.) Credwn fod y cyfrif yna yn golygu yr hanner olaf o'r flwyddyn 1845, a'r flaenaf o'r flwyddyn 1846; a'i fod yn rhoi ar ddeall trwy y swm a dalwyd i'r Parch. W. Griffith, ei fod wedi dyfod yma oddeutu Hydref, 1845, er ar yr un pryd i ni gael ein hysbysu mai yn Mawrth, 1846, y daeth ei deulu drosodd. Pa bryd y gadawodd? Nid oes genym ond dyfalu ei fod wedi gadael yn gynnar yn y flwyddyn 1848. Cyn ei ymadawiad ef, yr oedd y Parchn. William Jones, Dwyran, a David Roberts, Llangristiolus, yma yn yr ysgol, a bu y Parch. D. Roberts yn gwasanaethu yn ei le am chwech wythnos yn y flwyddyn hon. Ac yn y flwyddyn hon hefyd cawn fod y Parch. Dr. Davies, Caernarfon, a Dr. Pughe, Clynnog, yma yn efrydu; a'r flwyddyn hon hefyd daeth Mr. William Davies yma, yr hwn er's llawer blwyddyn erbyn hyn yw diacon yr eglwys (a bydd genym aml i grybwylliad am dano ef bellach fel yr awn ymlaen), ac yr oedd ef dan yr argraff mai ar Dr. Davies yr oedd gofal yr achos pan y daeth ef yma gyntaf, gan mor aml y pregethai yma. Ond dywed Dr. Davies ei hunan fel y canlyn:—

"Mewn atebiad i'ch llythyr, y mae yn wir ddrwg genyf nad oes genyf ddim oll o *fanylion perthynol* i'r Achos Cymreig yn Dublin, ag y byddai eu cofnodi yn debyg o gynnyrchu dim dyddordeb. Ni bum yn gwasanaethu yna o gwbl. Tra yna yn *medical student*, bum lawer gwaith yn myned tua'r capel foreu Sabboth, gan ddysgwyl gweled gweinidog wedi ei anfon gan gyfeillion Sir Fôn, ond erbyn cyrhaedd i'r capel nid oedd yno yr un gweinidog, ac weithiau lon'd y capel o forwyr Cymreig. O dan yr amgylchiadau hyny nid oedd genyf ond myned fy hunan i'r pulpud, a thraethu rhyw ychydig gynghor pur amrwd i'r gynnulleidfa. Yr oeddwn yna yn y flwyddyn 1848 a rhan o'r flwyddyn 1849, sef y tymmor y byddai y *lectures* yn parhâu."

Fel yna fe welwn fod rhan helaeth o'r flwyddyn 1848, a hefyd o'r flwyddyn 1849, heb neb â gofal yr achos yn neillduol arno, a'r hyn a gawn yn yr Adroddiad Cenadol am y flwyddyn yn terfynu Mehefin, 1849, ydyw: "O Dublin ni dderbyniwyd dim hanes neillduol. Y mae yno oddeutu 20 o aelodau eglwysig; y gynnulleidfa sydd gyfnewidiol, yn ymddibynu, gan mwyaf, ar forwyr, a phobl ieuainc mewn gwasanaeth; ar brydiau bydd yno gynnulleidfa lïosog. Y mae yr achos yno yn gwbl dan ofal Cyfarfod Misol Sir Fôn." Ond tua chanol y flwyddyn hon y mae y Parch. Hugh Roberts, Bangor, yn dyfod drosodd, ac y mae yn aros yma i wasanaethu yr achos am yn agos i flwyddyn. Ac fel hyn yr ysgrifena Miss Roberts, ei ferch, atom:—

"Y mae yn ddrwg genyf nas gall fy nhad ysgrifenu i chwi ychydig o hanes ei ymweliad â Dublin, y gwahanol amserau y bu yno; ond y mae yn teimlo nas gall wneuthur dim i unrhyw bwrpas, am fod ysgrifenu wedi myned yn flinder mawr iddo, am ei fod yn teimlo yn llesg a gwan. Y mae yn tybied mai yn y flwyddyn 1844 y bu yna gyntaf, a hyny am fis. Ychydig mewn nifer oedd yna ar y pryd. Bu yna ddwywaith neu dair hyd y flwyddyn 1849; yn y flwyddyn hon yr oedd yn aros yn Mangor gyda'r Parch. David Roberts, pryd y dy-

wedodd wrtho ei fod wedi rhoddi cyhoeddiad i John Williams, Ysw., Frongoch, i fyned i Dublin. Ond cymerwyd y Parch. D. Roberts yn wael, ac aeth fy nhad ar annogaeth Mr. Williams yna yn ei le (efe ar y pryd oedd yn gofalu, trwy benodiad y Cyfarfod Misol, am y cyhoeddiadau yn Dublin). Bu yno yn agos i flwyddyn. Mr. Pritchard, o Gaergybi, oedd yn cadw y tŷ capel, ac yn *steward* ar un o'r *steamers*. Fe fyddai yn pregethwr dair gwaith bob Sabboth. Nid oedd yna yr un diacon y pryd hwnw, y pregethwr fyddai yn cyhoeddi, &c. Yr oedd golwg mwy llewyrchus ar yr achos o lawer na'r tro cyntaf y bu yna; cryn nifer o ddynion ieuainc yna; rhai mewn masnachdai, eraill mewn ysgolion, ac eraill yn yr ysbyttai, ac amryw o ferched ieuainc mewn gwasanaeth. Yr oedd y diweddar Dr. Pughe o Glynnog, a Dr. Davies, Caernarfon, yna y pryd hwn, a Mr. a Mrs. Davies; a byddai nifer fawr o forwyr ar amseroedd yna. Capel Cymraeg y byddai y capel yn cael ei alw, am y byddai pob enwad yn cyfarfod ynddo, am nad oedd un achos Cymreig arall yn y lle.

Yr oedd y cyfarfodydd gweddïo yn llewyrchus iawn ar adegau pan y byddai y morwyr yn dygwydd bod ynddynt, ac yr oedd yna ffyddlondeb mawr, a haelioni yn ol eu gallu, ac yr oeddynt yn unol iawn â'u gilydd."

Barddoniaeth.

IAWN CRIST.

Pryddest yn Eisteddfod Gadeiriol Lixwm, 1888. *Gan* "CORNELIUS" *sef Mr. Joseph Griffiths, Wyddgrug.*

(Parhad o tu dal. 300.)

Meddylier am fawredd y Person anfeidrol
Ddyoddefodd ac a ufuddhaodd fel hyn,
A gwelir elfenau yr haeddiant tragwyddol
Sy 'n sail i lân buro 'r aflanaf yn wyn.
Yr Hwn a ddisgynodd yw 'r Hwn a esgynodd,
Goruwch yr holl nefoedd mae 'n eistedd yn awr,
A'n natur wael ddynol i'r mawredd ddyrchafodd;—
Gan luoedd gogoniant ei foliant sydd fawr.
Ha! wele deilynggod, gogoniant, a mawredd
Yr Oen sydd yn nghanol gorseddfainc y nef;—
Efe 'r Hwn a laddwyd, medd cylchoedd yr orsedd,
Pob bendith a gallu fo byth iddo Ef!

Mil myrdd o angelion, a'r dysglaer henuriaid,
A phob rhyw greadur trwy ddaear a nen,
I'r Oen a gyflwynant eu moliant bendigaid,
A'r Pedwar anifail gydseiniant Amen!
Gorfoledd. llawenydd trwy 'r Iawn a deyrnasa;
Pob dosbarth, pob gradd sydd yn cydymfwynhau;
Llonyddu mewn cariad mae mynwes Jehofah;
Trugaredd mewn purdeb sy 'n ymlawenhau.

Trwy waed ei groes Ef y gwnaed heddwch sefydlog
A chymmod i bobpeth trwy nefoedd a llawr;—
Y tywysogaethau, a'r thronau mawreddog,
A phob rhyw lywodraeth a meddiant sy 'n awr
Yn tawel ymorphwys mewn nwyfus dangnefedd;—
O fôr diogelwch pob mynwes yn llawn;
Cyfammod fel enfys o amgylch yr orsedd,
A'i liwiau 'n pelydru o haeddiant yr Iawn.

Ah! gwelaf bechadur, sef dynol droseddwr,
Mewn môr o anobaith, heb waelod na glàn;
Yn euog gan ddeddf, a chyfiawnder, a'r Barnwr;
Y ddedfryd yn bwysig, ac yntau yn wan:
Nis gall roddi cyfrif am un-peth o filfil,
Mae 'r cwmwl yn duo, mae 'r mellt yn crynhoi;—
Bu unwaith yn wrol,—yn awr, Och! mor eiddil;
Mae 'r galon yn suddo wrth feddwl am ffoi;—
Ond Ha! gwel yr Iesu ar dnostan mewn adgof;
Mae 'n syllu, mae 'n credu, O! ryfedd brydnawn!
Mae 'r Barnwr yn tystio—"Nid oes ddigter ynof,
A gollwng e 'n rhydd,—myfi gefais Iawn."

Y dydd yr esgynodd y Brenin gogoniant
Yn fuddugoliaethus i orsedd y nef,
Adseiniai orielau Caersalem mewn moliant,
A'r gân ydoedd newydd o glod "Iddo Ef."
Hen seintiau o'r cynfyd, mewn hwyl adnewyddol,
A ddyblent y gân am eu sicrwydd mwy llawn,—
Nad ofer eu ffydd mewn Messïan dyfodol;—
Yr Oen gynt a laddwyd,—"Efe y.. yr Iawn.".

Cyhoedder ar fyrder yn mhob rhyw dafodiaith
Trwy 'r ddaear, fod cymmod i'r euog trwy 'r Iawn.
Na cheisied y Pagan na 'r Pabydd rodreswaith
Teilyngdod dyhuddol—mae 'r haeddiant yn llawn
O! doed yr afradlon o wlad bell y cibau
I deimlo fod Tad yn ei ddysgwyl yn ol;
A gwisg, ac esgidiau, a modrwy a seigiau,
A chalon fawr cariad i'w dderbyn i'w chôl.

Myneger i'r caethion gan bechod a Satan,
Fod pridwerth digonol yn haeddiant yr Iawn:
Wrth hen garcharorion dyweder—'Ewch allan!
Meddiennwch eich cyfiawn ollyngdod yn llawn.'
Boed son am y cymmod yn treiddio fel trydan,
I'r Dwyrain. Gorllewin, y Gogledd a'r De:
Gwybydder fod ffynnon yn golchi yr aflan;—
Fe olchwyd mil-filoedd, ac eto mae lle.

O! nac anobeithied y duaf droseddwr
A redo i'r noddfa dan arwydd y gwaed:
Y Crist a fu farw sy 'n awr yn Eiriolwr;—
Dangosa ei ystlys, ei ddwylaw, a'i draed.
Trwy rinwedd ei haeddiant esgynodd i'r orsedd;
Pob nerth ac awdurdod gyflwynwyd i'w law.—
Addawodd yr Ysbryd—gweinidog tangnefedd,
Yn ngrasol gyflawnder ei ddoniau fe ddaw.

Ar ddydd mawr y Pentecost daeth mewn eglurder,
Gan hollti a thoddi celltfeini yr oes,
A chludo tystiolaeth Duw Dad o'r uchelder
I fawredd yr Iesu er gw'radwydd y groes.
Mae galar, crediniaeth, a bedydd hyd heddyw
Yn aros yn rhwymedigaethau di gêl,
Yn foddion ammodol o'r Ysbryd yn enw
Yr Hwn sy 'n croesawu pwy bynag a ddêl.
Yn awr mae 'r addewid a'r haeddiant yn aros,
Mae angor ein gobaith y tu fewn i'r llen;
Mae 'r Oen megys newydd ei ladd yn ymddangos;—
Boed bywyd o'i glwyfau i minnau. Amen.

GAIR YN CREU—DYSTAWRWYDD YN AIL-GREU.

(Cyfieithiad o Hen Awdwr.)

. . "Eithr nid atebodd efe DDIM."—MARC xv. 3.

O DDIM galluog! I ti 'n wir
Dyledus ydym am yr oll sy 'n bod.
Duw *dd'wedodd* pan â'i Air y gwnaeth bob peth,
Achubodd bobpeth pan na dd'wedodd ddim.
Y byd *o* Ddim a wnaed â gair un waith,
Fe 'i gwnaed *gan* Ddim o newydd yr ail waith.

G.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Plasmarl, Gorphenaf 9 a'r 10fed, cyflwynwyd y Parch. William D. Jenkins, Wilkes-Barre, Pennsylvania, America, i'r cyfarfod. Rhoddwyd derbyniad cynhes iddo. Dadganwyd cydymdeimlad dwfn â'r dyoddefwyr yn Johnstown, Pennsylvania, yn wyneb y trychineb ofnadwy a gymerodd le yno, ynghyd a pharodrwydd a dymuniad i gyfranu yn sylweddol tuag at eu cynnorthwyo. Arwyddwyd cydymdeimlad dwfn â'r ysgrifenydd (y Parch. Rees Phillips, Aberavon) yn ei brofedigaeth chwerw o golli ei fab, a gosodwyd ar y Parchn. Moses Williams a William James, M.A., i osod côf-nod o hyn ar lyfr y Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Llanbadarn, Gorphenaf 11eg, daeth annogaeth oddiwrth y Pwyllgor Cenadol fod i'r holl eglwysi gynnal cyfarfod cenadol ar nos Sabboth cyn gwneyd y casgliad cenadol tramor. Dosbarthwyd cylchlythyrau yn hysbysu am Gofiant a Phregethau y diweddar Barch. Richard Owen, gan y Parch. William Pritchard, Pentraeth, Môn, ac annogwyd yn wresog yr holl eglwysi i wneyd ymdrech neillduol i ledaenu y llyfr rhagorol hwn, ac yn arbenig cymhell y bobl ieuainc i'w ddarllen, er mwyn cyfranogi o ysbryd ein diweddar frawd. Crybwyllwyd hefyd fod yr holl elw yn myned i gronfa y Dysteb goffadwriaethol i deulu Mr. Owen. Cafwyd anerchiad gwresog a hynod ddyddorol ar y Genadaeth yn Khassia, gan y Cenadwr, y Parch. Dr. Griffiths. Pasiwyd penderfyniad gwresog o lon-gyfarchiad i Dr. Griffiths ar ei ymweliad â'n gwlad, gyda'r dymuniadau goreu am ei lwyddiant a'i gysur wedi dychwelyd i faes ei lafur.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn Blaenafon, Gorphenaf 18fed, darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. David James, Caerdydd (Llaneurwg gynt), yn cydnabod yn ddiolchgar gydymdeimlad y Cyfarfod Misol âg ef yn ei flin a'i faith gystudd.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn y Babell, Llanaelhaiarn, Awst 5 a'r 6ed, penderfynwyd anfon y genadwri hon i'r Gymdeithasfa nesaf:—"Ein bod yn dymuno ar y Gymdeithasfa ail-ystyried y penderfyniad i godi tâl dros y pregethwyr ieuainc yn Adran Ragbarotoawl Athrofa y Bala, gan ein bod yn credu fod yr adran hon yn anghenrheidiol ar hyn o bryd, ac y dylai am hyny gael ei dwyn ymlaen ar draul Cronfa yr Athrofa." Hysbyswyd am brofedigaeth chwerw Mr. H. J. Williams (Plenydd), Fourcrosses, trwy farwolaeth annysgwyliadwy ei ferch, yr hon oedd yn ferch ieuanc nodedig o rinweddol, a phenderfynwyd anfon cydymdeimlad mwyaf diffuant y cyfarfod âg ef a'i briod yn eu profedigaeth, ac hefyd â Mrs. Owen, Portmadoc, nain y ferch ieuainc, gyda'r hon yr arosai am y rhan fwyaf o'i hamser.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd nos Fercher, Gorphenaf 31ain, hysbyswyd gan y brodyr o Charing Cross Road fod y chwaer ieuanc, Miss Williams, yn bwriadu cychwyn yn lled fuan i'r maes cenadol yn India, a bwriedir cynnal cyfarfod ymadawol yn Charing Cross Road ar y 4ydd o Fedi, pryd y cyflwynir anrhegion i Miss Williams ei hun; ac hefyd, cyflwynir i'w gofal y llestri cymun a arferid yn y gwasanaeth yn Nassau Street, pa rai a anfonir yn anrheg i'r eglwys yn Sylhet.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Solfach, Gorphenaf 30 a'r 31ain, darllenwyd llythyr o Gymanfa Pennsylvania yn cyflwyno y Parch. J. E. Harries, yr hwn sydd ar ymweliad â'r wlad hon. Gwnaed coffâd am y diweddar Barch. T. Lamb, Abergwaun, yr hwn a fu farw Gorphenaf 11eg. Er nad ystyrid ef yn bregethwr mawr, eto yr oedd yn hynod o wresog a gwlithog, a thystiai llawer eu bod wedi cael bendith dan ei weinidogaeth.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn Aberllefeni, Awst 12 a'r 13eg, cafwyd trafodaeth helaeth a buddiol, yn nghyfarfod y boreu, ar "Grefydd ymarferol mewn cysylltiad â'n holl ymarferiadau, mewn geirwiredd, gonestrwydd, &c. Agorwyd gan y Parch. John Owen, Aberdyfi, a chyflwynwyd diolchgarwch cynhes y cyfarfod iddo am ei anerchiad. Cyflwynwyd y Parch. Richard J. Jones, gynt o Rehoboth, gerllaw Dolgellau, yr hwn sydd yn awr ar ymweliad â'r wlad hon o America.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Bontuchel, Awst 8 a'r 9fed, darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. O. T. Williams, yn awr o Vale Road, Rhyl, o Henaduriaeth Lancaster i Gyfarfod Misol Dyffryn Clwyd. Penderfynwyd rhoddi i Mr. Williams y derbyniad mwyaf croesawgar a siriol, gyda dy-

muniad am ei ddefnyddioldeb a'i gysur yn ei le newydd.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Llanrug, Awst 12 a'r 13eg, cafwyd sylwadau gwerthfawr gan y Parch. W. Rowlands, Cefnywaen, ac ymddyddan profiadol am y weinidogaeth. Gwnaed coffâd cynhes a theimladwy am y diweddar Mri. Robert Jones a Henry Parry, Dinorwig, dau flaenor gwir ffyddlawn ac ymroddedig yn yr holl wasanaeth. Trefnwyd i'r llywydd anfon cydymdeimlad diffuant y cyfarfod â theuluoedd y ddau frawd ymadawedig, a dadganwyd cydymdeimlad hefyd â'r eglwysi y perthynent iddynt yn wyneb y golled a gawsant yn eu marwolaeth.

SYMUDIADAU GWEINIDOGION.

Deallwn fod y gweinidogion canlynol wedi, neu ar, symud:—

Y Parch. Isaac Morgan, Talley, i Pontardawe, Gorllewin Morganwg.

Y Parch. W. Jenkin Jones, gynt o Langyfelach, i Llanfihangel a Llangors, Sir Frycheiniog.

Y Parch. W. Samlet Williams o Gowerton i Briton Ferry.

Y Parch. Thomas Jones, Bwlchyllan, i eglwys Seisonig Gelli, Ystrad Rhondda.

Y Parch. Robert Jones, Babell, Abertawe, i Rhosllanerchrugog.

Y Parch. H. P. James, Porth, i Caerphily.

CYFARFODYDD PREGETHU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Cymdu, Awst 8 a'r 9fed. Y gweinidogion oedd yn gwasanaethu oeddynt y Parchn. Owen Owens, Liverpool, a John Evans, Llanfaircaereinion.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Abercynffig, Sabboth a Llun, Gorphenaf 21 a'r 22ain. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. E. Matthews, W. Thomas, Maesteg, a W. James, Aberdâr.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Trinity, Llanelli, Sabboth a Llun, Gorphenaf 21 a'r 22ain. Gwasanaethwyd gan y Parchn. A. Owen, Pontardulais, a R. Jones, Abertawe.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Glandŵr, Abertawe, nos Sadwrn a'r Sabboth, Awst 3 a'r 4ydd. Pregethwyd gan y Parchn. T. Levi, Aberystwyth, a T. Thomas, Llandovery.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Glyn Ebbw, Sabboth a Llun, Awst 11 a'r 12fed. Pregethwyd gan y Parchn. D. Saunders, D.D., Abertawe, a T. C. Phillips, Abercarn.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol Penarth, ger Caerdydd, Sabboth a nos Lun, Gorphenaf 28 a'r 29ain. Gweinyddwyd gan y Parch. G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Blynyddol Philadelphia, Treforris, Sabboth a Llun, Awst 11 a'r 12fed. Pregethwyd gan y Parchn. Evan Phillips, Castellnewydd, a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol Eglwys Seisonig Ruthin, ar y Sabboth, Awst 25ain. Pregethwyd gan y Parch. G. Parry, D.D., Aberystwyth.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. THOMAS LAMB, ABERGWAUN, SIR BENFRO.

Bu farw y gweinidog uchod, Gorphenaf yr 11eg, wedi cyrhaedd henaint teg, yn 87 mlwydd oed. Bu yn pregethu am driugain mlynedd; dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1829, ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1858. Yr ydoedd wedi ei analluogi i bregethu am y pymtheng mlynedd diweddaf, ac yn ddall er ys pump neu chwe' blynedd.

Dyn syml a diniwed oedd Mr. Lamb, ac o dymher siriol a hawddgar. Nid ystyrid ef yn bregethwr mawr, ond yr oedd ei weinidogaeth yn wlithog a buddiol, ac yn gymeradwy gan y saint.

Claddwyd ef ar y 15fed o Orphenaf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Symmons; ac wrth y bedd gan y Parch. W. M. Lewis, Tŷ Llwyd, a'r Parch. Philip Jones.

Y PARCH. JAMES LAMB, SEACOMBE.

Yn mhen tua thair wythnos ar ol ei gyfenw a'i berthynas, ymadawodd y Parch. James Lamb â'r fuchedd hon, sef Gorphenaf yr 31ain, yn 67 mlwydd oed. Credwn fod Mr. Lamb yn frodor o Sir Benfro, os nad o Abergwaun; ond yn Liverpool a Seacombe y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd yn bregethwr syml ac adeiladol, zelog a ffyddlawn. Mab iddo ef, fel y mae yn hysbys i'r rhan fwyaf, yw y Parch. George Lamb, yr hwn a symudodd er ys amryw flynyddoedd bellach i Unol Daleithiau America.

Claddwyd ef ddydd Sadwrn, Awst y 10fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. David Williams, Thomas Rees, Cefn, Abraham Roberts, &c.

Nodiadau Misol.

CANON WILBERFORCE AR YR EGLWYS AC YMNEILLDUAETH.

Pregethai Canon Wilberforce, ychydig wythnosau yn ol, yn Eglwys *St. Mary's*, Southampton, ar yr achlysur o ŵyl flynyddol yr *Hampshire Diocesan Society*. Ei destyn oedd y geiriau "Gwthia i'r dwfn," &c., Luc v. 4. Siaradai yn gry dros yr Eglwys fel sefydliad gwladol o grefydd, a dadleuai ei hawl gyfreithlon i'w holl feddiannau. Ar yr un pryd, dywedai y gallai yr Eglwys wneyd heb y wladwriaeth yn well na'r wladwriaeth heb yr Eglwys. Barnai y byddai dadsefydliad yn drychineb mawr i'r deyrnas, a phriodolai drueni yr Iwerddon i ddadsefydliad yr Eglwys Wyddelig. Dywedai eu bod hwy, gan hyny, fel gwladgarwyr yn erbyn dadsefydliad, ond fel Eglwyswyr, na waeth ganddynt pa un. Sylwai mai un lles a ddeilliai oddiwrth ddadsefydliad a fyddai tynu ymaith golyn gwenwynig cŵyn Ymneillduaeth boliticaidd. Ond er nas gallai oddef y math hwnw, addefai fod Ymneillduaeth anmholiticaidd a chydwybodol; a chredai nad oedd Eglwys Loegr wedi dangos cymaint o lwfrdra mewn unrhyw gyfeiriad, nag yn ei hagwedd tuag at Ymneillduwyr cydwybodol. Dywedai y gallai clerigwyr yn sior ddangos ysbryd mwy cymmodlawn tuag at y dosbarth hwn, ac y gallent ochelyd yr ail-adroddiad ymosodol mewn gweithred, agwedd a gair o'r hòniad, "Teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd, teml yr Arglwydd ydym *ni*." Ond ar yr un pryd, dywedai fod yn rhaid iddynt lynu yn ddi-wahan wrth draddodiadau di-dòr yr Eglwys Gatholig gyda golwg ar *Rinwedd y Sacramentau*, a gwirionedd ac effeithiolrwydd *Ordeiniad Apostolaidd*.

Cofir fod Canon Wilberforce yn fab i ddiweddar Esgob Winchester (Esgob Rhydychain cyn hyny), ac yn ŵyr i William Wilberforce, yr ymladdwr dewr dros ryddhad y caethion.

Y PECHOD O FYNED I'R CAPEL.

Gellid casglu oddiwrth y nodiad uchod, er mor zelog Eglwyswr yw Canon Wilberforce, y buasai yn edrych gyda syndod ar waith un clerigwr yn ddiweddar, mewn plwyf yn Lloegr, yn gwrthod rhoddi y cymun i foneddiges a arferai ddyfod i'w eglwys, ag oedd yn un o'r cymunwyr. Ei phechod oedd—*ei bod wedi myned i gapel Wesleyaidd*, a hyny, os ydym yn cofio yn iawn, fwy nag unwaith. Galwai y clerigwr y fath weithred yn *bechod;* ac nid hyny yn unig, ond yn bechod anfad—"i'w osod" (meddai) "yn yr un dosbarth a phechodau y *cnawd!*" Y mae ei esgob wedi ei gymeryd mewn llaw, a gweithrediadau cyfreithiol yn rhai o'r llysoedd wedi eu cychwyn yn ei erbyn. Sylwa un o'r prif newyddiaduron mai dirgelwch mawr yw fod y fath feddwl wedi ei greu o gwbl; ac mai dirgelwch mwy yw fod y fath enaid wedi ei oddef i gymeryd "gofal eneidiau" pobl eraill!

CERFLUN DR. CHALMERS.

Ar fryn creigiog, rhwng Stirling a'r *Bridge of Allan*, y mae adeilad yn cynnwys cerfluniau o amryw o enwogion yr Alban—math o *Westminster Abbey* i Ysgotland. Uwch ben y fynedfa i'r adeilad y mae cerf-ddelw fawr o Wallace—gwron Ysgotland. Oddifewn y mae *busts*—cerfluniau o'r ddwyfron i fyny, wedi eu gwneyd o farmor, o wyth o brif enwogion y wlad. Dydd Mawrth, Awst yr 8fed, chwanegwyd atynt gerflun o Dr. Chalmers. Rhodd ydoedd gan ei ferch, Mrs. Mackenzie. Cymerwyd rhan yn seremoni y dad-orchuddiad gan Lywyddion Eglwys Sefydledig Ysgotland a'r Eglwys Rydd, a chyn-lywydd yr Eglwys Bresbyteraidd Unedig. Sylwai Dr. Gloag fod sancteiddrwydd ac athrylith wedi eu cyfuno yn Dr. Chalmers. Adwaenai Dr. Chalmers yn dda, a bu iddo lawer o ymwneyd âg ef. Efe oedd ei athraw mewn duwinyddiaeth. Cadwai ddysgyblaeth effeithiol yn ei ddosbarth. Ni fyddai yr un efrydydd yn absennol o'i ddosbarth ef, os byddai yn iach. Rhoddai Dr. Laird ei adgofion o Chalmers fel pregethwr ac areithiwr. Dywedai mai araeth fwyaf hyawdl y ganrif hon oedd yr un a draddododd Chalmers yn Edinburgh ar Ryddfreiniad y Pabyddion. Yr oedd Arglwydd Jeffreys yn ei gwrando; a phan ddywedodd rhywun wrtho ar y diwedd, "Dyna hyawdledd!" atebodd y beirniad enwog—"Hyawdledd? Nid wyf yn credu i unrhyw anerchiad cyhoeddus erioed, mewn amseroedd hen na diweddar, wneyd y fath argraff ag a wnaeth yr araeth yna." Terfynodd ei sylwadau trwy estyn ei law at y cerflun, gan ddyweyd, "Dyna ddarlun ysblenydd o hono."

Y GYNNADLEDD WESLEYAIDD A'R CENADAETHAU.

Penodwyd Pwyllgor yn y Gynnadledd Wesleyaidd i ystyried y cwynion a ddygasid yn erbyn y cenadon Indiaidd o fyw mewn moethusrwydd, ac o fod allan o gydymdeimlad â'r bobl. Dygodd y

Pwyllgor adroddiad lled egwan i mewn, gyda'r amcan yn amlwg i gau y mater i fyny a boddhau y ddwyblaid, y cenadon a'u cyhuddwyr. Ond ni ryfeddem nad yr effaith fydd, fel y mae yn aml gydag iachâd arwynebol, cadw y mater yn agored a pheidio boddhau neb. Sylwedd yr adroddiad oedd (1) Fod y cenadon wedi rhoddi yr ystyr naturiol i'r erthyglau a gynwysent y cwynion; (2) Fod y rhai oedd yn gyfrifol am yr erthyglau yn ymwrthod â'r ystyr a roddwyd iddynt, ac yn gofidio am eu bod wedi achosi poen; (3) Fod y pwyllgor yn cydymdeimlo â'r cenadon, ac yn argyhoeddedig nad oeddynt yn byw mewn moethau, a'u bod yn meithrin cydymdeimlad ymarferol â phob dosbarth o'r boblogaeth. Ond ni awgrymwyd un math o feiad ar Dr. Lunn a'r Parch. H. Price Hughes. Safent hwy at y pethau a gyhoeddasent, ac ail-adroddodd y blaenaf ei gyhuddiadau. Barnwn fod hyn yn anfoddhaol iawn, ac yn anghyfiawnder â'r cenadon. Darfu iddynt hwy fel dynion gonest a gwrol hawlio ymchwiliad trwyadl i'r cyhuddiadau. Yr oeddynt yn eu lle. Dylai y Gynnadledd wneyd y naill beth neu y llall, ac nid ymgais at wneyd y naill a'r llall. Os yw y cyhuddiadau yn wir, dylai chwyldroad gymeryd lle yn y cenadaethau Indiaidd. Os nad ydynt yn wir, dylid dynoethi a chondemnio y rhai a wnaethant y camgyhuddiadau.

Y GYNNADLEDD WESLEYAIDD.

Yr oedd y Gynnadledd hon yn Sheffield yn un bwysig a dyddorol. Daeth iddi o 700 i 800 o weinidogion, a thros 200 o lëygwyr. Y Llywydd oedd y Parch. C. H. Kelly. Traddodwyd y *Fernley Lecture* gan y Parch. Joseph Agar Beet, nos Lun, Awst 12fed. Y testyn oedd "Prawfion Cristionogaeth." Y mae yn hysbys fod y gŵr hwn wedi gwneyd enw mawr iddo ei hun trwy ei esboniadau. Yn ddiweddar, gwnaed ef yn Broffeswr. Dywed un am dano, "pan yn cymeryd rhan mewn ymdriniaeth yn y Gynnadledd nad yw ond efrydydd yn unig; ond pan yr eistedda i lawr i ysgrifenu esboniad ei fod yn feistr." Dywed yr un ysgrifenydd beth mawr iawn am dano (os yw yn gywir)—mai dyna y pryd y mae bob amser yn fwyaf, sef pan y mae yn ymgais at bethau mawr. Dywedir fod y Ddarlith hon mor deilwng o dduwinyddiaeth y Cyfundeb a'r un o'i rhagflaenoriaid. Yr oedd yr amgylchiad hwn yn un dyddorol, ac yn wers i fechgyn ieuainc; gan fod Proffeswr Beet yn cyflawni y gwasanaeth hwn yn y dref lle y ganwyd, y magwyd, ac yr addysgwyd ef.

Symudiad pwysig a dyddorol dros ben yw y Genadaeth neillduol i Orllewin Llundain. Costia, gyda'r canghenau, £10,000 yn y flwyddyn. Tra yr oedd yr hanes am weithrediadau a sefyllfa arianol y Genadaeth hon yn cael ei adrodd yn y Gynnadledd, pan hysbyswyd fod dyled o £350 yn aros ar *Cleveland Hall*, cyffyrddwyd â chalon un gŵr cyfoethog oedd yn bresennol, a dilëodd y ddyled hono yn y fan, gydag addewid am £500 eto at helaethiad ychwanegol.

Un o'r "cwestiynau sydd yn llosgi" yw y cyfyngiad ar dymmor gweinidog i fod yn yr un gylchdaith am ddim mwy na thair blynedd. Y mae y blaid geidwadol yn y Cyfundeb yn edrych gyda pharch ofergoelus ar y gyfundrefn deithiol, ac yn arswydo rhag cyffwrdd â'r trefniadau. Ond y mae yn sicr fod rheol y tair blynedd wedi ei dedfrydu i gilio oddiar ffordd llanw cynnydd a gwelliant. Ceisiodd Proffeswr Slater am Bwyllgor i ystyried y cwestiwn, ond gwrthodwyd. Pasiwyd caniatâd i weinidog gael dychwelyd i gylchdaith yn mhen tair blynedd, yn lle chwech megys y mae yn awr.

Nifer yr ymgeiswyr a dderbyniwyd eleni i gael eu haddysgu at y weinidogaeth oedd 55. Mwy, meddir, na'r anghen. Ordeiniwyd 16 o wŷr ieuainc i waith y weinidogaeth. Y cyn-lywydd sydd bob amser yn traddodi y Cynghor, yr hon yw y weithred swyddogol olaf o flwyddyn ei lywyddiaeth. Mr. Bush oedd yn gwneyd hyn eleni. Dywedir y buasai y Cynghor hwn yn gwneyd llaw-lyfr rhagorol i weinidogion ieuainc.

Nifer yr aelodau yn Mhrydain yw 454,903, yn cynnwys rhai ar brawf. Y mae cynnydd yn rhif y cymunwyr o 5000.

Ni bu dim a gynhyrfodd y Gynnadledd yn ddyfnach, nid yn unig y tro hwn, ond yn y genedlaeth hon, na'r ddadl ar y Cenadaethau Indiaidd y cyfeiriwyd ati yn y paragraph blaenorol. Dywed un oedd yno fod cydwybod a theimlad y frawdoliaeth yn condemnio o ddifrif y *Methodist Times* am yr erthyglau cyhuddol a gyhoeddwyd ynddo. Pan oedd amddiffynydd ieuanc y cenadon Indiaidd, Mr. Geden, yr hwn oedd wedi dyfod oddiwrthynt yn ddiweddar, yn cyfodi i ddadleu eu dadl mewn llais oedd yn crynu gan deimlad ac eiddigedd cyfiawn, cyffrôwyd calon y Gynnadledd, a buasai yn pasio gwelliant llawer iawn cryfach na'r hyn a basiwyd, gyda mwyafrif dirfawr. Ond barna rhai mai gwell oedd yr hyn a wnaed, dan yr holl amgylchiadau. Gallai hyny; anhawdd yw barnu yn bwyllog mewn teimladau cynhyrfus. Ond y mae barn a theimlad yn gwaeddi am gyfiawnder i'r cenadon.

Cofnodau Cymanfaol.

Y GYMANFA GYFFREDINOL, LLANGOLLEN.

Mai 14, 15, a'r 16eg, 1889.

Llywydd:—Y Parchedig G. Parry, D.D., Aberystwyth.
Ysgrifenyddion:—Y Parchn. John Davies, Pandy, ac Evan Jones, Caernarfon.

(*Parhad o tu dal* 311.)

Pedwerydd Eisteddiad y Gymanfa.

Boreu Dydd Iau, Mai 16*eg, am* 9 *o'r gloch.*

XXVI. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen a gweddïo gan y Parchedig John Prichard, Birmingham.

XXVII. Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodau Trydydd Eisteddiad y Gymanfa.

XXVIII. Cytunwyd yn unfrydol, Ein bod fel Cymanfa yn llawenhâu wrth ddeall fod y Parchedig Evan Davies, Trefriw, yn ymgymeryd â dwyn allan Gofiant i'r diweddar Barchedig Joseph Thomas, Carno, ac yn dymuno rhoddi pob cefnogaeth iddo yn yr anturiaeth.

XXIX. Cyflwynodd y Parchedigion Joseph Evans, Abertawe, a T. J. Wheldon, B.A., Adroddiad o Ystadegau y Cyfundeb am y flwyddyn 1888.

Y mae genym yr hyfrydwch mawr eleni eto i gyfleu i'r Gymanfa adroddiad tra chysurus, yn arbenig felly o ran ein derbyniadau arianol, y rhai sydd yn fwy nag mewn un flwyddyn er 1882. Yn y flwyddyn hono yr oedd yr ychwanegiad yn y casgliadau yn eithriadol o uchel, sef dros wyth mil o bunnau, ac fe gyrhaeddodd cyfanswm y derbyniadau i £172,235 14s. Yn y tair blynedd canlynol yr oedd cyfanswm y casgliadau yn bur agos i'w gilydd; ond yn y flwyddyn 1886 syrthiodd i £167,794. Ar sail y lleihâd hwn y sylfaenodd Esgob presennol Llanelwy ei haeriad fod y Cyfundeb yn myned yn ol yn ein gwlad. Ond y llynedd, yr oedd ychwanegiad wedi cymeryd lle o £1250. Ac heddyw yr ydym yn adrodd fod yr ychwanegiad am y flwyddyn ddiweddaf yn cyrhaedd y swm o £6940, yn gwneyd cyfanswm ein casgliadau yn £175,899 6s. 8c.—y swm uchaf a gasglwyd genym erioed. Ac y mae y cynnydd hwn yn rhedeg dros bron bob adran o'n casgliadau, fel yn ddiau nid yw y gair "chwi a aethoch yn ol ac nid ymlaen" yn gymhwys i ni fel Cyfundeb, mor bell ag y mae'r cyfrifon arianol yn myned, ac nid ydyw ychwaith i unrhyw ran arall o'n gwaith. Ac y mae y cynnydd y flwyddyn hon yn uwch mewn cyfartaledd na'r cynnydd am y deng mlynedd diweddaf. Cyfartaledd cynnydd blynyddol yr eglwysi am y deng mlynedd diweddaf yw 9·7, eleni y mae yn 12; cyfartaledd cynnydd capelau a lleoedd pregethu, 10, eleni y mae yn 21; cyfartaledd cynnydd y cymunwyr yw 1594, eleni y mae yn 1717; cyfartaledd cynnydd y gwrandawyr yw 755, eleni y mae yn 2978; cyfartaledd casgliad at y Weinidogaeth yw £967, eleni y mae yn £1555; cyfartaledd cyfanswm y casgliadau yw £786, eleni y mae yn £6940 A dymunem nodi fod haeriad Mr. Byrom Reed, A.S., yn y ddadl yn y Senedd yn ddiweddar, "ei fod yn beth sier ei fod yn achwyniad ymhob cyfarfod o Anghydffurfwyr Cymreig fod lleihâd mewn nifer ac mewn adnoddau," yn hollol ddisail ac anwireddus, mor bell ag y mae a fyno â nyni fel Cyfundeb ac nis gallwn lai na dadgan ein rhyfeddod fod aelod Seneddol yn anturio gwneyd haeriad yn y Senedd sydd mor groes i ffeithiau.

Mae yn bosibl fod yr ychwanegiad parhaus yn nifer ein heglwysi a'n capelau yn peri fod ychydig o leihâd yn nifer yr aelodau eglwysig a'r gwrandawyr yn yr eglwysi cymydogaethol i'r rhai newyddion; ac y mae yn bosibl fod yr achos mewn rhai cymydogaethau yn gwaelu ychydig o herwydd y marwolaethau a'r symudiadau a'r cyfnewidiadau sydd yn cymeryd lle. Ond rhaid i ni wylio rhag tybied oddiwrth yr engreifftiau eithriadol hyn fod yr holl achos yn myned yn ol. Mae ein cyfrifon yn profi i'r gwrthwyneb. Mae y cynnydd blynyddol yn rhif ein heglwysi—ein Capelau, y Cymunwyr, Plant yn yr Eglwys, Ysgolion Sabbothol, Gwrandäwyr, yn profi tu hwnt i bob ammheuaeth ein bod fel Cyfundeb yn ymgryfhau ac yn myned rhagom. Ac y mae cynnydd y casgliadau ymhob adran yn cadarnhau hyn, gan nad ydyw aelodau ffug. yn ol dywediad y diweddar Deon Edwards o Fangor, yn arfer cyfranu arian.

Mae'r cynnydd eleni yn y gwahanol golofnau fel y canlyn:—Eglwysi, 12; Capelau a Lleoedd Pregethu, 21; Tai i Weinidogion, 16; Gweinidogion, 5; Blaenoriaid, 181; Cymunwyr, 1717; Plant yn yr Eglwysi, 452; Ysgolion Sabbothol, 20; Swyddogion yr Ysgol, 99; Deiliaid yr Ysgol, 1325; Gwrandäwyr, 2978. A gwelir oddiwrth yr Adroddiad sydd yn eich dwylaw fod y cynnydd yn yr aelodau wedi cymeryd lle yn yr holl Gyfarfodydd Misol oddigerth pump; ac nid yw y lleihâd yn y rhai hyn ond ychydig; ac y mae y pump yn gylchoedd amaethyddol, o ba rai y mae teuluoedd a phersonau yn symud yn barhaus i ardaloedd gweithfaol.

Mae'r cynnydd yn y casgliadau fel y canlyn:—At y weinidogaeth, £1555 4s. 2c.; at y Cenadaethau, £366 8s.; at y Lleoedd Gweiniaid, £116 14s. 8c.; i'r Tlodion, £157 9s. 4c.; at ddyled y Capelau, £5383 12s.; at yr Ysgol Sabbothol, £137 2s.; at Gymanfäoedd, £429 14s. 7c. Y mae lleihâd o £1031 17s 8c yn y Casgliad at Achosion eraill; ac hefyd £163 15s. 10c. yn yr hyn a dderbynid am eisteddleoedd a thai. Dichon fod hyn i'w briodoli i'r ffaith fod rhai cynnulleidfäoedd yn ymgymeryd â'r drefn o eisteddleoedd rhyddion. Beth bynag, mae y gweddill o ychwanegiad yn £6940 12s. 4c.

Gwelir oddiwrth y dafien fod nifer y Gweinidogion sydd yn dal cysylltiad bugeiliol âg eglwysi yn 423—cryn lawer dros hanner nifer ein gweinidogion: ac y mae dros hanner cymunwyr y Cyfundeb yn yr eglwysi sydd dan eu gofal, tra nad oes hanner yr eglwysi dan eu gofal. Mae yn eglur gan hyny mai'r eglwysi bychain sydd fel rheol heb fugeiliaid; ac y mae hyn, fe ddichon, yn awgrymu y dymunoldeb i eglwysi bychain i ymgysylltu â'u gilydd fel ag i sicrhau arolygiaeth weinidogaethol.

Nid ydyw yr adroddiad am y capelau a ysgwiriwyd yn gyflawn, gan nad oes gyfrif o gwbl o bump o Gyfarfodydd Misol, ac y mae rhai o'r lleill yn anmherffaith iawn.

Anmherffaith hefyd yw y golofn sydd yn dangos nifer y rhai a safasant yr Arholiad Sirol. Beth bynag, mae'r nifer yn cynnyddu. Ac y mae yn ddiau fod yr arholiad hwn o'r pwys mwyaf i'r Ysgolion Sabbothol, fel symbyliad i'r bobl ieuainc i ymgymeryd âg efrydiaeth o'r Ysgrythyrau.

Mae Ystadegau yr Eglwysi Seisonig yn sefyll eleni fel y canlyn :—Eglwysi, 184, cynnydd o 2; Capelau a Lleoedd Pregethu, 198, cynnydd o 3; Cymunwyr, 10,706, cynnydd o 198; Gwrandawyr, 34,0%6, cynnydd o 2367. Heblaw y capelau uchod, y mae 28 o gapelau perthynol i bedwar o Gyfarfodydd Misol yn y Deheudir, ymha rai y cynnelir yr oedfa hwyrol ar y Sabboth yn yr iaith Saesoneg. Casgliad yr Eglwysi Seisonig at y weinidogaeth yw £11,309 8s. 5c., cynnydd o £776 9s. 11c. Cyfanswm eu casgliadau, £26,200 7s. 3c., cynnydd o £88 12s. 1c. Yr hyn sydd mewn modd arbenig yn dangos ffyddlondeb a haelioni yr eglwysi hyn yw cyfartaledd eu casgliadau ar gyfer eu haelodau. Tra nad yw cyfartaledd cyfraniadau pob aelod yn yr holl Gyfundeb at y weinidogaeth ond 11s. 3c., y mae pob aelod yn yr Eglwysi Seisonig yn rhoi ar gyfartaledd £1 1s. 1½c., ac at bob achos £2 8s 11c., tra nad yw pob aelod yn yr holl Gyfundeb yn rhoi yn ol cyfartaledd ond £1 6s. 7c.

Mae'r oll o hyn yn peri fod ein calonau yn llawn diolchgarwch i Ben mawr yr eglwys am ei nawdd trosom, a'i fendith ar ein llafur fel Cyfundeb. Ac yn ddiau ond i ni ddal at y neilluolion oedd yn perthyn i'n tadau ac yn sylfaen i'w llwyddiant, ac y cydymffurfiwn â pha bethau bynag sydd anghenrheidiol yn ol amgylchiadau newyddion ein hoes, y parhawn i fyned rhagom yn y dyfodol fel yn y gorphenol.

Cyfanswm Derbyniadau Arianol y Cyfundeb.—Gwaddoliadau perthynol i'r Cyfarfodydd Misol, £602 8s. 2c ; oddiwrth Gronfa Athrofa y Bala, £1214 14s. 7c.; oddiwrth Gronfa Athrofa Trefecca, £677 6s. 8c.; derbyniwyd gan Drysorydd y Gymanfa Gyffredinol, £148 4s. 3c ; Gwaddoliadau y Genadaeth Dramor, £431 1s. 4c.; symiau eraill, £2017 9s. 11c.; Trysorfa Gweinidogion y Gogledd, £2165 5s. 11c.; Trysorfa Gweinidogion y Dehau, £963 15s. 6c.; cyfanswm Derbyniadau oddiwrth yr Eglwysi, £175,899 6s. 8c.

Cynnygiwyd a chefnogwyd,—1. Fod y Gymanfa yn awdurdodi yr Ysgrifenyddion i roddi yn llaw y Llywydd yn flynyddol, ar eisteddiad cyntaf y Gymanfa, restr o'r gweinidogion a fuont feirw yn ystod y flwyddyn, gan adael arno ef i wneuthur ychydig sylwadau ar y rhestr yn ol a farno yn briodol.—2. Ein bod yn llawenychu wrth ganfod fod nifer y tai i weinidogion *(manses)* yn araf gynnyddu; a'n bod, trwy y Cymdeithasfaoedd, yn dymuno galw sylw y Siroedd at yr achos hwn, gan hyderu y byddai i ymdrafodaeth felly arno achosi cynnydd mwy drachefn yn y dyfodol.

XXX. Penderfynwyd fod yr Adroddiad yn cael ei dderbyn, a diolchgarwch gwrescocaf y Gymanfa yn cael ei roddi i'r Ystadegwyr, gyda dymuniad ar iddynt barhau yn eu swydd am y flwyddyn ddyfodol.

XXXI. Cyflwynwyd Adroddiad Pwyllgor yr Ysgol Sabbothol gan y Parchedig Thomas Levi, Aberystwyth.

Ymgyfarfu y Pwyllgor Lleol lawer gwaith, a'r Pwyllgor Cyffredinol ddwy waith, yn ystod y flwyddyn. O'r materion fu dan ymdriniaeth dymuna y Pwyllgor gyflwyno y pethau canlynol i gymeradwyaeth y Gymanfa:—1. Penderfynwyd, mewn canlyniad i genadwriaethau ynghylch yr *Holiedydd Bach*, gofyn gan y Cyhoeddwr ei werthu am geiniog yr un, a bod yr awdwr i wneyd ryw ychydig o ddiwygiadau yn rhai o'r atebion. Cafwyd gan y Cyhoeddwr, Mr. J. P. Lewis, Merthyr. gyda pharodrwydd, i werthu y llyfr i'r Ysgolion am 8s. y cant, heb dalu y cludiad, neu am 9s. y cant ac i'r Cyhoeddwr dalu y cludiad, ac addawodd yr awdwr wneyd yr hyn a ofynid ganddo erbyn argraffiadau dyfodol.—2 Yn y Gymanfa Gyffredinol ddiweddaf yn Merthyr, cadarnhawyd gwaith y Pwyllgor yn cymeryd i ystyriaeth y dymunoldeb o ddwyn allan argraffiad newydd diwygiedig o'r *Rhodd Mam*. Yn y Pwyllgor Cyffredinol a gyfarfu mis Hydref ddiweddaf, gosodwyd ar yr Ysgrifenydd i ddarparu y llyfr, a phan ddaeth y Pwyllgor ynghyd yn Ebrill, dygwyd y prawfleni o'r argraffiad newydd a anfonwyd i bob un o'r aelodau ger bron; ac ar ol arolygiad pwyllog a manwl, cymeradwywyd ef, a phenderfynwyd, gan nad yw y llyfr yn perthyn yn wreiddiol i'r Undeb, ac er mwyn cymhell cylchrediad helaeth, adael y rhyddid o'i argraffu i'r Cyhoeddwyr yn gyffredinol.—3. Wedi cael atebion aelodau presennol ac absennol y Pwyllgor am y galw sydd am Ail Ran o'r *Hymnau a Thônau*, penderfynwyd gofyn i'r Ysgrifenydd i wneyd yr oll a allai er parotoi defnyddiau Ail Ran erbyn y Pwyllgor Cyffredinol nesaf, a'n bod yn rhoddi awdurdod iddo i fyned i draul heb fod dros £10 gyda'r darpariadau hyn. Penderfynwyd hefyd ein bod yn gadael y mater o ddwyn allan y Rhan Gyntaf yn yr Hen Nodiant hyd nes bydd yr Ail Ran yn barod.—4. Derbyniwyd llythyr oddiwrth y Parch. W. James, Aberdâr, yn hysbysu ei fod ef, ar ei gyfrifoldeb ei hun, wedi gwneyd cytundeb â'r Cyhoeddwr am gyhoeddi y rhanau nesaf o'r *Llawlyfr ar yr Efengylau*, a phenderfynodd y Pwyllgor ddadgan ei lawenydd wrth ddeall, trwy Mr. James, y bydd yr Ail a'r Drydedd Ran yn barod erbyn y Gymanfa Gyffredinol. —5. Derbyniwyd cais oddiwrth Mr. Lloyd, argraffydd y *Llawlyfr ar yr Efengylau*, yn erfyn am estyniad yr amser gyda gwerthiant y Rhan Gyntaf. Wedi rhoddi ystyriaeth i'r amgylchiadau, penderfynwyd estyn dwy flynedd at amser y cytundeb, ar y dealltwriaeth fod y cytundeb i sefyll yn ei holl fanylion eraill.—6. Arwyddwyd cytundeb â Mr. William Jones, Newport, am gyhoeddi y Llyfrau Cyfrifon i'r Ysgolion, y rhai ydynt yn barod bellach er diwedd y flwyddyn ddiweddaf.—7. Penderfynwyd gofyn i Mr. William Jones, Newport, mewn trefn i wneyd y *Gwerslyfrau* yn fuddiol ac effeithiol, i argraffu tafleni o'r Gwersi am 1889—90 i'r tri dosbarth ar wyneb un ddalen, a gofyn gan awduron y *Gwerslyfrau* i barotoi y dafleu idds, a'i fod i'w gwerthu am bris heb fod dros 1s. y cant. Bernir y bydd y trefniad hwn, nid yn unig o fantais bwysig i'r Ysgolion, ond hefyd yn hyrwyddiad i werthiant y *Gwerslyfrau*.—8. Gyda golwg ar y genadwri ddaeth o Arfon, sef, Ai nid yw yr amser wedi dyfod y gellir trefnu Hanesiaeth y Bibl yn faes llafur i'r dosbarthiadau ieuengaf yn y fath fodd ag y gellid dysgwyl i ddeiliaid ein Hysgolion Sabbothol fod yn gydnabyddus â phrif ffeithiau yr hanes erbyn y byddont yn 16 oed? Penderfynwyd nad ydym, ar hyn o bryd, yn gweled ein ffordd yn glir i fabwysiadu y cynllun.—9. Gyda golwg ar y maes llafur am y dyfodol, penderfynwyd ein bod yn sefyll at y nawfed penderfyniad yn Adroddad y Pwyllgor yn y Gymanfa Gyffredinol yn Merthyr, mewn perthynas i'r maes llafur am 1889—90. 10. Fod dau faes llafur, yn lle tri, fel yn bresennol, i gael eu penodi am 1890—91, y naill i rai dan 16 oed, a'r llall i rai dros 16.—11. Fod yr Epistol at yr Hebreaid i fod yn faes llafur i'r dosbarth hynaf; a Llyfr Genesis, o'r dechreu hyd pen xxv., sef Hanes y Patriarchiaid hyd farwolaeth Abraham, i fod yn faes llafur i'r dosbarth ieuengaf.—12. Fod y Parch. Principal Edwards i barotoi Llawlyfr i'r Ys-

golion ar yr Epistol at yr Hebreaid.—13 Fod y Parch. R. Humphreys, Bontnewydd, i barotoi Gwerslyfr ar Genesis hyd farwolaeth Abraham, yr un plyg â'r, ac ar gynllun y Gwerslyfrau presennol, i fod o 16 i 20 o du dalenau, ac i'w gwerthu am geiniog yr un, a'i fod i arfer ei ddoethineb ei hun gyda golwg ar ranau i'w gadael allan.—14. Fod y Pedair Efengyl ac Ysbrydoliaeth y Bibl i fod yn destynau yr Arholiad Cymanfaol am 1890, a bod y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool, i fod yn Arholydd am 1890—91. Yr Arholiad i fod yr wythnos gyntaf yn Mai, a'r cwestiynau i gael eu darparu yn Gymraeg a Saesonaeg.—15. Penderfynwyd gofyn gan yr Arholwyr Cymanfaol i nodi llyfrau *(Text-books)* i'r ymgeiswyr i'w darllen er eu cynnorthwyo i ateb cwestiynau yr Arholiad.—16. Penderfynwyd gofyn gan y Trysorydd i dalu gweddill yr arian dyledus am argraffu y Tystysgrifau, sef £65, a thalu holl dreuliadau y Pwyllgor am y flwyddyn. A chan fod y Pwyllgor trwy hyn wedi myned i ddyled, gofyn gan y Gymanfa i ganiatâu y swm o £30 i gyfarfod â'r galw.—17. Penderfynwyd cyflwyno y mater o gydnabyddiaeth i'r Parch. W. James, Aberdâr am ddarparu y Rhan laf o'r *Llawlyfr o'r Efengylau*, i ystyriaeth Pwyllgor Arianol yr Undeb.—18. Penderfynwyd anfon taer ddymuniad at y gwahanol Gyfarfodydd Misol i annog eu cynnrychiolwyr i fod yn ffyddlon i Bwyllgorau yr Undeb, ac i alw eu sylw at y priodoldeb o dalu treuliadau eu cenadau i'r Pwyllgorau hyn.—T. C. Edwards, *Cadeirydd;* Thomas Levi, *Ysgrifenydd*

Penderfynwyd ein bod yn derbyn yr Adroddiad, gyda'r ychwanegiadau canlynol:—1. Gyda golwg ar benderbyniad 16 yn yr Adroddiad, ein bod yn derbyn cynnygiad y Parchedig T. Levi i ymohebu â'r gwahanol Gyfarfodydd Misol gyda golwg ar gymeryd nifer o'r Tystysgrifau sydd ar law yn hytrach nag ymrwymo i dalu y £30 y gofynid am danynt.—2. Fod y Gymanfa yn dadgan ei chymeradwyaeth o'r gwaith y mae y Parchedig W. James, Aberdar, wedi ei wneyd ar Rhan I. o'r *Llawlyfr ar yr Efengylau*, ac yn dymuno rhoddi iddo bob cefnogaeth i fyned ymlaen gyda'r rhan nesaf.—3. Ein bod fel Cymanfa yn dymuno ar Gyfeisteddfod yr Ysgol Sabbothol gymeryd i'w hystyriaeth pa beth a ellir ei wneyd genyn. tuag at roddi cyfarwyddyd a hyfforddiant i athrawon ac athrawesau ein hysgolion.—4. Fod diolchgarwch gwresocaf y Cymanfa yn cael ei roddi i gyfeillion Aberystwyth am y croesaw y maent wedi ei roddi i'r Pwyllgor hyd yn hyn; a'n bod yn penodi Aberystwyth i fod yn gartref y Pwyllgor am y tair blynedd dyfodol.—5. Fod cyfansoddiad y Pwyllgor yn cael ei adael fel y mae—deg o bersonau o Aberystwyth a'r cylchoedd, yn cael eu dewis gan y Gymanfa, yn bwyllgor lleol, ac un cynnrychiolydd o bob Cyfarfod Misol yn bwyllgor cyffredinol; a dymunir ar i'r Cyfarfodydd Misol ddewis y personau cymhwysaf i'w cynnrychioli, ac edrych ar fod y rhai hyny yn ffyddlawn i gyfarfodydd y Pwyllgor.—6. Fod y personau canlynol i fod yn bwyllgor lleol am y tair blynedd dyfodol:—Parchedigion T. C. Edwards, D.D.; G. Parry, D.D.; T. Levi; Llewelyn Edwards, M.A.; J. Owen, Aberdyfi; J. G. Davies, Aberystwyth; Mri. D. Jenkyn Davies, Thomas Owen, E. Evans, a D. Samuel, M.A.

XXXII. Cyflwynwyd y Parchedig G. D. Matthews, D.D., Llandain, Ysgrifenydd Cyffredinol y *Pan-Presbyterian Alliance*, i'r Gymanfa gan y Parchedig T. J. Wheldon, B.A. Cafwyd anerchiad dyddorol gan Dr. Matthews, yn galw sylw at yr ymgais a wneir i ddwyn y gwahanol Gyfundebau Presbyteraidd drwy y byd i gymundeb agosach â'u gilydd, i sicrhau mwy o gydymdeimlad a chydweithrediad. Pasiwyd, Ein bod yn croesawu Dr. Matthews; a rhoddwyd deheulaw cymdeithas yn serchog iddo gan y Llywydd ar ran y Gymanfa.

XXXIII. Pasiwyd,—Ein bod yn dadgan yn y modd cryfaf ein gobaith y bydd i Lywodraeth Prydain arfer ei dylanwad i sicrhau rhyddid perffaith i Genadon yn Affrica i ddwyn ymlaen eu gweithrediadau, a'n bod yn dymuno ar i'r Parch. Dr. Matthews, fel Ysgrifenydd y *Presbyterian Alliance*, ddwyn y teimlad hwn i sylw y Prifweinidog pan yn myned ato gyda'r Ddirprwyaeth ar yr achos oddiwrth yr Eglwys Henaduriaethol.

XXXIV. Cyflwynwyd Adroddiad Cyfarwyddwyr yr *Assurance Trust* gan y Cadeirydd, Mr. John Williams, Moss Bank. Penderfynwyd, Fod diolchgarwch gwresocaf y Gymanfa yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd yr *Assurance Trust*, ac i'r Ysgrifenydd Mygedol, Mr. W. J. Hughes, am eu gwasanaeth ffyddlawn ac effeithiol, a'n bod yn ethol yr Ysgrifenydd, yn rhinwedd ei swydd, i fod yn aelod o'r Gymanfa.

XXXV. Cyflwynwyd Adroddiad yr Arholiad Cymanfaol gan y Parchedig D. Saunders, D.D., un o'r Arholwyr.

Materion:—Y Pedair Efengyl, y Parchedig G. Parry, D.D.—Hanes yr Athrawiaeth am y Tair Canrif gyntaf, y Parchedig D. Saunders, D.D.—*Pump* oedd nifer yr ymgeiswyr y tro hwn. Pasiodd *pedwar* yr Arholiad. Y tri a ennillasant y gwobrau oedd y rhai canlynol:—Y Fedal *Aur:* Miss Catherine J. Roberts, Rehoboth House, Llanberis,—Y Fedal *Arian:* Mr. John W. Hughes, Rhydlios, Lleyn.—Y Fedal *Bronze:* Mr. John Owen, Anglesea Villa, Llandudno.

XXXVI. Penderfynwyd,—Fod yr Adroddiad yn cael ei fabwysiadu, a bod diolchgarwch y Gymanfa yn cael ei gyflwyno i'r Parchedig G. Parry, D.D., yr hwn sydd eleni yn myned allan o'r swydd, am ei wasanaeth gwerthfawr fel Arholwr.

XXXVII. Penderfynwyd,—Yn ngwyneb yr ystyriaeth mai ychydig o ymgeiswyr a ddaeth ymlaen i Arholiad y Gymanfa, ein bod yn dymuno ar fod yr holl Gyfarfodydd Misol yn rhoddi yr un cyhoeddusrwydd i bynciau yr Arholiad hwn ag a roddir i faterion Arholiad Blynyddol yr Ysgolion Sabbothol yn eu plith, ynghyd a rhoddi annogaeth i aelodau yr Ysgol Sabbothol i sefyll yr arholiad arnynt.

XXXVIII. Cyflwynwyd Adroddiad Pwyllgor yr Achosion Seisonig gan y Parchedig John Thomas, B.A., yr hwn oedd fel y canlyn:—

At a meeting of the English Causes Committee, held in Rehoboth Chapel, L'angollen, on Wednesday, 15th May, 1889, there being present:—Revs. Joseph Evans, T. J. Wheldon, B.A., John Davies, Bontddu; J. Thomas, B.A., John Owen, Aberdovey; Messrs. Peter Roberts, St. Asaph; J. E. Powell, Wrexham; and John Jones, Merthyr.

It was resolved,—1. That the Assembly rejoices to find that the work done in the English field of our Connexion continues to extend the Redeemer's kingdom, by establishing new Causes in populous and important places both in North and South Wales, and that without injuriously affecting any Welsh Church. In North Wales Causes have been recently established in Mold, Adwy'r Clawdd, and Bethesda; and in South Wales in Barry and Merthyr Vale.—2. That the missionary spirit evinced by several of the English Churches themselves in the establishing of Mission Rooms and Ragged Schools in neglected neighbourhoods of their own towns, and in other efforts to reach those in special need of the gospel, is a cause for much satisfaction. The Assembly earnestly commends this work to the prayerful consideration of all our English Churches as one of great importance, and certain to result in increased blessing to themselves.—3. That we again express our regret to find some 20 or 30 of our English Churches without pastors; and believing this to be most prejudicial to their success, we call their attention, through the Quarterly Associations, to the urgent necessity of calling pastors to labour among them. —4. That the Revs. Griffith Parry, D.D, and Ellis Edwards, M.A., who are to examine the Students in Bala and Trevecca Colleges respectively this year, be requested to address the Students on the great importance and necessity of preparing themselves for work in the English field.

Statistics.—Number of Churches, 184; increase, 2. Chapels, 198; increase, 3. Members, 10,796; increase, 199. Hearers, 34,086; increase, 2367. Chapels in which one service is English, 28. Towards the Ministry, £11,309 9s 5d; increase, £776 9s. 11d. Towards all causes, £26,220 7s. 3d.; increase, £88 12s. 1d.

We recommend that the report be received, and the Committee reappointed.—JOHN THOMAS, *Secretary.*

XXXIX. Penderfynwyd fod yr Adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

XL. Cyflwynodd y Parch Joseph Evans Adroddiad yr Arholiad Cymdeithasfaol am y flwyddyn ddiweddaf. Pasiwyd ei fod yn cael ei dderbyn. [Gwel enwau yr ymgeiswyr llwyddiannus, a phynciau yr Arholiad nesaf, yn y DRYSORFA am Ionawr, tu dal. 32.]

XLI. Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor ar Addysg gan y Cynnullydd, y Parch. Griffith Ellis, M.A.

Teimla y Pwyllgor fod yr adeg bresennol yn dra phwysig yn ei pherthynas â chwestiwn Addysg yn Nghymru; ond ofna nad ydyw y cwestiwn er hyny yn cael y sylw dyladwy yn ein plith. Peth diweddar ydyw cael Senedd Prydain i roddi ystyriaeth o gwbl i anghenion y Dywysogaeth ar wahan oddiwrth Loegr; ac wedi unwaith lwyddo i gael hyny, y mae genym y fath nifer o ddiwygiadau yn dal cysylltiad â buddiannau uwchaf ein cenedl ag yr ydym yn awyddus am eu dwyn oddiamgylch fel mai yr ychydig mewn cymhariaeth sydd yn cymeryd ddordeb priodol yn achos Addysg. Ond y mae dwyn i fod gyfundrefn Addysgawl gyflawn ac effeithiol o'r pwys mwyaf i'r genedl yn ei chyfanrwydd. Ac anghyfiawnder fyddai ein cadw i ddysgwyl yn hŵy am dani.

Nid ydym yn rhydd oddiwrth bryder gyda golwg ar addysg Elfenol yn y Dywysogaeth. Y mae genym achos i lawenhau fod hawliau Cymru wedi eu cydnabod yn y *New Code;* ac y mae ein gwlad dan rwymau i'r Gymdeithas (Cymdeithas Defnyddiad yr Iaith Gymraeg) sydd wedi llafurio mor egniol i ddwyn hyn oddiamgylch. Ond y mae gan Gymru resymau neilltuol dros bryderu yn yr olwg ar Adroddiad y mwyafrif o'r Ddirprwyaeth Frenhinol. Y mae yr Ysgolion Eglwysyddol —a gamenwir yn Ysgolion Gwirfoddol—mewn llawer o ardaloedd yn dra niweidiol yn eu dylanwad. Yr hyn sydd yn eisieu ar Gymru ydyw cael Byrddau Ysgol ymhob plwyf; a chael rheolaeth yr Ysgolion yr addysgir y plant ynddynt yn gwbl i ddwylaw y trethdalwyr. Ac os ail agorir y cytundeb y deuwyd iddo yn 1870, nid oes un ammheuaeth na cheir Cymru yn gryf o blaid cyfnewidiadau tra gwahanol i'r rhai y mae bryd y mwyafrif o'r Ddirprwyaeth ddiweddar wedi ei osod arnynt. Yn wir, y mae yr amser wedi dyfod eisoes pan y dylid, ymhob cymydogaeth, lle na byddo ond un Ysgol Elfenol, ei gosod dan reolaeth gyhoeddus.

Teimla y Pwyllgor yn llawen am fod Mr. Stuart Rendel, yr Aelod anrhydeddus dros Sir Drefaldwyn, wedi dwyn i mewn i'r Senedd eleni Fesur Addysg Canolraddol, ac wedi llwyddo i sicrhau ei ail ddarlleniad yn Nhŷ y Cyffredin. Yn sylweddol y mae y Mesur hwn yn un o ran ei ddarpariadau a'r Mesur a ddygwyd i mewn o'r blaen gan Mr. Mundella. Y gwahaniaeth yw fod y Cynghor Sirol yn cymeryd lle Pwyllgor Addysg Sirol; a bod y Bwrdd Addysg i Gymru a Sir Fynwy yn gynnwysedig o dri ar ddeg o aelodau—un yn cael oi ddewis gan bob Cynghor Sirol, yn lle y Bwrdd cynnwysedig o naw o aelodau a gynnygid yn Mesur Mr. Mundella.

Dymunir cyflwyno i'r Gymanfa y penderfyniadau canlynol gyda golwg ar y Mesur hwn, a chyda golwg ar anghenion Addysgawl Cymru:—1. That this Assembly desires to thank the Government for their acceptance of the second reading of Mr. Rendel's Intermediate Education Bill for Wales, and for the expression of their wish that a measure should pass this Session; and the Assembly earnestly urges upon the consideration of the Government the fact that a delay of one year in the passing of a bill really entails the lost of Intermediate Education upon the whole generation of boys and girls.—2. That this Assembly desires to record its firm opinion that sufficient evidence for the purpose of a Welsh Intermediate Education Bill is already collected in the Blue-Books of the Departmental Committee, and that a Select Committee could procure some new evidence of importance.—3. That, with reference to Sir W. Hart Dyke's criticism, the Assembly begs to point out,—(1) That the administration of the Endowed School Commissioners, notwithstanding the important benefits secured by them, has not attracted the regard and confidence of the majority of the people of Wales. (2) That very strong convictions of the preferableness of a National Board were expressed in Wales when Mr. Mundella's Bill appeared, and that the substitution of a National Board in his second Bill was made in deference to that feeling. (3) That the powers of the Endowed Schools Commissioners are insufficient to enable them to supply the needs of Wales. (4) That the Endowed Schools Commissioners

have not been shewn to possess any special knowledge of Wales, but are Englishmen, living at a distance, who would have to conduct expensive enquiries to ascertain facts which can be better collected by and are better known to residents of the country. The Assembly considers that the administrative Board of Education for Wales should be made up of men in full sympathy with the majority of the inhabitants, and fully acquainted with the conditions and needs of the country. (5) That two-thirds of the Episcopal clergy who gave evidence before the Departmental Committee were themselves in favour of the diversion of small doles to educational uses.—4. That the Assembly is firmly of opinion, (1) That a clause should be inserted in the Bill providing that other persons, chosen specially for their relation to Education, should be added to the County Councils for educational purposes. (2) That the grouping of the educational authorities of the County Councils should be made compulsory for the purpose of dealing with endowments used in one county, but intended for more than one; and that areas not limited by counties should, if thought best, be chosen as school districts for the application of school schemes. (3) That the National Board should be made permanent, and that it would be desirable that a number of its members should go out by rotation, but be open to re-election. (4) That not only the formation of school schemes, but the continued supervision of schools, should, without prejudice to the due office of a governing body, be vested in the educational authorities of the County Councils, and that those authorities should be permanently in office. (5) That the management of the Ashford, Meyrick, Howell and Bevan Trusts, and Christ College, and Cowbridge School, should be included in any Intermediate Education Bill for Wales. (6) That the conditions under which Government grants given to Intermediate Schools shall be decided under the supervision of the Welsh National Board.—5. That the Assembly strongly supports Mr. S. Smith's Continuation Schools Bill, and regards it as of primary importance to the Education of the country.—6. That an educational system will not be complete until a University for Wales has been established, which shall be thoroughly national in its character, and that the time has now come when such an institution should be granted to us by the Government.—7. That copies of these resolutions be sent to the Marquis of Salisbury, Lord Cranbrook, Syr W. Hart-Dyke, Mr. W. H. Smith, Mr. Gladstone, Mr. Mundella, Lord Spencer, Lord R. Churchill, Mr. Parnell, Lord Hartington, Mr. Chamberlain, and all the Welsh Members of Parliament.

Ond tra yn edrych at y Senedd am y pethau hyn, diau fod anghen am greu yn ein mysg fwy o syched am addysg nag y sydd. Dylai rhieni ymdrechu defnyddio i fesur helaethach y cyfleusderau sydd eisoes yn eu cyrhaedd, ac aberthu hefyd, pan y byddo raid, er rhoddi i'w plant yr oreu a fyddo yn bosibl. A da fyddai fod y safon yn cael ei chodi yn syniadau y rhai sydd, yn Ysgolion Cymru, yn ymbarotoi ar gyfer bod yn athrawon; ac na byddont yn ymfoddloni ar ddim ond y goreu sydd gyrhaeddadwy iddynt. Nis gall unrhyw gyfleusderau ychwanegol fod o werth i ieuenctyd ein gwlad heb ymroddiad a phenderfyniad ynddynt hwythau yn y defnyddiad o honynt. A da fyddai i'n gweinidogion oll ystyried eu dyledswydd i ymdrechu cynnyrchu y pethau hyn yn eu gwahanol ardaloedd.—Griffith Ellis, *Cynnullydd.*

Penderfynwyd fod yr Adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo.

XLII. Penderfynwyd,—Fod y personau canlynol yn cael eu hethol i fod yn Bwyllgor Addysg am y flwyddyn ddyfodol:—Y Parchn. Principal Edwards, D.D., Ellis Edwards, M.A., T. J. Wheldon, B.A., W. James, Aberdâr; Proffeswr Henry Jones, M.A., Bangor, Mr. Roger W. Jones, B.A., Gelligaer; Proffeswr Powel, Caerdydd; Mr. R. A. Jones, B.A., Liverpool; Parch. Aaron Davies, Pontlottyn; a'r Parch. G. Ellis, M.A., Bootle, cynnullydd.

Terfynwyd gan y Parch. W. James, M.A., Nantymoel.

Pummed Eisteddiad y Gymanfa.

Prydnawn Iau, Mai 16eg, am 2 o'r gloch.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch Evan Morris, Aberaeron.

XLIII. Darllenwyd Cofnodau Pedwerydd Eisteddiad y Gymanfa, a chadarnhäwyd hwynt.

XLIV. Cyflwynwyd Adroddiad Pwyllgor y Rheolau Sefydlog.

XLV. Mewn perthynas i genadwri o Gymdeithasfa y Gogledd:—1. Pasiwyd,—Fod y mater o barth i gael *Llyfr Tonau Cynnulleidfaol* i'r Cyfundeb i gael ei gyflwyno i Bwyllgor y Llyfrau.—2. Fod cael argraffiad newydd o Feddiannau y Cyfundeb yn cael ei ohirio.

XLVI. Gwnaed hysbysiad gan y Parch. T. Levi, Fod Cyfeisteddfod y Fibl Gymdeithas wedi penderfynu dwyn allan argraffiad rhad o Destament Dwyieithawg Saesoneg a Chymraeg.

XLVII. Cyflwynodd y Parch. W. James, Aberdâr, Adroddiad Pwyllgor unol o'r De a'r Gogledd ar Reol VI. o'r Rheolau ar Dderbyniad i'r Weinidogaeth. Cynnygiwyd ac eiliwyd,—Fod yr Adroddiad, yr hwn sydd fel y canlyn, i'w ddanfon i'r Cymdeithasfaoedd:—

Rheolau Derbyniad i'r Weinidogaeth.

V. Nad oes un pregethwr ar dir ag y gall y Cyfarfod Misol ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa i'w ordeinio i'r holl waith, oddieithr ei fod cyn hyny wedi bod yn pregethu am bum' mlynedd o leiaf, o adeg ei arholiad yn y Cyfarfod Misol, ac wedi myned yn llwyddiannus trwy yr Arholiad Cymdeithasfaol, yn gystal a'i fod wedi rhoddi prawf boddlonol o'i ffyddlondeb, ei ddifrifwch, a'i ddoniau addas i Waith yr Arglwydd.

VI Os bydd pregethwr mewn cysylltiad bugeiliol âg eglwys, ac yn arfer pregethu yno un Sabboth yn y mis o leiaf, gall y Cyfarfod Misol ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa os bydd tair rhan o bedair o eglwysi ei Ddosbarth wedi ei ddewis i'w ordeinio.

VII. Os na fydd pregethwr wedi ei ddewis yn fugail ar eglwys, rhaid iddo gael dwy ran o dair o bleidleisiau eglwysi ei Gyfarfod Misol cyn y gellir ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa i'w ordeinio.

VIII. Nad oes enw un ymgeisydd i'w osod ar y cylchlythyr a anfonir i'r eglwysi i ofyn am eu pleidleisiau.

XLVIII. Derbyniwyd Adroddiad Pwyllgor y Dirprwyaethau. Pasiwyd fod yr

Adroddiad, yr hwn sydd fel y canlyn, yn cael ei ddeu byn:—

Cyflwynwyd yr Adroddiad canlynol i'r Gymanfa:—Fod y Parchedigion Griffith Ellis, M.A., Bootle; John Thomas, B.A., Liverpool; Mri. J. Herbert Lewis, M.A., a J. Harrison Jones, i'n cynnrychioli yn *Synod* Eglwys Henaduriaethol Lloegr a gynnelir yn Liverpool, ddechreu yr haf nesaf.

XLIX. *Pwyllgor y Cenadwriaethau.*—Cyflwynwyd yr hyn a ganlyn i'r Gymanfa, Ein bod fel Pwyllgor yn dymuno ar y Parchedigion T. Levi a Dr. T. C. Edwards i alw sylw y Gymanfa at ein dull o dderbyn aelodau eglwysig.—Ein bod yn dymuno galw sylw y Cymdeithasfaoedd at y dull o dderbyn aelodau i'r eglwysi, ac awgrymir y priodoldeb o fod swyddogion eglwysig yn arfer eu doethineb gyda hyn, a'u bod hwy yn ymddyddan âg ymgeiswyr, ac adrodd i'r eglwys yr hyn a gawsant ganddynt wrth gynnyg eu derbyniad, yn hytrach na'u holi o flaen yr holl eglwys, a thrwy hyny beri i lawer o rai gwylaidd gadw draw oddiwrthynt.

L. *Ymweliad y Parch. T. C. Edwards, D.D., â'r America.*—Penderfynwyd yn unfrydol,—Fod *credentials* i gael eu rhoddi i Dr. T. C. Edwards, yr hwn sydd yn bwriadu talu ymweliad âg America yn ystod yr haf hwn, a'i fod yn ein cynnrychioli ni fel Cyfundeb yn y wlad hono.

LI. Pasiwyd yn unfrydol fod diolchgarwch gwresog y Gymanfa yn cael ei gyflwyno i gyfeillion Llangollen am eu trefniadau ar gyfer y Gymanfa, ac yn neilldnol am y caredigrwydd a ddangosent i aelodau y Gymanfa yn ystod eu harosiad yn eu tref.

LII. Darllenwyd cofnodau pummed Eisteddiad y Gymanfa, a chadarnhäwyd hwynt.

Terfynwyd yr Eisteddiad trwy weddi gan y Parch. Dr. T. C. Edwards.

GRIFFITH PARRY, *Llywydd.*
JOHN DAVIES, }
EVAN JONES, } *Ysgrifenyddion.*

Nos Fercher am 7 o'r gloch, cynnaliwyd Cyfarfod Cenadol mewn cysylltiad â'r Gymanfa yn nghapel Rehoboth. Llywyddwyd gan G. W. Taylor, Ysw., U.H. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan y Parchedigion T. C. Edwards, D.D., D. Saunders, D.D., T. Hughes, Kenchester, G. Ellis, M.A., O. Thomas, D.D., T. Levi, Dr. Griffiths, John Jones, Jiwai, y Cenadon, yr Ysgrifenydd, &c. Pasiwyd Penderfyniadau XIII. 6, I. II. III. yn y cyfarfod hwn gyda brwdfrydedd mawr.

Nos Iau, yn Nghapel Rehoboth, am 7 o'r gloch, traddodwyd pregeth Ddirwestol gan y Parchedig Thomas Levi.

Bywgraffiaeth.

SARAH HOPKINS, GORSLAS, PONTARDULAIS.

Gan y Parch. JAMES MORRIS, *Llansawel*

BLIN genym ddyweyd fod y chwaer anwyl uchod yn y bedd. Os bu gwraig erioed yn haeddu gair am dani yn y DRYSORFA, yr oedd Mrs. Hopkins yn haeddu hyn. Yr oedd yn gymeriad neilldnol—yn un ar ei phen ei hun. Pan yn dyfod i gyffyrddiad â hi, yr oeddym yn teimlo ar unwaith ein bod yn dyfod i gyffyrddiad â character gwreiddiol—un yn meddu rhywbeth nad yw gan bawb. Y mae yn iechyd i ddyfod ar draws pobl felly. Ar ol teithio milldiroedd o wastadedd Lloegr, mor ddymunol yw dyfod ar draws bryniau a mynyddoedd Cymru! Y mae gweled y mynydd uchel yn ymgodi uwchlaw y gwastadedd yn fwynhad nid bychan i'r teithiwr meddylgar. Felly ambell i gymeriad gwreiddiol. Wedi edrych nes llwyr flino ar y bobl *debyg*—y bobl *level*, fel eu gelwir—mor ddymunol yw gweled ambell i gymeriad gwreiddiol! Pâr y cyfryw gymeriadau i ni feddwl tipyn, a chodi ein golygon i fyny, yn lle bod â'n hedrychiad i lawr byth a hefyd. Oni b'ai am ambell i gymeriad hynod, wn I beth wnai hanner y byd am destynau i siarad arnynt. Y mae un o'r cyfryw gymeriadau yn medru cadw hanner cymydogaeth i siarad am dano. Trueni fod hen gymeriadau gwreiddiol yn prinhau yn ein gwlad. Yr unig ddrwg sydd mewn addysg yw ei fod yn tueddu i *lefelu* pobl—gwneyd pawb yn debyg i'w gilydd. Ond gobeithio y cwyd pobl eto all gadw eu hynodrwydd er gwaethaf dysg a gwareiddiad. Gellir cyfrif Mrs. Hopkins yn un o'r cymeriadau uchod. Yr oedd yn berchen y peth hwnw sydd yn cyfansoddi cymeriad gwreiddiol. Nis gallai neb siarad â hi am ddeng mynyd heb deimlo ei fod yn siarad â rhywun *neilldnol*—un oedd yn meddu dull ar ei phen ei hun o feddwl a gweithredu. Nid oedd hi yn efelychu neb, ond yr oedd llawer iawn yn ceisio ei hefelychu hi. Hyd yn nôd pan yn tori cae o wair, nid aeth hi erioed i ben y clawdd i edrych sut yr oedd y cymydogion yn gwneyd; ond gwelais ddegau yn ei gwylio hi; ac wedi i'w chae hi gael ei dori, byddai holl gaeau y gymydogaeth yn fuan ar lawr.

Yr oedd yn ferch i Evan Roberts, Llandremorfawr. Bu farw ei mam pan ydoedd hi yn ieuanc iawn, a syrthiodd gofal y fferm fwyaf yn y plwyf arni cyn ei bod yn 18 oed. Pan oddeutu 28 oed ymbriododdâg un David Hopkins, Brynrhos, gerllaw Abertawe; a darfu iddynt ymsefydlu yn ffermdŷ Gorslas, lle y buont yn byw am oddeutu 40 mlynedd. Cawsant ddau o blant, un o ba rai sydd yn fyw, sef Mrs. Sarah Thomas, St. Thomas, Abertawe. Ymunodd gwrthddrych ein hysgrif â chrefydd yn foreu iawn, yn nghapel y Gopa. Y mae y Gopa yn enwog iawn mewn cysylltiad â Methodistiaeth yn y parthau

hyn. Yma y cafodd hi grefydd, yma y bu fyw, ac yn mynwent y Gopa y gorwedd ei gweddillion. Anhawdd genym synied am y Gopa heb feddwl am Mrs. Hopkins. Yr oedd i ni yn rhan o'r adeilad. Eisteddai wrth golofn ganol y *gallery*, a gellid ei hystyried hithau fel un o golofnau yr achos. Nid äi dim o bwys ymlaen yn y Gopa am 40 mlynedd heb fod yna lawer yn gofyn, heb yn wybod iddynt eu hunain, "Beth yw barn Mrs. Hopkins ar y pwnc?"

Am ei rhagoriaethau gellid enwi,

1. Ei hollol amddifadrwydd o bob twyll a rhagrith. Os byddai ganddi gŵyn neu gyhuddiad yn erbyn rhywun, hi a ddywedai yn onest wrtho, digied neu beidio—nid oedd hi yn gofalu dim am hyny. Yr oedd yn cario delw ei dyn oddimewn megys yn ei gwyneb. Ni ofalai hi am na gwreng na boneddig, cyfoethog na thlawd, pregethwr na blaenor: os byddai iddo droseddu, o'ai wybod ei fai ganddi hi mewn dull a barai iddo gofio am hyny yn ol llaw.

2. Ei gwybodaeth eang. Yr oedd yn un o'r gwragedd mwyaf darllengar y gwyddom ni am dani. Llyfrau hanesiol oedd ei phrif lyfrau. Gellid dyweyd, heb arfer un gormodiaeth, ei bod wedi llwyr fwyta y llyfrau canlynol, sef Hanes Methodistiaeth, gan John Hughes, Hanes Prydain Fawr, hanes bywyd y Tywysog Albert, hanes bywydau hen bregethwyr Cymru, sef Thomas ac Ebenezer Richards, John Elias a Morgan Howells, yn ogystal a hanes bywyd John Jones, Talysarn. Yr ysgrifenydd gafodd y fraint o roddi benthyg yr olaf iddi, a darllenodd ef dair gwaith drosodd; ac yr oedd ar ben ei bysedd. Yr oedd yn berffaith gyfarwydd drachefn yn yr Hen Destament. Gwelir oddiwrth y llyfrau uchod mai hanesyddiaeth oedd ei phrif faes, er nad oedd yn ol i un wraig yn yr ardaloedd am athrawiaethau crefydd.

3. Ei gallu i symud gyda'r oes. Y mae y gras hwn yn brin iawn yn hanes llawer o hen bobl. Braidd na ddywedem mai dyma bechod parod yr hen bobl—methu symud gyda'r oes. Ond meddai hi y gallu prin hwn. Symudiadau newyddion yr achos, os o duedd dda a buddiol, caent y rhan fynychaf holl ddylanwad Mrs. Hopkins o'u plaid. Pan yr aeth cangen Libanus allan o'r Gopa, yn y flwyddyn 1868, gwnaeth hi ei goreu drosti, a hyny pan yr oedd amryw o ddynion goreu yr achos yn erbyn. Rhagwelai hi achos cryf yn Libanus, ac felly y mae. Bu wedi hyny, ymhlith un neu ddau eraill, yn gwaeddi am gael capel yn nghanol y boblogaeth, ac o'r diwedd adeiladwyd Hermon; a buasai wedi ei godi bum' mlynedd yn gynt pe cawsai hi ei ffordd. Yr oedd yr un rhyddfrydigrwydd yn ei meddiannu gyda gwleidyddiaeth. Yr oedd yn *advanced Liberal*. Difyr genym oedd ei gweled, yn hen wraig 71 oed, yn nghanol y *crowd* yn gwrando yn ddyfal ar bob gair a ddyferai dros wefusau Mr. Yeo, yn amser etholiad 1885. Yr oedd ei henaid mawr yn llawn o *fyn'd*. Mewn gwirionedd, nid oedd y byd ddim yn myned hanner digon cyflym wrth ei bodd.

4. Ei threfnusrwydd gyda phob peth. Yr oedd yn cyflawni yr adnod i'r llythyren: "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn." Yr oedd ei thŷ yn drefnus, ei gardd yn drefnus, a'i fferm yn drefnus. Cofus genym am dani un tro yn glanhau rhyw gornel o'r ardd—cornel nad oedd neb yn debyg o'i gweled ond y teulu. Ac wrth ei gweled mor ofalus, gofynasom iddi, "Wel, *dear me*, beth yw eich helynt a'ch gofal ynghylch y gornel hon? Yr wyf yn siŵr na wêl neb o honi ar ol trafferthu ei glanhau." Edrychodd yn ein gwyneb, a dywedodd mewn tôn barodd i mi gywilyddio, "Dwyf fi ddim yn glanhau er mwyn i bobl eraill gael golwg ar y glanweith-dra, ond er mwyn i mi fy *hun* gael y pleser o edrych arno." Bu yn dda genyf gael dystawr wydd: teimlais yr atebiad i waelod fy enaid. Felly yr oedd hi—yr oedd yn caru glendid a threfn er eu mwyn eu hunain. Yn y capel, yr un modd, yr oedd yn fyw i drefn a gweddeidd-dra. Yr oedd yn blino yn fawr os byddai i gyfarfod gweddi cenadol nos Luu cyntaf yn y mis gael ei gadw heb fod pob un oedd yn cymeryd rhan ynddo yn meddwl ymlaen llaw am bennod gyfaddas ac emyn gyfaddas i'w ganu, a throi cwrs y weddi at y pwnc hwnw. Cofus genym un tro ei bod hi a hen frawd arall yn cydfyned i'r cwrdd gweddi nos Luu cyntaf yn y mis, a ninnau gyda hwy; a baich y siarad oedd y pwnc cenadol, ac mor ddifeddwl oedd y bobl yn eu dewisiad o bennodau ac emynau yn y cwrdd. Ond cyn hir fe awd i'r cwrdd, a dyma frawd ieuanc, yr hwn oedd yn meddwl cryn lawer o hono ei hun, yn rhoddi emyn i ganu, yn hollol ddifeddwl o amcan y cwrdd, ac yn darllen yn feistrolgar Rhuf. xv., canu drachefn, a gweddio yn ddoniol, ond dim son am y Genadaeth. Wedi iddo ddybenu, gwelwn yr hen frawd yn troi cil ei lygad yn awgrymiadol iawn at Mrs. Hopkins. Dyma yr ail yn dyfod—gofyn pobpeth ond am lwyddiant y Genadaeth. Y trydydd yn dyfod, ond yn cofio dim am amcan y cwrdd. Ond yn bedwerydd dyma yr hen frawd ar ei draed, yn glanhau ei wydrau, ac yn rhoddi yr hen bennill hwnw i'w ganu, "Dros y bryniau tywyll, niwlog," &c. Wrth ei ganu, gwelwn y tri brawd cyntaf yn edrych ar y llawr ac ar eu gilydd yn llechwraidd. Ond er synodod i bawb, dyma yr hen frawd yn agor y Bibi ac yn darllen Esaiah lx. Ni fu y fath ddystawrwydd mewn cyfarfod erioed. Wedi darllen, dyma ganu drachefn, "Marchog, Iesu, yn llwyddiannus," &c. Ond ni chaiodd y tri fu ar weddi ddim, na chodi ychwaith ar eu traed; a chlywais un o honynt yn dyweyd drannoeth ei fod yn chwys dyferol, ac yn dymuno cael myned i rywle o olwg dynion. "A dyna oedd yn fy llladd yn fwy na dim," meddai, "fod Mrs. Hopkins yn gwel'd a chlywed y cwbl. Nis gallaf ei gwynebu am flwyddyn." Yr wyf yn siŵr i'r tri brawd hyny gael gwers y noson hono a lyna wrthynt hyd eu bedd. A gellir dyweyd ychwaneg—i'r tro hwnw fod yn wers i bawb yn y capel o hyny allan. Go-

falai pawb am emyn a phennod gyfaddas yn y cwrdd gweddi mwy. Ac nid oedd neb yn fwy llawen o lwyddiant *experiment* yr hen frawd na Mrs. Hopkins.

Rhaid i ni ymattal yn awr. Bu farw fel y bu fyw, yn hollol ddirodres. Yr oedd wedi codi un boreu Sul, fel arferol, yn foreu iawn, sef y 26ain o Fedi, 1886, gan feddwl myned i'r Gopa i'r cwrdd, fel y bu yn arfer myned am dros 60 mlynedd. Ond eisteddodd ar y gadair, dododd un glun ar y llall, a'i dwylaw yn mhlêth, ac ehedodd ei henaid at Dduw, yn 72 oed. Cafodd angladd tywysogaidd. Gweinyddwyd ynddo gan y Parchn. Lewis Price, Llanelli, W. E. Prydderch, Gopa, a'r ysgrifenydd. Cysged yn dawel; y mae genym barch i'w llwch. Llawer o ysgrifenu sydd y dyddiau hyn ar y *books which influenced me*. Pe b'ai i ni byth ysgrifenu ar *the women who influenced me, y very* blaenaf fyddai Mrs. Hopkins a fy mam.

Lloffion.

GBIRIAU Y DOETHION.

Saif mawredd ar fin dibyn, ac os caria llwyddiant ddyn ond ychydig allan o'i fantoliad, y mae yn ei daflu drosodd ac yn ei ddryllio yn chwilfriw.

Y mae hanner y gofidiau yr ydym yn eu trysori yn ein calonau yn ofidiau am ein bod yn eu trysori.

Pan y mae dyn gwan neu anghywir yn ceisio bod yn bob peth i bawb, y mae yn diweddu mewn bod yn ddim i neb.

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

LLYTHYR ODDIWRTH MR. LE GROIGNEC.

Diau mai da fydd gan ein darllenwyr weled y llythyr a ganlyn oddiwrth Mr. Groignec, wedi ei gyfieithu gan Mr. Evan Jones, Pont l'Abbé:—

Douarnenez,
Gorphenaf 29, 1889.

Y mae Mr. Moizant a Mr. Dréau, Biblgludwyr, newydd orphen tair wythnos o lafur yn Douarnenez a'r cylchoedd, o'r 24ain o Mehefin hyd yr 16eg o Gorphenaf. Bum yn gydymaith i'r ddau gydlafurwr rhagorol hyn drwy ystod eu harosiad yn y dref hon, a gwnaethom yr oll a fedrem er darbwyllo y bobl i dderbyn Gair Duw a chydnabod ei hawliau. Aethom yn fanwl o dŷ i dŷ drwy y plwyfi canlynol:—Douarnenez, Treboule, Poullan, Pouldergat, Pouldavid, Plouaré Le Juch, a Kerlas. Darfu i ni gynnal cyfarfodydd yn yr awyr agored yn yr ystrydoedd a'r lleoedd mwyaf cyhoeddus. Amgylchynwyd ni amryw weithiau gan dros gant o wrandawyr yn cael eu haddysgu gan wrthddadleuwyr anwybodus o gynnwys y gyfrol sanctaidd—y rhai a ddywedent nad yw y Bibl yn siarad am y Forwyn Fendigaid, nad yw y Protestaniaid yn cael eu bedyddio, &c. Yn hytrach na niweidio ein gwaith o efengyleiddio, rhoddodd y gwrthddadleuwyr fantais i ni i egluro yr hyn a ddysgir i ni yn Ngair Duw am Fedydd, am y Forwyn, am y seintiau, am y gweddïau costfawr a offrymir gan y Babaeth dros y meirw, &c. Dywedaf ychydig am bob un o'r cymydogaethau yr ymwelsom â hwynt, a rhydd hyny fantais i chwi farnu syniadau y trigolion am yr efengyl.

Pouldavid.—Yn y plwyf hwn y cychwynasom. Amgylchynwyd ni bedair gwaith yn y pentref hwn gan dyrfa fur liosog, yn neilldiol tua hanner awr wedi chwech yn yr nwyr, pryd yr oedd dros ddau cant o wrandawyr o'n hamgylch. Cawsom fel gwrthddadleuwr ddyn pur ddeallus, ond un a gredai yn gryf yn ein Harglwyddes o Lourdes (Notre Dame de Lourdes). Dywedai ei fod yn bwriadu myned ar bererindod i Lourdes yn fuan. Rhoddasom ar ddeall iddo ef a'r dyrfa a'n cylchynai fod Duw yn Dad i ni, ei fod yn bresennol yn mhob man, a'i fod yn ein caru. Dywedasom wrthynt fod yr Efengyl yn ein dysgu i gyfeirio ein gweddïau at Dduw yn unig, ac fod y rhai na wnant hyny yn ei sarhâu yn ddirfawr, ac yn anufuddhau i'w orchymyn. Dywedasom ymhellach fod gan y ddelw a welir yn Lourdes lygaid, ond heb allu gweled; fod ganddi glustiau, ond na fedr glywed; a dwylaw, ond heb fedr i amddiffyn a gwaredu. O'r diwedd cawsom nad oedd i ni wrthddadleuwr, ond fod mwyafrif y gwrandawyr yn cymeradwyo yr hyn a ddywedem. Y mae preswylwyr Pouldavid yn gymhariaethol ffafriol, ond clywais un wraig yn pentref yn bygwth trywanu ei gŵr â chyllell, os prynai Destament Newydd.

Treboule.—Cyfarfuasom âg amryw yn bur ffafriol wrth fyned oddiamgylch y pentref hwn, ond nid yn y pentref. Ar ol ymddyddan maith â goruchwyliwr etifeddiaeth fawr yn ymyl y lle, amlygodd ei awydd am feddiannu copi o'r Testament Newydd. Yr ydoedd yn barod wedi darllen un a fenthyciwyd ganddo. Gan nad oedd ganddo arian o'i gylch i brynu un, dymunodd ar rywun roddi benthyg y swm iddo. Ceisiodd amryw oedd yno ei ddychrynu drwy ddyweyd wrtho na chaniatâi yr offeiriaid iddo gymuno, na chleddid mo hono gan yr offeiriad, ynghyd a bygythion eraill. O'r diwedd rhoddwyd iddo y swm anghenrheidiol i brynu y llyfr, gan un a feddiannai gopi yn barod. Cyfarfyddasom â chynnulliadau o wragedd, y rhai ar ol eiu holi yn hir o barth i'r hyn a ddysgid yn Ngair Duw, a gofyn i ni y rheswm paham y

gwaharddai yr offeiriaid gyda bygythion ei ddarllen, a gymeradwyasant yn uchel yr hyn a lefarasom wrthynt, ac a dystiasant mai gwir oeddem yn ei ddyweyd. Yn y pentref daethom i gyfarfyddiad â rhai a feddiennid mewn gwirionedd gan ysbrydion aflan. Adroddaf ffaith a rydd i chwi syniad am gynddaredd rhai o'r penboethiaid hyn. Yr oeddem yn ymddyddan am yr Efengyl o'r tu allan â thair neu bedair o ferched ieuainc oedd yn gweithio mewn tŷ. Yr oedd y ffenestr yn agored. Yr oedd gwraig a'n hadnabyddai yn ffenestr y llofft uwch ein pen. Gofynodd i'r merched a oedd ganddynt ddwfr berwedig neu fudr-eddi. Yna cymerodd yn ei llaw ddarn o bren tua llathen o hyd, ac o drwch braich. Pan welodd nad oeddem yn cymeryd ein dychrynu i ffoi gan ei bygythion, a'r pastwn a ysgydwâi uwch ein penau, dechreuodd ein difrïo â phob math o enwau drwg, gan ein galw hyd yn nod yn lladron. Y mae yma dystion, meddwn wrthi; cymerwch ofal rhag i mi eich gwysio o flaen y barnwr i roddi cyfrif am eich geiriau. Tawelodd hyny ychydig arni, ac ychwanegodd mai lladron crefydd a feddyliai. "Wrth weled eich traha, a'ch gelyniaeth tuag at Air Duw," meddwn wrthi, "credaf eich bod yn perthyn i'r gymdeithas a elwir wrth yr enw *Mamau Cristionogol*, a'r ysbryd drwg sydd yn gwneyd aelodau eich cymdeithas mor llawn o felldith a dig." Tra yr oeddwn yn ceryddu y fam yr oedd y merched ieuainc yn gwneyd pob math o ystumiau anfoesgar. Pysgotwyr oeddent yno yn dystion o'r fath olygfa a alwasant y *fam Gristionogol* (?) hon a *merched Mair* wrth yr enwau iselaf.

Y mae y ddwy gymdeithas hon, sydd yn ffurfio *police* dirgelaidd yr offeiriaid, yn sicr o sythio o dan hergwd dirmyg y cyhoedd, fel y gwnaeth y Chwil-lys o gyfryw ysbryd. Wrth fyned heibio i dŷ yr offeiriaid, aethom i fewn er mwyn ymweled â hwynt, oblegid yr oedd rhywun wedi dyweyd wrthyf fod y *vicaire* yn awyddus am gael ymddyddan â mi. Pan yn myned i fewn gwelsom ef yn rhodio yn ei ardd. Yr ymadrodd cyntaf a lefarodd ydoedd—"Yr ydych yn dyfod yma i'm sarhau." Anmhosibl ydoedd cael ymddyddan âg ef am grefydd. Yr oedd mewn tymher mor ddrwg, fel y deuai ewyn allan o'i enau. Er mwyn ceisio ei dawelu, dywedais wrtho, os dewisai dalu ymweliad â mi yn fy nhŷ, y cawsai ddderbyniad siriol genyf. "Cawswn," meddai, "oblegid yr ydych yn gyfeiliornus." "Yna," meddwn wrtho, "yn ol eich syniad chwi, y mae y rhai cyfeiliornus yn derbyn gyda chroesaw y rhai a ymwelant â hwy, tra y mae y rhai sydd yn y gwirionedd yn eu derbyn yn anghroesawus." "Yr oedd Iesu Grist weithiau yn myned i dymher ddrwg," meddai. Ceisiai gyfiawnhau yr ewyn a ddeuai o'i enau wrth lefaru felly. "Do," meddwn wrtho; "cynhyrfodd un waith, *un waith yn unig*" (ni ddywedais wrtho mai wrth yru y prynwyr a'r gwerthwyr o'r eglwys). Yr oedd dwsin o ferched ieuainc, y rhai oeddent wedi ein gweled yn myned i fewn, yn aros yno er gweled a chlywed yr hyn oedd yn myned ymlaen rhyngom ni a'r offeiriaid, ond pan y canfyddodd hwynt yno yn edrych drwy y porth oedd yn lled agored, trodd at ynt yn wyllt, a chyfarchodd hwynt mewn iaith na ddefnyddir at gŵn. Ar hyny diangasant ymaith fel twr o adar wedi eu gwylltio. Yn yr ymweliad diweddaf hwn â *Treboule*, deallais fod yno lawer yn ffafriol iawn ac yn awyddus am adnabod y gwirionedd. Y mae trahausder a digywilydd-dra yr offeiriaid a'u *police* dirgelaidd yn eu brawychu i raddau am y pryd, ond ni chredaf fod y fath stad o ddirwasgiad sydd arnynt i barhau yn hir.

Poullan.—Mewn pentref yn y plwyf hwn, ar ol cydymddyddan lled faith am grefydd yn nghlyw rhyw ugain o bersonau, gwŷr, gwragedd a phlant, prynwyd pedwar Testament Newydd. Y mae hyn yn beth digon anghyffredin yn y rhan yma o'r wlad i alw sylw neilduol ato. Yr oedd y personau hyn o'r dechreu yn bur ammheus o honom, a gorfu i ni ddarllen amryw ddarnau lle y siaredir am y Forwyn, a gwnaeth merch ieuanc o'r pentref ddarllen amryw adnodau wedi eu cymeryd ar antur yn y Testament Newydd. Nis gallwyd perswadio y personau hyn i bwrcasu y llyfr nes iddynt gael allan drwy chwilio drostynt eu hunain fod yr hyn a ddywedir gan y gelynion am y Bibl yn dwyll. Mewn pentref arall heb fod ymhell oddiwrth hwn cawsom ar y cyntaf dderbyniad oeraidd, a chredwn ar y dechreu fod y pentrefwyr yn myned i'n gorchymyn i ffwrdd. Wedi ychydig o ymddyddan am yr Efengyl, gofynwyd i ni ai nid oeddem wedi bod yn Treboule rai dyddiau yn gynt? Wedi i ni ateb yn gadarnhaol, darllenasant amryw rannau o'r Testament Newydd, a gwerthasom ddau gopi o hono yn y pentref. Yr oedd gwerthu Gair Duw i rai oedd wedi clywed am yr hyn a wnaethom yn Treboule, yn profi eu bod wedi clywed siarad yn dda am danom ni a'n llyfrau.

Pouldergat.—Yn y pentref hwn mewn man cyhoeddus, yn ymyl yr Eglwys, yr oedd rhyw ddeugain o bersonau wedi ymgasglu—y mwyafrif yn wragedd. Gofynwyd i ni lawer o gwestiynau ar lawer o faterion—am gredo y Protestaniaid, ein barn am y Forwyn, am yr offeren, am weddïo dros y meirw, am y Saint, &c. Gwrandawsant yn astud yr hyn a ddywedem, a chlywais rai yn cymeradwyo, gan ddyweyd fod yr hyn a lefarem wrthynt yn wirionedd. Yr oedd is-faer y pentref wedi cyfarfod Le Meur yn Pouldavid y dydd o'r blaen; ac wedi dyweyd wrtho ei fod wedi derbyn ymweliad oddiwrth ei gydgrefyddwyr yn ddiweddar, a bod yn rhaid deffro y wlad yn y modd y gwnaem. Y mae yr is-faer yn un o ddynion mwyaf poblogaidd y plwyf.

Le Juch.—Y mae hen offeiriad y plwyf hwn wedi marw er ys yn agos i ddwy flynedd. Y mae ei olynydd yn cario ymlaen ryfel boeth yn erbyn Gair Duw. Wedi cael ar ddeall fod amryw o'i blwyfolion yn

meddu Testament Newydd, ymosododd arnynt, gan eu gorchymyn i'w rhoddi i fyny iddo ef, gan fwgwth gwrthod y cymun i bwy bynag a gadwent y llyfr Protestanaidd, fel y galwai Air Duw. Wedi derbyn i'w ddwylaw ryw nifer talodd *franc* (10 ceiniog) yr un am danynt. Yna rhoddodd orchymyn i gynneu tân yn nghanol y pentref, i ba un y taflodd â'i ddwylaw ei hun y llyfrau i'w llosgi.

Y mae ymddygiad yr offeiriad hwn wedi gwneyd y penboethiaid yn fwy haerllug. Synwyd ni yn fawr wrth agosâu at y pentref gweled gwraig yn drygnadu arnom fel pe buasem fleiddiaid. O'r dechreu ni wnaethom fawr sylw, ond pan welais hi yn ein canlyn i un o'r tai, gofynais iddi ei henw, gan ddyweyd wrthi y gwyddwn y ffordd i roddi taw arni. Cafodd ofn ar hyn, ac ni ddywedodd air ymhellach. Ychydig ymhellach daeth crydd a phobydd i weled y llyfrau. Ar ol ychydig o siarad am y Bibl, dechreuodd un o honynt ein difrïo, a chan fod yn ei law un o'n Biblau, taflodd ef mewn mynyd oddiwrtho i'r ddaear, a hyny heb fod gair wedi pasio rhyngom. Yr oedd y ddau wedi cytuno ymlaen llaw i wnyd hyny, a phe buasem ninnau mor annoeth a chyffroi yn eu herbyn, mae yn fwy na thebyg y cawsem ein niweidio, oblegid yr oedd yno dorwyr coed, ac amryw bersonau yn syllu arnom, ac fel yn ein gwylio. Pan ofynasom am enw y troseddwr nid oedd neb yn ewyllysio ei roddi i ni. Aethom â'r achos at y swyddog yn Douarnenez, a gwnaeth yr heddgeidwaid ymholiad a daethant o hyd i'r un euog; ond gan i'r cyfryw gydsynio i dalu am y Bibl, gadawsom ef yn rhydd ar hyny. Gobeithiwn fod yr ymchwiliad a wnaeth yr heddgeidwaid i achos y Bibl a hyrddiwyd i'r llwch mor anmharchus wedi oeri ychydig ar ymenyddiau penboethiaid y pentref, y rhai a gynhyrfid gan eu hoffeiriad.

Douarnenez.—Ymddyddanasom am yr efengyl â thyrau lliosog yn yr heolydd a lleoedd cyhoeddus y dref hon, ond y mae malais a chynddeiriogrwydd y *mamau Cristionogol (?)* (swyddogion dirgelaidd yr offeiriaid) y tu hwnt i fesur. Gwelsom rai o honynt pan yn ein gwrando yn canmol Gair Duw ac yn siarad am yr efengyl yn myned i wallgofrwydd ymron. Gwelsom un yn tynu ei phenwisg yn gynhyrfus, ac yn ei daflu i'r llawr, ac yna gan roddi ei llaw ar ei phen annhrefnus, gwaeddai allan, "Yna y cefais fy medyddio." Yr oedd yr edrychwyr ar yr olygfa fel wedi eu taro â synedigaeth, ac yna yn tori allan mewn crechwen wrth syllu ar y fath ynfydrwydd. Un arall yn neidio, yn ysgrechian, ac yn gwneyd pob math o ystumiau wrth ein gweled yn ymddyddan am Air Duw â nifer o bersonau yn ymyl ei thŷ. Yr wyf wedi cael ar ddeall, a hyny gyda hyfrydwch, fod y penboethiaid yn dechreu cael eu dwyn i'w synwyr a'u hiawnbwyll gan eu cymydogion. Yr oeddem yn siarad am yr Efengyl â rhyw ddeg ar hugain o bersonau mewn cwr o'r dref nid pell oddiwrth y môr, pan ddarfu i ddwy o'r penboethiaid hyn ddechreu ein sarhau o ffenestr y llofft, ond un o'r rhai oedd wedi bod yn ein gwrando am ysbaid o amser yn ymddyddan am yr Iachawdwriaeth yn Nghrist Iesu, a drodd ei golygon tuag atynt ac a ddywedodd wrthynt, "Os nad ydych yn dewis gwrando gosodwch eich bysedd yn eich clustiau." Wrth weled golwg ddigofus eu cymydoges, ymneillduodd y ddwy i'w hystafell a chawsom ninnau lonydd. Ugain mlynedd yn ol, o'r man yr oeddwn yn sefyll arno yn awr, yr oedd twr o wragedd wedi bygwth fy nhaflu i'r môr. Y mae yr Efengyl wedi gwneyd llawer o gynnydd yn y wlad hon er y pryd hwnw, a hyny sydd yn peri fod yr offeiriaid a'u cyfeillion mor gynhyrfus. Yr oeddem yn agos i dŷ yr offeiriaid pan y darfu i fynach, oedd wedi dyfod i'r dref i'r dyben o gynnal cyfarfod, fyned heibio i ni. Gan ei fod mor agos atom cynnygiasom iddo Destament Newydd, ond yn lle ein hateb carlamodd heibio yn frysiog, gan droi ei olwg yn ol yn awr ac yn y man, a chafodd le i ddianc gyda'i frodyr yr offeiriaid, er mawr syndod i'r edrychwyr.

Dydd Gwener, y 19eg o Orphenaf, cawsom yma gladdedigaeth dyn ieuanc o Brotestant, astudiwr yn Ngholeg Quimper. Cerddai Llywydd y Coleg ar y blaen yn dal yn ei law lyfr—gwobr o anrhydedd oedd y dyn ieuanc wedi ei hennill. Ochr yn ochr âg ef cerddai y gweinidog Jenkyn Jones. Wrth y bedd siaradodd y Llywydd ychydig eiriau yn effeithiol o ganmoliaeth i'r myfyrwyr ymadawedig oedd wedi ei gymeryd ymaith mor gynnar, oddiwrth serch ei rieni, a'r rhai a'i hadwaenent. Cyfeiriodd at y gwasanaeth crefyddol, gan ddyweyd fod yr offeiriaid Pabaidd a'r gweinidogion Protestanaidd yn pregethu yr un Duw. Wrth derfynu dywedai ffarwel; ni a gydgyfarfyddwn i fyny yna. Y mae ymadroddion y llywydd a'i bresennoldeb mewn claddedigaeth Protestanaidd wedi gadael argraff dda. Ar ei ol siaradodd y gweinidog. Wedi darllen darnau o'r Ysgrythyrau yn gyfaddas i'r amgylchiad, pregethodd ar siorwydd adgyfodiad y meirw—yn ol yr Ysgrythyrau, yr hyn a ganfyddwn yn medd agored y Ceidwad. Gwirionedd sydd yn cysuro y credinwyr, pan y mae angeu yn cymeryd oddiarnynt y goreu a feddant ar y ddaear. Yr oedd yno gynnulliad mawr yn y fynwent, ac yn eu plith amryw o bobl mwyaf cyfrifol y dref. Y mae diwrnod y claddedigaeth yn un pwysig i achos yr Efengyl.

Brynian Khasia.

Llythyr oddiwrth y Parch. C. L. Stephens.

"Mawphlang, Mehefin 8fed, 1888.

Daeth Mrs. Stephens a minnau yma ddydd Mawrth diweddaf, a bwriadwn aros yma

dros ddau Sabboth; gobeithiaf allu gweinyddu Swper yr Arglwydd wythnos i yfory. Dyma fy ymweliad cyntaf â Mawphlang ar ol ein dychweliad i Khadsawphrah wedi yr Henaduriaeth, ac ar y cyfan mae pethau yn dal eu tir yn dda. Aeth Dr. Hughes ymaith ddoe i fyned i Jiwai a Shangpwng.

Nid oes llawer i'w ddyweyd am fy nosbarth i fy hunan. Cymerais nifer o deithiau i'r pentrefi o amgylch Nongrymai, gan aros yn rhai o honynt dros nos, a bum ar daith o bedwar neu bump niwrnod i Marngor a lleoedd eraill. Yn Marngor derbyniwyd tri i'r eglwys. Gobeithiaf allu myned i Pariong yn fuan ar ol dychwelyd, i dderbyn rhai sydd wedi bod er ys tro yn cynnyg eu hunain. Bydd yn ddrwg genych glywed fod yr athraw yn Mairang wedi dwyn gwaradwydd ar ei broffes Gristionogol. Cefais achos fwy nag unwaith i golli ymddiried ynddo, er ei fod wedi bod yn athraw yn y Dosbarth am lawer o flynyddoedd.

Yr oedd genym briodas ardderchog yn Nongrymai yr wythnos ddiweddaf—priodas Sim (Brenin) Nongspwng âg un o athrawesau y Dosbarth. Eisteddodd tua phedwar cant i gyfranogi o'r wledd a barotoisid. Yr ydym yn ddiffuant yn gobeithio y bydd i bresennoldeb ei wraig ymysg ei bobl fod o help i'r gwaith yn Nongspwng. Mae hi yn wraig o gryn allu a chyrhaeddiadau, a gall wneyd llawer yn mhlaid achos Duw yn y rhan hono."

DOSBARTH SHILLONG.

Llythyr oddiwrth y Parch. T. Jerman Jones.

Shillong, Mehefin 24, 1889.

Mae llawer o waeledd wedi bod yn y pentref hwn, neu y rhan hon o orsaf Shillong, ac yn y pentrefi cylchynol, y ddau fis diweddaf: twymyn ac anhwylderau eraill, poen tost yn y pen, rhywbeth tebyg i *sunstroke*, y boen mor fawr yn y pen ar adegau nes y byddai y person yn syrthio i lawr yn hollol anymwybodol. Mae y *fever* wedi bod ac yn parhau yn ddrwg iawn, a nifer mawr yn dyoddef dani, ac amryw yn colli y dydd ac yn myned i dragywyddoldeb. Bu pedwar o Gristionogion oeddynt yn byw yn ein hymyl yma farw y mis diweddaf.

Y gyntaf a aeth ymaith oedd geneth tua 13 mlwydd oed, o'r enw Ka Sngowbha. Un o'r plant amddifaid a adawyd gan y *cholera* ddeng mlynedd yn ol ydoedd hi. Bu ei thad a'i mam a geneth fach lai na hi farw yr adeg hono; gwraig addfwyn, ddeallus, a gwyneb hawddgar oedd ei mam. Rhyw 6 neu 7 mis cyn hyny yr oedd wedi dyfod yma i fyw o bentref tua 10 milldir o belldr, a dysgodd ddarllen y Testament yn fuan. Yr oedd yn ddiwyd iawn i ddeall ffordd yr iachawdwriaeth, ac yn gyson yn y cyfarfodydd crefyddol. Yr oedd y cyfeillion wedi cytuno i dderbyn y teulu i'r eglwys yr wythnos ganlynol; ond torodd y *cholera*, yr hyn a roes attalfa ar bob peth yr adeg hono, ac ni chafodd hi na'i phriod eu derbyn i'r eglwys ar y ddaear, ond yr wyf yn teimlo yn bur hyderus fod y ddau wedi credu i fywyd tragywyddol yn Iesu Grist. Cymerwyd y wraig yn sal yn y prydnawn, ac yr oeddwn gyda hi yn y tŷ am ddeg y noswaith, pryd y troes ei gwyneb ataf ac yr edrychodd yn fy wyneb, a dywedodd, "Byddaf fi wedi marw cyn y bore, ac nid oes ond un peth yn fy ngofidio —beth ddaw o fy mhlant bach; a wnewch chwi addaw i mi y bydd i chwi ofalu am danynt, a'u dwyn i fyny i fod yn blant i Iesu Grist—dyna yr hyn sydd yn fy mlino?" A dywedais wrthi y gwnawn yn sicr, y gwnawn bob peth oedd yn fy ngallu i gyflawni ei dymuniad. Yna, meddai, gan wasgu fy llaw, "Bydd i mi farw yn dawel gan ymddiried yn yr Iesu." Felly bu hi a'i gŵr ynghyd a'r plentyn ieuengaf farw yr adeg hono, ond arbedwyd eu geneth a brawd iddi, ac y maent wedi bod gyda ni am 10 mlynedd, ac yr oedd yn eneth iach, gref a siriol, yn fywiog a deallus. Ymdrechodd yn galed am fis, ond y *typhoid fever* a orchfygodd, a bu farw ymhen deng mlynedd ar ol ei mam.

Un arall oedd gwraig U Kirishon Sim, ar ol cystudd o tua chwe' diwrnod, gan adael pedwar o blant bychain heb fam i ofalu am danynt. Un o Bhoilymbong oedd hi, daeth yn Gristion oddeutu pum' mlynedd yn ol, a throes allan yn Gristion da iawn. Dyoddefodd nid ychydig oblegid ei chrefydd oddiwrth ei theulu; bu raid iddi adael ei chartref heb ddim, ac yr oedd ei chwiorydd yn waeth yn ei herbyn na'i brodyr. Dysgodd ddarllen yn dda, a byddai yn darllen llawer ar y Testament pan yn y tŷ ei hunan, ac yr oedd yn ddiwyd yn y cyfarfodydd crefyddol, yn dwt a gofalus yn ei thŷ, ac yn ddystaw a di ogan am bawb. Symudodd yma i fyw tua dwy flynedd yn ol, ac oddiyma yr ehedodd i'r wlad well i fyw. Gweddiodd Mrs. Evans, Llanwrtyd, lawer dros hon hefyd, ac y mae yn bur sicr y cyfarfyddant ryw ddiwrnod yn y nefoedd. Ymhen ychydig ddyddiau ar ol y fam bu farw y plentyn ieuengaf. Mae ei gŵr yn Gristion da ac yn un o'r gweithwyr goreu gyda'r achos. Ymddengys yn ddiau ei fod yn cael ei nerthu gan Iesu Grist i ddal y brofedigaeth chwerw hon fel Cristion.

Un arall a fu farw y mis diweddaf oedd mam U Stir, yr hon oedd yn byw yn Molyki, pentref gerllaw gorsaf Shillong. Cofleidiodd Gristionogaeth tua 5 mlynedd yn ol, ac yr oedd yn fywiog a zelog, yn llawn o ffydd yn yr Iesu a chariad ato, ac awydd dwyn eraill i'w adnabod a'i addoli. Bu yn sal yn hir o'r dropsi, ac nid oedd un driniaeth na meddyginiaeth yn effeithio er ei gwellhau. Ar ol hir ddyoddef, a hyny yn amyneddgar, daeth dydd y *trial*, dydd y brofedigaeth: daeth ei holl deulu—y nifer oedd heb fod yn Gristionogion, ati i ymosod arni, a dyna lle y buont am ddau ddiwrnod yn defnyddio pob dyfais i gael ganddi gydsynio i dori wyau ac aberthu i'r

demoniaid er iddi gael adferiad; ac yn y diwedd llwyddasant. Aeth yn ysglyfaeth iddynt, a chariwyd hi o dŷ ei mhab i Lait-lynghot, a dyna lle y bu tori wyau, ac aberthu, ac yfed a chrechwen am y fudd-ugoliaeth hon. Ond ymhen mis hi gofiodd, ac er yn sal hi gododd, a chydag awdur-dod gorchymynodd i'r torwyr wyau fyned allan yn y fan. "A wyt ti yn meddwl," meddai wrth un o honynt, "fy mod i am adael Iesu Grist, yr hwn a fu farw drosof? bydd i mi lynu wrtho hyd y diwedd, a bydi iddo Ef faddeu i mi y camwedd hwn. Chwi weision y diafol, y rhai sydd yn hudo i ddinystr a cholledigaeth, ewch ymaith o'm golwg; yr wyf fi yn troi yn ol at fy mhobl ac at fy Nuw." Yna dechreu-odd ganu

"O gariad, O gariad, anfeidrol ei faint," &c.

Cariwyd hi yn ol i dŷ ei mab, ond ni wellâodd o'r afiechyd, ond llwyr wellâodd o rau ei hysbryd, a chafodd gyflawn adfer-iad; ond ni chafodd y fraint o ddyfod i foddion gras ar ol hyn. Aeth nifer o'r cyfeillion yno i'w thŷ er ei hadferyd i gymundeb y saint, a dywedent fod teimlad-au rhyfedd yn eu calon wrth wrando arni yn adrodd hanes y brofedigaeth, y demtas-iwn, ei chwymp, ei hymdrybaeddu yn y llaid a'i chodiad trwy ras Iesu Grist; un fynyd yn rhedeg arni ei hunan am ei gwadiad a'i ffolineb, yna yn canmawl Iesu Grist, nad oedd neb fel Efe—yna yn rhedeg ar y rhai oedd wedi ei themtio, ac yn ei bygwth hi ar Satan am ei thwyllo. Yr oedd yn dyweyd wrth bawb mor fawr oedd trugaredd yr Iesu tuag ati, yn maddeu iddi y tro gwael oedd hi wedi ei wneyd âg ef. Bu fyw am rai misoedd ar ol hyn, ac yr oedd ei henaid yn llawn o dangnefedd a gorfoledd yr iachawdwriaeth hyd y diwedd, ac felly yr ehedodd ymaith i'r wlad nad oes neb o'r preswylwyr yn cwyno ei fod yn glaf.

"Aeth pob gwahanglwyf ymaith,
Glân fuddugoliaeth mwy,
R wy 'n canu wrth gofio 'r boreu
Na welir arnaf glwy'."

Brynian Jaintia.

Llythyr oddiwrth y Parch. R. Evans.

Shangpoong,
Mehefin 18fed, 1889.

Mae cryn amser er pan ysgrifenais ddim ynghylch y gwaith. Mae y gwaith yn myned yn ei flaen yn rheolaidd; ond y mae weithiau mor reolaidd fel nas oes nemawr ddim neilduol i'w ddyweyd am dano. Ac y mae felly y misoedd yma. Oddeutu tair wythnos yn ol bum yn Jowai yn treulio Sabboth, gan fod yno nifer i gael eu bed-yddio, a'r eglwys eisieu cael cyfranogi o Swper yr Arglwydd. Bedyddiais dri ar ddeg, sef tri mewn oed a deg o blant. Nos Sadwrn cynnaliwyd cyfarfod i siarad ar y sacrament a marwolaeth Crist; cawsom hefyd brofiad ysbrydol dau frawd a dwy chwaer ar y mater. Dywedent oll fod yr ordinhad hon brou bob amser yn foddion i'w dwyn yn nês at Iesu Grist na brou yr un moddion arall. Teimlent eu hunain wyneb yn wyneb megys âg Ef yn ei ddy-oddefiadau. Gwelent ei gariad yn gadael iddynt y fath arwydd o'i undeb â hwynt ar y ddaear, er ei fod o rau ei gorff yn y nef-oedd. Dywedai un ei fod wedi cael y fath olwg ar yr Arglwydd Iesu, rai gweithiau, fel nas gallai ddyweyd pa un ai â llygaid ei gorff ai â llygaid ei ysbryd yr oedd yn ei weled. Ond yr oedd yn sicr ei fod yn wir-ioneddol bresennol, a'i fod yntau wedi cael nerth mawr i'w ysbryd a chadarnhad i'w ffydd oddiwrth hyny. Mae hyn yn dangos fod yr Ysbryd Glân yn gweithio yn nghalonau y Khasiaid yn debyg iawn i fel y mae yn gwneyd yn nghalonau y Cymry. Y mae efe rywfodd neu gilydd yn tystiolaethu yn nghalonau y saint am Grist a'u hundeb âg Ef. Cawsom gyfarfodydd da a Sabboth hapus.

Er fod pobl Jowai yn lled hunan-ddigon-ol gyda golwg ar rai pethau, eto nid ydynt yn teimlo eu bod yn gallu gwneyd heb genadwr gystal a chydag un; ac y maent yn cyfrif y dyddiau hyd ddyfodiad Mr. Jones yn ol. Yr ydym ninnau yn teimlo yr un modd, gan ein bod yn teimlo ein bod ymhell iawn oddiwrth Ewropëaid pan na bydd Cenadwr yn Jowai.

Wythnos i'r Sabboth diweddaf yr oedd-ym yn gwobrwyo chwech o ferched, sef dwy am ddysgu allan yr Epistol at yr Hebreaid ac Efengyl Marc, a phedair am ddysgu Efengyl Marc. Gwnaethum hyny ar ddechreu yr oedfa er mwyn rhoddi arbenigrwydd ac anrhydedd ar y rhai llafurus. Yr oedd yr holl gynnulleidfa yn cymeryd dyddordeb mawr yn y rhan yma o'r gwasanaeth, gan ein bod yn cyhoeddi pa rai o'r genethod oeddynt wedi adrodd oreu. Gobeithio y gwna peth fel hyn arwain i fwy o lafur cyffredinol. Cyn di-weddu rhoddwyd y ddau Epistol at Tim-otheus i'r ysgol i'w dysgu allan erbyn yr Henaduriaeth. Nid oeddym yn addaw gwobr y tro hwn; ond fe allai y rhoddwn wobr i'r rhai goreu.

Heddyw daeth dyn ieuanc o bentref Shangpoong ataf i ddyweyd ei fod o'r diwedd wedi penderfynu, deued a ddelo, dyfod i blith y Cristionogion a rhoddi ei hunan i Grist. Ac yr wyf yn credu ei fod o ddifrif, oblegid y mae wedi bod o dan argyhoeddiad, gwahanol i'r cyffredin, er's llawer o fisoedd. Ei enw yw U Sybang. Mae ei dad a'i fam yn parhau yn wrth-nysig er eu bod er's blynyddoedd o dan ryw fath o argyhoeddiad. Maent wedi cael gwaeleddau lled ryfedd yn y teulu, ac y maent yn teimlo mai Duw sydd yn eu cosbi. Eto parhant i anufuddhau. Buasai U Sybang wedi dyfod atom er's misoedd oni b'ai ei fod yn dysgwyl i'r teulu ddyfod gydag ef; ac nid oedd y pryd hwnw yn gallu meddwl dyfod hebddynt, gan ei fod yn amlwg yn caru ei rieni yn fwy na'r

cyffredin. Yr oedd peth arall hefyd yn graig rhwystr fawr ar ei ffordd. Nis gwyddai pa fodd i ennill ei fara beunyddiol, gan na chai *ddim* i ddyfod gydag ef. Yr oedd ymostwng i weithio wrth y dydd ar dir pobl eraill yn brofedigaeth fawr i'w falchder, gan nad oedd hyd yn hyn wedi arfer gweithio i neb ond i'w rieni. Erbyn heddyw, pa fodd bynag, yr oedd wedi cael help i orchfygu ei holl rwystrau. "Yr wyf wedi penderfynu bwrw fy nghoelbren yn eich mysg," meddai, "pa beth bynag a ddaw o honof." Mae ei rieni a'i fodryb wedi addaw pob peth iddo os erys gyda hwynt. Gobeithio y caiff gymhorth i ddal. Mae y pair yn un poeth iawn. Mae efe yn gadael rhieni, brodyr a chwiorydd, &c., er mwyn Iesu Grist. Dywedais wrtho fod yr addewid yn "gan' cymaint yn y byd hwn, ac yn yr hwn a ddaw fywyd tragywyddol." Mae U Sybang wedi bod yn myned i ysgol nosol Shangpoong er's blynyddoedd, ac wedi myned drwy y llyfr Saesoneg cyntaf *(English First Primer)* a rhifyddu mor belled a "*Practice*," a "*Rule of Three*." Dyma y ffrwyth cyntaf, yn yr ystyr yma, o ysgol Shangpoong. Yr wyf yn son mwy am yr achos hwn nag arfer, gan fy mod yn ei ystyried yn un gwahanol. Gweddïed cyfeillion dros y llanc.

Gwelais athraw Shilliang Myntang heddyw, yr hwn a ddywedai fod yr Efengyl yn llwyddo yn fawr yn y pentref. Mae pobl o dipyn o ddylanwad, a rhai da yn ol syniad y Khasiaid (Jaintiaid) yn troi at grefydd. Mae un fu yn Pator (ail mewn awdurdod) newydd ymuno â'r Cristionogion. Mae hyn yn gwneyd y Dolloi yn fwy yn eu herbyn. Cyn i Gristionogaeth ddechreu yn y pentref, nid oedd yn ymddangos yn elyniaethus iawn; ond erbyn hyn y mae efe yn hollol wahanol. Mae un o'r Cristionogion (U Kypa Ka Labid) wedi rhoddi i fyny ei dŷ tuag at gadw ysgol ynddo, am nas gallasent gael tir cyfleus arall i adeiladu yr ysgoldŷ arno; ac y mae efe a'i deulu wedi myned i gydfyw gyda theulu Cristionogol arall. Mae y llythyr hwn yn rhoddi dwy ffaith i ddangos fod pobl yn Khasia a Jaintia yn gallu hunanymwadu ac aberthu cryn lawer er mwyn yr efengyl.

Bum i yr wythnosau diweddaf yn lled wael. Clywodd Dr. Hughes am danaf, a daeth yma i'm gweled. Teimlem yn ddiolchgar iawn iddo. Gwellheais lawer wrth ei weled. Syndod hapus i ddyn claf yn y *jungle* oedd gweled Doctor heb ei ddysgwyl. Yr wyf yn awr yn llawer gwell.

Yr oedd yn dda iawn genyf ddeall fod bechgyn y chwarelau llechi yn bwriadu anfon rhoddion o lechi i blant yr ysgolion yma. Gobeithiaf y gwnant, gan fod llechi yn ddrudion iawn yn y wlad yma, ac, heblaw hyny, yn anhawdd iawn i'w cael, yn fynych, am bris yn y byd. Gan fod plant pur fychain yn dechre ysgrifenu yn ein hysgolion, a'r rhai hyny yn fwy eu nifer na phlant mawr, bydd nifer da o lechi bychain yn gyfleus iawn, yn gystal a rhai mawrion.

RHODDION I'R GENADAETH.

Mewn llythyr dyddiedig Gorphenaf 6ed, dywed y Parch. J. Ceredig Evans: "Onid allech chwi anfon defnyddiau gwnïo *(calico, prints*, edau, &c.), i Mrs. Evans at wasanaeth ysgol y Genethod yma? Mae yma lawer iawn o enethod yn yr ysgol, ac y mae yn anhawdd i ni gael digon o ddefnyddiau. Pe byddai i ryw gyfeillion caredig anfon cyflenwad, derbynir ef yn ddiolchgar. Mae Mrs. Evans yn anfon ei diolchgarwch i Mrs. —— am y cyflenwad o lyfrau plant a dderbyniodd yn ddiweddar." Bydd Miss Elizabeth Williams yn cychwyn i Sylhet, a'r Parch. John Jones i Jiwai, yn nechreu Hydref. Teimlir yn dra diolchgar os bydd i gyfeillion anfon rhyw bethau at wasanaeth yr ysgolion mewn pryd i fyned gyda hwynt. Bydd y pethau canlynol yn dderbyniol:—Darnau o wlaneni, *calicoes, cotton reels, knitting and crochet cotton and needles*, gwnïaduron, *scissors*, nodwyddau, llyfrau gyda darluniau, rhifynau glân o'r *British Workman, Band of Hope Review, Children's Friend*, &c., llechau ysgrifenu, pensils, &c., &c.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Waterloo, ger Liverpool	8	5	9
Mr. John G. Jones, Pwllheli	20	0	0
Mr. D. Williams, Bala	0	5	0
Capel Saesoneg Pontypridd	1	2	4
David Street, Liverpool	14	5	1
Dosbarth Mr. H. Parry, Engedi, Brymbo, tuag at Feddfaen i U Borsing	0	4	0
Casgliad yn Gwastad, Sir Benfro, trwy law y Parch. G. Williams, tuag at Feddfaen, &c., U Borsing	2	8	6
Un o Abergele sydd yn caru yr achos ar Fryniau Khasia	5	0	0
Tuag at adeiladu Capel Sohka	2	0	0
Tuag at adeiladu Capel Wahiajer	3	0	0
Tuag at Feddfaen i U Borsing	5	0	0
I Weddw U Borsing	5	0	0

Gorphenaf 17eg.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.